Y DRYSORFA.

Rhif. 700.] CHWEFROR, 1889. [Llyfr LIX.

HANES ADNODAU.

GAN Y PARCH. OWEN M. EDWARDS, B.A., RHYDYCHEN.

I.

"*Pth law y gorchymynnaf fy ysbryd.*"

Y mae i adnodau eu hanes. Bu rhai, fel milwyr, ar faes brwydr yn nerthu'r dewrion; bu rhai ereill, fel chwiorydd trugaredd, yn cysuro carcharorion mewn daeargelloedd; bu llawer adnod yn hofran fel angel uwchben gwely marw sant neu bechadur; bu un arall yn arwyddair gwrthryfel yn erbyn gorthrymwr neu yn erbyn Duw. Y mae hanes ambell i adnod yn gyffrous, a'i hymddangosiadau'n annysgwyliadwy; ehed o faes brwydr i'r pulpud, o'r wledd i ystafell angeu; parddua ei hadenydd drwy chware ar wefus yr annuwiol, ac ymhoewa drachefn mewn purdeb a thlysni fel negesydd rhyw enaid pur at ei Dduw. Y mae hanes adnod arall, yn aml, yn dawel dawel; yr un cwmni mae'n gadw, gwyddom ym mha le i chwilio am dani. Adnod felly ydyw adnod gwely marw,—"*Pth law y gorchymynnaf fy ysbryd.*"

Nid fel adnod gwely marw y cychwynnodd hon ei gyrfa. Dafydd a'i dywedodd gyntaf, pan oedd gyfyng arno, ei nerth wedi pallu o herwydd ei anwiredd, ac yntau'n warthrudd ymysg ei elynion.

Ar Galfaria y clywn hi nesaf. Prin yr adnabyddwn hi yno, gan y cyfnewidiad ddaeth drosti. Torrodd goleu newydd ar y byd yn awr y marw rhyfedd hwnnw, a thrawsffurfiwyd yr adnod yn ei wydd. Daeth ei hadenydd yn wynach, ei chalon yn burach; ac adnod yr Iesu'n madde, nid adnod Dafydd yn melldithio, a fu byth mwy. Swn ofn marw sydd ynddi ar wefusau Dafydd, ofn ei anghofio fel un marw allan o olwg. Ond ar Galfaria, try'r adnod yn air croesaw i Angeu,—angeu digolyn un yn gorffwys wedi gwneyd y gwaith mwyaf erioed. Diane rhag ei elynion yr oedd Dafydd wrth orchymyn ei ysbryd i'r Arglwydd Dduw, gweddïo am ei wared o'u llid hwy yr oedd; ymadael at ei Dad yr oedd yr Iesu, wedi achub ei elynion ef. Teifl cymdeithion yr adnod oleu rhyfedd ar newidiad ei chymeriad. Ei chydymaith yn amser ffô Dafydd oedd hon,—"Gwaradwydder yr anuwiolion, torrer hwynt i'r bedd." Ond y mae ganddi gydymaith newydd ar Galfaria,—"O Dad, maddeu iddynt." Ac yn ei chwmni newydd yr ymhyfryda'r adnod byth, wrth esgyn ger bron Duw oddiar bob gwefus yn awr.

Ni chaf ddilyn yr adnod yn holl hyd ei hanes. Llwybr rhyfedd fu iddi,—trwy ddaeargelloedd, trwy dân merthyrdod, trwy ffauau llewod, trwy feusydd brwydr, trwy gartrefleoedd tawel. Ni chaf ond cymeryd golygfa yma ac acw, i ddangos pa oleuni deifl yr adnod oddiar ei haden wrth grwydro drwy hanes y byd.

Nid oes dim yn hanes yr Eidal mor brudd a diwedd teulu Carrara. Yr oedd eu hymdrech yn un anobeithiol,

—yn erbyn gallu haiarnaidd Venice. Yn 1378 yr oedd Francesco da Carrara wedi ymgynghreirio â chynllwynwyr yn erbyn y weriniaeth falch, ddidrugaredd. Rhwymwyd y cynllwynwyr wrth geffylau gwylltion i'w rhwygo'n ddarnau, a gwnawd i Francesco benlinio i ofyn maddeuant. Hyny a fu, ond, er i'r bardd Petrarca gyhoeddi heddwch bythol, yr oedd gelyniaeth marwol rhwng teulu Carrara a Venice o hyny allan. Cyn pen y flwyddyn wedi gweled Francesco ar ei liniau, yr oedd Venice yn ymladd am ei bywyd yn erbyn Genoa, a thyngodd Carrara na chai neb roddi cymhorth iddi o'r tir. Wedi blwyddyn o ymladd a newyn, yr oedd nerth Venice ar ballu; ac ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn 1380 yr oedd yn edrych yn bryderus tua gorwel y dwyrain, gan ddisgwyl am Carlo Zeno a'i lynges. Pan oedd y Genoaid ar ennill ynysoedd Venice, gwelwyd hwyliau duon llongau Zeno yn d'od. Yr oedd pob perygl drosodd; gwnawd heddwch â Genoa cyn hir. Ac yna bu blynyddoedd o ddial chwerw ar dylwyth Carrara. Trwy warchae arnynt yn eu cestyll, trwy eu hud-ddenu, trwy eu hymlid o wlad i wlad, dygwyd hwynt, o un i un, i ddaeargelloedd Venice. Yr olaf i dd'od oedd y tad, Francesco, wedi dyoddef pob newyn cyn rhoddi Padua i fyny. Gadawyd ef a'i feibion talentog gyda'u gilydd am fis, ac yna gwahanwyd hwy am byth. Daeth y Deg, yn eu mygydau duon, i gell y tad, a'r dienyddwr gyda hwy. Bum yn y gell erchyll hono, a gwn fod y meibion yn clywed ymdrechion eu tad yn erbyn y dienyddwr o'r gell gerllaw. Ymgofleidiodd y meibion, ac arweiniwyd hwythau, y naill ar ol y llall, i gell eu tad, i gyfarfod y dienyddwr. Giacomo, yr ieuengaf, oedd yr olaf i farw. Y mae darluniad o hono yn nghanol hen groniel sych. "Chwech ar hugain oedd ei oed, yr oedd yn harddach na neb yn yr Eidal. Yr oedd o bryd goleu, fel ei fam; o wedd feddylgar, o dymher addfwyn, ac yn caru Duw. Llariaidd oedd ei ymadrodd, a dengar; bywyd angel oedd ei fywyd ef." Cludwyd ei gorff tan Bont yr Ocheneidiau, a gorwedd dan garreg ddilythyren, mewn eglwys gerllaw. Flynyddau wedyn, dywedodd y dienyddwr hanes y tywysog ieuanc yn marw,—ei lythyr olaf at ryw Flodeuwedd, ei weddi, a'i air olaf, "I'th law y gorchymynnaf fy ysbryd."

Ni ofynai neb beth wneid yn naeargelloedd dirgel Venice, yr oedd pawb yn clustfeinio am eiriau olaf gŵr oedd ar wely angeu yn mhentref Eisleben yn ngauaf 1546. Dygwyddiad oedd i Fartin Luther dd'od i'w hen gartref i farw. Chwilio am heddwch i'w enaid oedd gwaith bywyd Luther, ac ni fu neb erioed yn byw bywyd mwy ystormus nag ef. Yn Eisleben yn unig y bu ei enaid mewn heddwch,—yn ei blentyndod ac ar ei wely marw. Chwilio am heddwch yr oedd pan adawodd y byd a'i bleserau, gan obeithio y cai ei ysbryd cynhyrfus orffwysdra yn nhawelwch y fonachlog. Ond yno, cafodd ysgrifeniadau cyfrin a Bibl, a daeth yn fwy o ystorm ar ei enaid tlawd tywyll nag erioed. Gwelodd fod yr Eglwys,—yr adeilad yr oedd wedi gobeithio cael trigfa lonydd ynddi,—wedi ei hadeiladu ar y tywod. Y mynach hwn, wrth chwilio am dawelwch enaid, chwilfriwiodd allu Eglwys ac Ymherodraeth Rhufain, hen frenhines y byd. "Ym mha le y cei nodded, pan fydd holl dywysogion y ddaear wedi troi yn dy erbyn?" "Yn y nefoedd," oedd yr ateb. Ail gyhoeddodd Luther athrawiaeth cyfiawnhad trwy ffydd, ac nid oedd ymherawdwr na Phab fedrai wrthsefyll hono. Cyn huno, gwelodd yr holl ogledd-dir yn cael heddwch cydwybod yn ngwaed yr Oen. Ond, nid oedd gorffwys i'r diwygiwr. Yr oedd rhai o'i ddilynwyr yn myn'd yn

rhy bell, yn lle heddwch daeth syniadau rhyfedd a gwarchae ar ddinasoedd a rhyfeloedd mawr. Yn nghanol y rhai hyn y bu Luther farw. I heddychu dwyblaid ddig y daethai i Eisleben. Disgwyliai llawer un iddo ofyn maddeuant ar wely angeu am alw iau yr eglwys yn "gaethiwed Babilon," am losgi dedfryd y Pab, am herio pob gallu dan y nef. Peth ofnadwy i hwn, yn ol tyb llaweroedd, oedd syrthio yn nwylaw y Duw byw. Ond, wrth adael y dwymyn a'r rhyfel, i gael heddwch o'r diwedd, geiriau olaf Luther oedd,—"I'th law y gorchymynnaf fy ysbryd."

Bu Luther farw cyn cwbl orphen ei waith, ac yr oedd cymylau duon yn codi. Y mae marw pruddach na hwn, —marw pan bo'r achos y merwir drosto wedi cwbl fethu. Marw felly oedd marw deg o saint y Duw Goruchaf yn Llunden yn mis Hydref, 1660. Yr oedd y deg hyn, ynghyd a llawer ereill, wedi ceisio gwneyd y Saeson yn ddeiliaid teyrnas Dduw. Tuag at wneyd hyny, yr oeddynt wedi torri pen y brenin, wedi sefydlu gweriniaeth, ac wedi gwneyd cyfnewidiad mawr yn neddfau, defodau, a moesoldeb y wlad. Nid oes dim mor berygl a cheisio gwneyd dynion yn grefyddol er eu gwaethaf. Maddeuodd y Saeson i'r brenin am eu gormesu, nid oeddynt yn addfed i weriniaeth wedi ei seilio ar gyfamod rhwng Duw a dyn. Ac anaml y bu carchar yn cynnwys deg o ddynion mor hynod a'r rhai oedd yn Nhŵr Llunden yn Hydref, 1660,—dynion wedi ceisio gwneyd y deyrnas yn eiddo Duw, ac wedi methu. Yr oedd yn eu mysg hen Gymro penwyn o fynyddoedd Meirionnydd,—blaenffrwyth unig o gynhauaf toreithiog o werinwyr a chrefyddwyr. Un yn unig oedd yn ofni marw,—y pregethwr Hugh Peters. Efe oedd wedi pregethu i Dŷ y Cyffredin y Sul wedi dienyddio'r brenin. A dyma ei destun,—

"Holl frenhinoedd y cenhedloedd, hwy oll a orweddasant mewn gogoniant, bob un yn ei dŷ ei hun. Eithr tydi a fwriwyd allan o'th fedd, fel cangen ffiaidd, neu wisg y lladdedigion, y rhai a drywanwyd â chleddyf, y rhai a ddisgynnent i gerrig y ffos, fel celain wedi ei mathru. Ni byddi mewn un bedd a hwynt, o herwydd dy dir a ddifethaist a'th bobl a leddaist; ni bydd had yr annuwiol enwog byth."

Yr oedd Cromwell yn eistedd o'i flaen, a gwenodd wrth glywed testun mor briodol. Bu Hugh Peters yn arwain y milwyr mewn gweddi o flaen llawer brwydr waedlyd; ond, pan yn eu harwain trwy farwolaeth fel hon, efe yn unig oedd yn ofni. Anhebyg iawn i'w gilydd oeddynt, y deg hyn, ond buont farw yr un fath, yr un adnod fu'n gweini arnynt. Thomas Harrison oedd y cyntaf i fyn'd trwy'r gwlaw i'r dienyddle. Yr oedd meddyliau pur a bywyd sanctaidd y milwr hwn wedi ymddelwi ar ei wyneb, yr oedd yn un o ddynion harddaf ei oes. Pan ar ei ffordd i fan y dioddef, clywodd lef un yn gofyn,—"Pa le mae'r ACHOS yn awr?" "Y mae'n FYW, fy nghyfaill, ac yr wyf finnau'n cael marw drosto." Yn awr buddugoliaeth ei elynion, diolchodd Harrison i Dduw ar y dienyddle am gael marw fel ei Waredwr,—yn aberth i'r ACHOS. "Beth ydyw hyn wrth y peth ddioddefodd fy Ngwaredwr drosof fi?" Yr oedd y bobl yn meddwl fod yr "achos" rhyfedd hwnw wedi methu am byth, ond soniodd Harrison am fraich ogoneddus y Duw tragywyddol cyn anadlu ei weddi olaf,—"I'th law y gorchymynnaf fy ysbryd."

Yr oeddwn wedi meddwl dilyn yr adnod i Gymru,—yng Nghymru yr hoffwn adael hanes pob un,—ond y mae fy ysgrif yn rhy hir eisoes. Oni fydd gan adnodau Duw hanes rhyfedd i'w ddyweyd wrtho ddydd a ddaw?

Y PRIF FFEITHIAU YN HANES CRIST.

V.—EI WEDDNEWIDIAD.

Gan y Parch. T. JAMES, M.A., *Llanelli.*

PAROTOI ei hun at waith yr oedd yr Iesu yn y bennod ddiweddaf—Satan yn ceisio ei drechu pan yn wan a dibrofiad, ond yn cael ei orchfygu ac yn cilio ymaith, gan adael y gorchfygwr o dan ofal angelion. Cawn ef yn awr mewn cwmpeini gwahanol, y rhai a ddanfonwyd ato gan ei Dad ar neges bwysig. Y mae yr amgylchiad hwn yn myned o dan yr enw "Gweddnewidiad," oblegid y cyfnewidiad rhyfedd a gymerodd le yn agwedd y Gwaredwr yr adeg hono: "Gwedd ei wynebpryd ef a newidiodd a'i wisg oedd yn wen ddysglaer." "Ac efe a weddnewidiwyd yn eu gwydd hwynt, a'i ddillad ef a aethant yn ddysglaer, yn ganaid iawn fel eira, y fath na fedr un panwr ar y ddaear eu cànu." "A gweddnewidiwyd ef ger eu bron hwy, a'i wyneb a ddysgleiriodd fel yr haul, a'i ddillad oedd càn wyned a'r goleuni." Nid yn unig yn wŷn, ond hefyd yn ddysglaer gan danbeidrwydd y gogoniant. Defnyddir gwahanol ymadroddion gan yr Ysgrifenwyr Sanctaidd i osod allan yr hyn a gymerodd le, o herwydd diffyg iaith digon grymus—geiriau yn pallu gan wendid i fod yn gyfrwng cymhwys i amlygu dysgleirdeb yr ymddangosiad, ac felly defnyddir rhai amrywiol er cynnorthwyo eu gilydd. Yr oedd hwn yn ogoneddusach a chyflawnach na dysgleirdeb gwynebpryd Moses pan yn dyfod o'r mynydd. Gogoniant benthyciol oedd hwnw—dylanwad presennoldeb Duw oddiallan iddo yn effeithio ar y wynebpryd, ond dim ar ei ddillad; eithr hwn, ei ogoniant mewnol ef ei hun a effeithiai ar yr holl gorff, ac hyd yn nod ar ei wisgoedd. Golyga y gair "Gweddnewidiad" fod y gogoniant ynddo o'r blaen, ac yn awr yn ymwthio i'r golwg, gan ddwyn yr oll i'w ansawdd ei hun. Deuai gogoniant mewnol Person yr Iesu i gyffyrddiad â gogoniant presennoldeb Duw ar y mynydd, nes gwneuthur y lle yn ofnadwy.

Diau fod hyn yn anrhydedd i'r Iesu ond nid yn ychwanegiad at ei ogoniant—dim ond eglurhâu yr hyn oedd yn ddo ef ei hun; oblegid yr oedd "holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio ynddo yn gorfforol," ond ei fod yn cael ei orchuddio pan ar y ddaear gan len o gnawd. Gwelodd y tri dysgybl hyn oll, a chlywsant yr ymddyddan fu rhyngddo ef â Moses ac Elias, yr hyn a gofnodir gan yr Efengylwr Luc.

Nid yw ein cyfieithiad ni yn rhoddi syniad cywir am sefyllfa y dysgyblion yn y fan hon. Dywedir fod Pedr a'r rhai oedd gydag ef "wedi trymhâu gan gysgu." Ni allai fod y cysgu hwn yn gyson âg amcan eu dyfodiad yno; canys os yn cysgu, ni allent weled na chlywed. Diau mai er bod yn llygaddystion o'r hyn a gymerai le y dygwyd hwy i'r Mynydd; ac os cysgasant, ni chyrhaeddwyd yr amcan, ond yn rhanol, modd bynag; canys aeth cyfran helaeth o'r weledigaeth heibio heb iddynt ei gweled. Nid tebyg iddynt gysgu yr adeg hon. Diau eu bod wedi "trymhâu," eithr nid gan gwsg naturiol y trymhäwyd hwy; ond dysgleirdeb y golygfeydd a gogoneddusrwydd y gweledigaethau dwyfol a gynnyrchai y fath ddylanwad nes peri iddynt syrthio mewn llewyg—y cnawd yn rhy wan i'w dal. Gwell cyfieithiad o'r frawddeg yw, "Ac wedi ymgadw yn effro drwy'r amser," hwy a welsant ei ogoniant ef. Yr oeddynt mewn math o drymder corfforol, ac ar yr un pryd yn effro, fel ag i fod yn alluog i weled ei ogoniant a chlywed yr ymddyddan. Tra yr oedd Pedr a'i frodyr mewn dychryn, o herwydd y gweledigaethau, collwyd yr Athraw a'i ymwelwyr nefol am yspaid fer; ac yna cafwyd ef yn unig, ac ni welwyd Moses ac Elias mwy.

Edrychwn ar yr amgylchiad hynod hwn yn ei amcan, yn ei berthynas â'r Apostolion, ac yn ei berthynas â'r oesoedd dyfodol.

I. AMCAN Y GWEDDNEWIDIAD.

Sicr yw fod rhyw amcan mewn golwg yn hyn. Nid oedd yr Arglwydd Iesu pan ar y ddaear yn gwneuthur dim, oddieithr fod amgylchiadau neilldual yn galw arno; ac nid yw Duw yn cyflawni dim er mwyn ymddangosiad. Ni ddanfonasid Moses ac Elias o'r nefoedd, ac ni ddisgynasai y Brenin Tragywyddol mewn cwmwl ar y ddaear, heb fod gwir anghenrheidrwydd am hyny. Diau y gellir edrych ar yr amgylchiad hwn mewn gwa-

hanol weddau, fel y gwneir â'i ddammegion a'i wyrthiau, a'r oll yn gydweddol â'r hanes sydd genym; ond y mae gwirioneddau neillduol yn gorwedd yn yr hanes, y rhai a ddygent gysylltiad â'r Iesu yn ei sefyllfa o ddarostyngiad. Nid oedd a fynent âg Ef fel person unigol, ond fel yr Ail Adda, cynnrychiolydd newydd y ddynoliaeth, ynghyd a'r gwaith oedd ganddo i'w gyflawni.

Nid oedd dim yn ei gyfarfod ef yn awr yn wahanol i'r hyn y buasai dyn yn myned drwyddo, pe wedi cyflawni ewyllys Duw a pharhau yn ei sefyllfa greadigol. Fel yr awgrymwyd yn barod, yr oedd temtiad yr Iesu yn cyfateb i demtiad Adda yn Mharadwys; a diau y buasai cyfnewidiad Adda yn gyffelyb i'r hyn oedd yr awrhon yn cymeryd lle ar yr Iesu, pe buasai wedi gweithredu fel yr Iesu. Am amser terfynol yr oedd prawf y dyn cyntaf i fod; ni all neb ddyweyd pa gyhyd; tebygol yw pe gorchfygasai y demtasiwn gyntaf, trwy ymlyniad penderfynol wrth ewyllys Duw ac mewn ufudd-dod iddo, y buasai y prawf drosodd, ac y sefydlasid ef a'i hiliogaeth am byth mewn sancteiddrwydd a dyogelwch; ac yn raddol y deuent trwy ryw fath o gyfnewidiad i'w cartref tragywyddol yn y nefoedd.

Trwy oruchafiaeth ar demtasiynau Eden, dyrchafesid dynolryw o ddiniweidrwydd i sancteiddrwydd; neu, o sefyllfa nacaol o sancteiddrwydd i'r un gadarnhaol—i ddyogelwch mewn undeb hollol â Duw. Cadwasai hyn ddyn rhag marw; canys nid oes y fath beth yn bod tra yn aros yn Nuw. Trwy dori yr undeb hwn—trwy ymwahanu oddiwrtho, y daeth marwolaeth i mewn: "Cyflog pechod" ydyw —yr hyn a ddygodd dyn arno ei hun trwy bechu yn erbyn Duw. Ni pherthyn i ni yn bresennol i edrych i'r hen gwestiwn—a oedd marwolaeth yn y byd cyn Adda? Ein pwnc ni yw ei gysylltiad â dyn; dylanwad niweidiol pechod ar ddyn, yn tori ei gysylltiad â Duw fel ffynnonell bywyd, ac wrth hyny yn dwyn marwolaeth yn gosbedigaeth arno. Hyn yw dysgeidiaeth yr Ysgrythyrau ar y pwnc.

Yn ol hyn, buasai ufudd-dod i ewyllys Duw, trwy fuddugoliaethu ar y temtiwr, a mynediad rhagddo mewn sancteiddrwydd hyd yr ymsefydlai ynddo, yn sicrhau dyn rhag marwolaeth. Nid oedd i aros byth ar y ddaear, eithr dygid ef i'r nefoedd trwy ryw gyfnewidiad na fedrwn ei egluro. Hon oedd sefyllfa yr Ail Adda wedi iddo ymddangos ar y ddaear; ac â hyn yn benaf yr oedd a fyno y gweddnewidiad. Ymsefydlodd yn Nuw a sancteiddrwydd, trwy ufudd-dod perffaith i'w orchymynion ac ymostyngiad trylwyr i'w ewyllys. Ymosodwyd arno gan y temtiwr, dygwyd ger ei fron holl hudoliaethau a swynion uffern, taflwyd ato holl bicellau tanllyd y fall; eithr ni niweidiwyd ef ganddynt, ni chyffyrddasant âg ef: safodd yn ddiysgog yn eu gwyneb gan eu gorchfygu; ac am ddwy flynedd gyfan ar ol hyn, perffeithiodd ei ufudddod, arosodd yn Nuw ac ymgadarnhaodd mewn sancteiddrwydd.

Diau y teimlai yr Iesu fod hwn yn gyfnod pwysig yn ei fywyd, canys cawn ef am y tro cyntaf yn llefaru yn eglur wrth ei ddysgyblion am ei farwolaeth: "Fod yn rhaid i Fab y dyn oddef llawer, a'i wrthod gan yr henuriaid, a'r archoffeiriaid, a'r ysgrifenyddion, a'i ladd, a'r trydydd dydd adgyfodi." Teimlai fwy o bryder yn ei gylch fel yr agoshâi yr amser iddo ddyoddef. Profid hyn gan amgylchiadau allanol yn gystal a'i ymwybyddiaeth mewnol ef ei hun, canys yr oedd y llywodraethwyr wedi ei gwbl wrthod ac yn ymgynghreirio i'w erbyn, i'w osod i farwolaeth. Ond gan iddo ddyfod o'r prawf yn fuddugoliaethus —gan iddo orchfygu temtasiynau y gelyn, a sicrhau ei hun mewn sancteiddrwydd ac uniondeb, ni raid marw. Gan iddo dreulio ei fywyd yn ddibechod, mewn perffaith gydymffurfiad âg ewyllys Duw, nid yw ond cyfiawn a theg iddo ef fyned i ogoniant heb brofi marwolaeth, fel y cawsai yr Adda cyntaf a'i hiliogaeth pe wedi ufuddhau fel y gwnaeth ef.

Yn awr arweiniwyd ef gan yr Ysbryd i'r Mynydd, i gyfarfod â chenadau o'r nefoedd i ystyried y pwnc ac i ymddyddan yn ei gylch—"y rhai a ddywedasant am ei ymadawiad ef, yr hwn a gyflawnai Efe yn Jerusalem." Testyn yr ymddyddan oedd ei *ymadawiad ef*—ei fynediad allan o'r byd —ei *Exodus* ef, yr anghenrheidrwydd am hyn ynghyd a'r modd y cymerai

le. Ar ryw olwg y mae yn rhyfedd na fuasai angelion, gweision anrhydeddusaf y llywodraeth, yn dyfod i'w gyfarfod. Hwy a ddanfonid i gyflawni negeseuon achos Duw ar y ddaear; hwy hefyd a arferent ddyfod i weini ar yr Iesu. Ond nid felly yn awr. Yr oedd y genadwri yn fwy cydweddol â dynion perffeithiedig—bodau a deimlent ddyddordeb personol ynddi—rhai yr oedd eu tynged dragywyddol yn gysylltiedig â'r modd y gweithid hi allan. Moses ac Elias a ddanfonwyd i ymddyddan âg ef am ei *ymadawiad.* Ni ddywedir gair am fanylion yr ymddyddan, dim ond y testyn—dim am y dull y cariwyd yr ymddyddan ymlaen. Eithr rhoddir mantais i ni i gasglu am y dull oddiwrth y cysylltiadau. Gan fod yr Iesu, bellach, wedi ymddyrchafu i sefyllfa ddyogel mewn sancteiddrwydd, trwy fuddugoliaeth ac ufudd-dod, cyfiawnder âg ef fyddai ei wobrwyo am ei waith drwy ddyrchafiad gogoneddus i'r nefoedd heb brofi marwolaeth. Danfonwyd Moses ac Elias mewn gogoniant i osod hyn ger ei fron, a chwmwl yn gerbyd i'w gymeryd adref yn orfoleddus.

Diau i ddwy ochr y cwestiwn gael eu sylw: fod ganddo berffaith hawl i fyned adref yn awr, ar ol gorchfygu holl demtasiynau y gelyn a pharhau yn ffyddlawn i Dduw; nad oedd dim i'w rwystro yn y nefoedd nac ar y ddaear; fod pob peth yn gyfleus i'w dderbyn i ogoniant—pyrth y nef o led y pen, angelion i'w groesawi, ei orsedd yn barod iddo i eistedd arni fel buddugoliaethwr llwyddiannus. Ond os dychwelai yn awr, byddai raid cau pyrth y ddinas sanctaidd yn erbyn pawb eraill! Ni allai neb ei ganlyn i ogoniant. Ychwaneg: gosodai hyn orfodaeth am ymadawiad pawb dynion o'r nefoedd. Ni allai neb o saint yr Hen Destament, o Abel gyfiawn hyd yr adeg hono, aros fynyd yn hwy mewn dedwyddwch. Gallai efe ei hun ddychwelyd, os yn ewyllysio, ond ni fyddai ei ymgnawdoliad a'i ufudd-dod yn cyrhaedd unrhyw amcan yn eu perthynas âg eraill; yn hytrach creai siomedigaeth gyffredinol trwy holl lywodraeth Duw. Pryderus oedd eu meddwl wrth ymddyddan âg ef am hyn, rhag ofn y collent y dedwyddwch oeddent wedi dechreu ei fwynhau, a syrthio byth i drueni.

O'r tu arall, deuai ymadael â'r ddaear trwy farw, trwy ddirmyg a gwarth, a dyoddefiadau o dan sylw: "yr ymadawiad yr hwn a gyflawnai efe yn Jerusalem," os yn penderfynu myned ymlaen i ben y daith. Yr oedd yr "ymadawiad" hwnw yn cael ei ddadlenu yn ei holl erchylldra, ei echryslonrwydd a'i angerddoldeb; ynghyd a'r canlyniadau gogoneddus fyddai iddo—"tynu pawb ato ei hun." Os ymadawai o'r byd trwy farwolaeth felldigedig y groes, teflir pyrth y nef o led y pen—nid i ollwng neb allan—ond i dderbyn i mewn fyrddiynau o hil syrthiedig yr Adda cyntaf, ac ychwanegu at boblogaeth y nefoedd "dyrfa fawr na ddichon neb eu rhifo:" "llefaru am ei ymadawiad ef yr hwn a gyflawnai efe yn Jerusalem." Yn y cwmwl y gorphenwyd yr ymddyddan; yno y penderfynwyd dull a lle yr ymadawiad.

Nid fod dim ammheuaeth yn meddwl yr Iesu ynghylch hyn. Ni phetrusai am fynyd pa fodd i weithredu. Eithr teg oedd cynnyg hyn iddo. Ac yr oedd rhyw drefniadau i'w cwblhau nad oedd y dysgyblion yn addas i syllu arnynt, na gwybod dim yn eu cylch: "Cwmwl goleu a'u cysgododd hwynt"—y cwmwl yn myned rhyngddynt â'r dysgyblion, ac felly yn eu cadw rhag gweled a chlywed. Ar ol hyn cafwyd "yr Iesu yn unig"—y weledigaeth wedi darfod, y gwaith wedi ei orphen, amcan yr ymddyddan wedi ei gyrhaedd, y cerbydau nefol wedi dychwelyd gartref; a'r Iesu wrtho ei hun yn benderfynol i ddyoddef a marw, a dychwelyd i ogoniant yn "Awdwr iachawdwriaeth dragywyddol i'r rhai oll a ufuddhânt iddo." Ffaith bwysig i'r byd oedd arosiad yr Iesu ar y ddaear ar ol y cyfarfod hwn ar y mynydd. Gorphwysai tynged dynolryw ar hyn. Yr oedd wedi gwrthod myned adref ond trwy farwolaeth, er mwyn bod yn alluog i dynu myrddiynau ar ei ol: "eithr os bydd efe marw, efe a ddwg ffrwyth lawer."

Yn y gynnadledd hon derbyniodd yr Iesu nerth newydd i fyned ymlaen gyda'i waith heb ddiffygio. Camsyniad yw meddwl nad oedd anghen adnewyddiad nerth arno o herwydd dwyfoldeb ei Berson. Meddiennid ef ar adegau, fel pawb dynion, gan dristwch, llwfrdra a digalondid, wrth fyfyrio

ar fawredd y gwaith oedd i'w gyflawni, ynghyd a'r gwrthwynebiadau a dderbyniai oddiwrth y rhai y daeth i'w gwaredu. Ni all neb dynion ddirnad angerddoldeb ei deimladau ef; un sanctaidd, dibechod, un a gasâi bechod â chasineb hollol, yn dyoddef marwolaeth am bechod! Pwy fedr ddirnad hyna? Diau fod yr ymddyddan fu ynghylch hyn ar y mynydd yn foddion i'w gynnefino âg ef, ac felly i dynu ymaith lawer o chwerwder marwolaeth fel yr agoshâi ati. Derbyniai nerth hefyd oddiwrth y sierwydd a gafodd o foddlonrwydd ei Dad iddo, yr oruchafiaeth a gâi ar angeu, ynghyd a'i dderbyniad gorfoleddus i ogoniant, ond iddo gwblhau y gwaith a roddwyd iddo i'w wneuthur.

Ni chollai ei olwg ychwaith ar y wobr oedd i'w waith: iachawdwriaeth byd o ddynion—ei lywodraeth yn cyrhaedd hyd eithaf y ddaear.

Dangoswyd iddo holl deyrnasoedd y byd a'u gogoniant gan y temtiwr yn y diffeithwch, a diau iddynt ddyfod yn fwy amlwg a sylweddol o'i flaen yn awr ar y mynydd. Calonogai hyn ef yn ei lafur, gan y gwyddai y byddai wrth farw yn ysbeilio'r tywysogaethau a'r awdurdodau, yn rhwygo teyrnas Satan, yn dattod gweithredoedd diafol, ac yn adferu'r byd i Dduw! Nid bychan oedd hyn ganddo. Yr oedd tystiolaeth ei Dad am ei berthynas âg ef a'i foddlonrwydd ynddo, ar ddiwedd yr ymgynghoriad, yn ddefnydd cysur a chalondid iddo yn y dyfodol garw oedd yn ei aros. Pan yn ffarwelio â'i ymwelwyr y daeth y llef hon, wedi iddo wrthod myned adref—ar ol dewis ingoedd Gethsemane, gwaradwyddiadau a melldith y Groes, y dywedodd Duw, "Hwn yw fy anwyl Fab I;" 'yr wyf yn foddlawn i'w benderfyniad, yn llawenhâu yn ei wroldeb, yn ymhyfrydu yn ei ewyllysgarwch a'i gariad,'—"yn yr hwn y'm boddlonwyd; gwrandewch arno ef." Yn ngwyneb y dystiolaeth hon, teimlai yn gryf at waith, ac ymwrolai hyd angeu.

II. PERTHYNAS Y FFAITH HON A'R APOSTOLION.

Cymerodd dri o honynt gydag ef i'r mynydd fel y byddai iddynt fod yn dystion o'r hyn a welent ac a glywent. Amgylchiad pwysig iddynt hwy oedd hwn, ac ynddo elfenau calondid a gwroldeb yn nghyflawniad eu gwaith yn y dyfodol; a thynai ymaith warthrudd y Groes. Wythnos cyn hyn, pan yn cyfeirio at ei farw, deallai fod yr awgrymiad yn cynnyrchu llwfrdra a digalondid ynddynt; os felly, beth fyddai dylanwad y ffaith ei hun? Nid cynt y gwelent ef yn cael ei ddal a'i gondemnio, nag y fföent ymaith mewn cywilydd, gan dori pob cysylltiad âg ef ac â'i achos am byth. Ni allent ddygymmod â'r meddwl iddo farw yn warthus fel drwgweithredwr. Messiah i deyrnasu ac nid i farw oedd yr eiddynt hwy—un i orchfygu a llywodraethu ac nid i ddyoddef.

Rhaid eu parotoi i gyfarfod â hyn, ac nid oedd yn bosibl gwneyd yn well na'u cymeryd gydag ef i'r gynnadledd ar y Mynydd Sanctaidd, a'i glywed yn ymddyddan â Moses ac Elias am ei farw, ynghyd a gwrando ar y llef o'r cwmwl yn tystiolaethu i'w ddwyfol fabolaeth. Deallasant yn awr ei fod mewn gwirionedd yr hyn a honai ei fod. Wele ddau o brif enwogion yr Hen Destament yn ei gyfarfod mewn gogoniant: Moses, yn yr hwn y gobeithient, ac Elias a gymerwyd i'r nef mewn cerbyd tanllyd; a gogoniant eu Hathraw yn taflu yr eiddynt hwy i'r cysgod. Nid un cyffredin yw efe, nid twyllwr; perthyn iddo urddas dwyfol, gan fod Moses ac Elias yn talu gwarogaeth iddo. Prawf eu hymddangosiad ar y fath adeg, yn gystal a thestyn eu hymddyddan â'r Iesu, unoliaeth eu cyfundrefnau, ac argyhoeddir y dysgyblion o uwchafiaeth eu Hathraw ar ei ymwelwyr nefol. Cafodd tystiolaeth Duw o'r cwmwl argraff ddofn ar eu meddwl. Flynyddoedd lawer ar ol hyn, dywed Pedr: "Efe a dderbyniodd gan Dduw Dad barch a gogoniant, pan ddaeth y cyfryw lef ato oddiwrth y mawr ragorol ogoniant, Hwn yw fy anwyl Fab I, yn yr hwn y'm boddlonwyd. A'r llef yma, yr hon a ddaeth o'r nef, a glywsom ni, pan oeddem gydag ef." Nid oedd ammheuaeth yn meddwl yr Apostolion am wirionedd yr hyn a welsant ac a glywsant y pryd hwn. "Daeth o'r cwmwl," meddai Matthew; "oddiwrth y mawr ragorol ogoniant," meddai Pedr; canys nid oedd y cwmwl ond arwyddlun o bresennoldeb Duw: "y llef yma yr hon a ddaeth o'r nef a glywsom ni."

Sefydlai hyn eu meddwl am urddas a dwyfoldeb y Person a bregethent;

daliai hwy yn gadarn yn ngwyneb gwrthwynebiadau, erlidiau ac angeu: "Ac ni a welsom ei ogoniant ef." Gogoniant anghymharol, "megys yr Uniganedig oddiwrth y Tad, yn llawn gras a gwirionedd." Dylanwadai yr hyn a welodd y tri hyn ar y mynydd ar eu brodyr, er eu hargyhoeddi o ddwyfoldeb Person eu Hathraw, ei fod wedi ymddangos yn y byd er mwyn marw dros eraill, a bod ei holl fywyd a'i weithredoedd yn derbyn cymeradwyaeth Duw. Taflai y ffaith hon oleuni iddynt ar ei ddyoddefiadau, gwirfoddolrwydd ei farwolaeth, ynghyd a'r amcan mewn golwg yn yr oll. Gan y medrai ymguddio mewn cwmwl goleu ac ymwisgo â gogoniant dwyfol, sicr yw na fedrai yr Iuddewon a'r Rhufeiniaid ei ddal a'i gondemnio yn groes i'w ewyllys; gan fod Duw yn ei gymeradwyo ac yn ei arddel yn "Anwyl Fab," amlwg yw ei fod y tu hwnt i bob gallu dynol i'w niweidio. Eto condemnir a lleddir ef gan henuriaid y bobl; prawf hyn ei fod yn rhoddi ei hun i'w dwylaw—yn dyoddef a marw yn wirfoddol. Os gwneyd yn wirfoddol, y mae amcan i'w farw—dyben i'w gyrhaedd—gwneyd yn lle eraill—"Y Bugail da sydd yn rhoddi ei einioes dros y defaid,"—yn marw er mwyn rhoddi bywyd i'r byd. Wrth ystyried hyn, ymwrolai yr Apostolion yn nghyflawniad eu gwaith.

III. Perthynas y Ffaith hon a'r Oesoedd Dyfodol.

Edrychwch ar gymeriad pur a bywyd sanctaidd Iesu o Nazareth. Geilw ar ei elynion i'w argyhoeddi o ddiffyg neu anmherffeithrwydd, ac ni feiddiai neb dderbyn y *challenge:* cydnabyddir ei fod yn ddifai, ac eto gosodir ef i farwolaeth fel drwgweithredwr. Creai ddychryn yn milwyr dewr Rhufain â gair o'i enau ac edrychiad ei lygaid; syrthient megys yn feirw yn ei bresennoldeb, ac eto ni cheisia ddianc, ond ymostynga yn dawel iddynt. Codai eraill oddiwrth y meirw, ac eto yn marw ei hun. Erys dirgelwch anesboniadwy o'i amgylch; nid oes dim mewn hanesiaeth i'w gymharu âg Ef: y mae y cwbl a berthyn iddo yn annirnadwy. Y Person hwn, er wedi marw yn warthus o dan felldith, wedi ei groeshoelio rhwng lladron, yn cario y fath ddylanwad ar y byd heddyw, y dylanwad hwn yn cynnyddu yn barhaus, ei enw yn dyfod yn fwy clodfawr, ac yn ol pob ymddangosiad bydd holl genedloedd y ddaear yn dra buan yn talu gwarogaeth iddo! Pwy all ei esbonio? Pa le y ceir eglurhâd arno?

Ewch i Fynydd y Gweddnewidiad i edrych ar y gweledigaethau gogoneddus a ymddangosodd i'r dysgyblion; gwrandewch y llef o'r nef, cewch eglurhâd ar yr oll, cewch esboniad ar ddirgelwch Person yr Iesu, a rheswm dros lwyddiant ei deyrnas. Mae y gogoniant ymwthiodd allan o'i Berson ar y mynydd i'w weled heddyw; gwelir ef hyd ddiwedd amser; daw yn fwy amlwg i dragywyddoldeb. Nid ydym yn gwybod am ddim mwy effeithiol na'r gweddnewidiad i symud ymaith ragfarn ac ammheuaeth ynghylch gwirionedd Cristionogaeth. Dim ond dal cymeriad cyffredinol yr Iesu yn ngwyneb gwyrthiau y Mynydd Sanctaidd, a lleferydd Duw o ganol y cwmwl, nid oes un casgliad i'w dynu ond mai "Iesu yw y Crist, Mab y Duw byw," ac mai y drefn a sefydlodd wrth farw yw yr unig ffordd i bechadur am fywyd,

Rhydd hyn hefyd awdurdod dwyfol i'w ddysgeidiaeth. Llefarai Moses a'r prophwydi yn enw yr Arglwydd, trwy ei awdurdod ef. Sefydlodd Moses gyfres o ordeiniadau, y rhai a barhaent yn yr eglwys am oesoedd; a throseddwyr y deddfau hyn a dderbynient gosbedigaeth oddiwrth Dduw yn brawf eu bod yn ddwyfol: "Cofiwch gyfraith Moses fy ngwas, yr hon a orchymynais iddo ef yn Horeb." Yn awr ar y mynydd sanctaidd, wele'r gwas yn rhoddi lle i'r Mab; wele fwy na Moses yma. Yn brawf o'i uwchafiaeth, ymddangosodd Moses ac Elias fel deddfroddwyr a diwygwyr, a chiliasant o'r neilldu i roddi lle i arall—i'r Mab ei hun: ni welodd y dysgyblion neb, "ond yr Iesu yn unig." Diflanodd Moses ac Elias o'r golwg, er dangos diflaniad eu goruchwyliaeth. Y mae yr Iesu yn aros, a'i oruchwyliaeth i barhau byth: "Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd; gwrandewch arno Ef." Nid yw lleferydd neb i'w gwrando mwyach, ond mor bell ag y byddont yn gyson â lleferydd yr Iesu. Efe sydd i osod deddfau ac ordeiniadau yn ei deyrnas; efe sydd i roddi gorchymynion a hawliant ufudd-dod cyffredinol

oddiwrth bawb yn ddiwahaniaeth. Pob peth a ddywed ac a gyflawna hwn y mae sêl y Duw byw wrtho; oblegid arddelodd Ef yn "anwyl Fab," a gorchymynodd i ddynion ufuddhau iddo. Cyflwynwyd iddo bob awdurdod a gallu yn y nefoedd a'r ddaear: "Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear;" "Pob peth a roddwyd i mi gan fy Nhad." Cafodd awdurdod i sefydlu teyrnas nefoedd ar y ddaear, gan roddi cymhelliad i bawb dynion i ddyfod yn ddeiliaid o honi, ymostwng i'w awdurdod a gwrando ar ei lais: "Gwrandewch arno *Ef!*"

MYFYRDODAU AR BENNILLION.

GAN AMRYW.

"DRINGO'R CREIGYDD ER YN WAN."

Gan y Parch. J. T. ALUN JONES, *Bala.*

"Mi ddringais greigydd er yn wan;
Rhyfeddu 'r wyf p'odd de's i'r làn:
Tebygol fod fy mhwys I fry,
Yn ddirgel ar f' Anwylyd cu."

Odid fawr na wêl ein darllenwyr yn y llinellau hyn ôl cyffyrddiad awen bur a dyrchafedig William Williams â gwirionedd, a hwnw yn wirionedd ag oedd iddo ef yn brofiad byw; a chyda hyn, tybygaf y gwelir ynddynt, er byred ydynt, ddirgelwch mawr, neu, os mynir, athroniaeth ddyfnaf bywyd y pêr ganiedydd. Hefyd, gan mai yr un oedd bywyd eu hawdwr, o ran ei brif linellau, â'r eiddo pob credadyn arall, nid anhawdd olrhain yn y pennill ddirgelwch mawr bywyd holl ddylynwyr Crist.

Nis gwyddom beth fyddai raid i drwch y gyfrol fod â'r hon y gallem yn llythyrenol ddylyn hanes gyrfa William Williams; ond a wnawn I, ddarllenydd, gamgymeryd—tybiaf nas gwnawn—wrth ddywedyd y cyflwynir i ni gynnwys aml i du dalen o'r gyfrol fawr, hwyrach mwyafrif y tu dalcnau, yn gryno yn y frawddeg gymhariaeth-ol hon—"Mi ddringais greigydd er yn wan?"

Er mai geiriau ffugyrol yw y rhai'n, credwn eu bod hyd yr ymyl yn orlawn o wirionedd pwysig ynglŷn â hanes y pêr-ganiedydd. Diammheu mai y rheswm mawr am farddoniaeth gysegredig Williams ydoedd calon fyw a chalon lawn. Dyna, gan mwyaf, yw ei odlau ysbrydol, ac yn neilluol un dosbarth o honynt—ymarllwysiad calon lawn; llawn, ar un pryd, o orthrymder, o ofid, o anobaith, neu ofn; a llawn, ar bryd arall, o hyder, a thangnefedd, a mawl. Canai Williams â'i awen bur, fel mae yr adar yn ymbyncio yn y goedwig—am ei fod yn methu peidio. Dywedai Tennyson mai felly yr oedd gydag ef:

"Behold, ye speak an idle thing:
Ye never knew the sacred dust:
I do but sing because I must,
And pipe but as the linnets sing;
And one is glad; her note is gay,
For now her little ones have ranged;
And one is sad, her note is changed,
Because her brood is stol'n away."

Diammheu, meddwn, mai felly yr oedd gyda Williams. *I do but sing because I must.* Anghenrhaid a osodwyd arno. Ac nid hyny yn unig ychwaith, ond hefyd, gyda hyn, yr oedd rhaid arno i ganu yn ol y cywair—llon neu leddf—y byddai ynddo. Edrycher, er engraifft, ar y gwahaniaeth cywair mewn dau emyn o'i eiddo a geir y nesaf at eu gilydd yn ein Llyfr Hymnau. Yn y naill mae yr awdwr, o ran profiad, megys yn mhegwn y gogledd; tra yn y llall y mae megys yn mhegwn y de. Yn y naill y mae Williams a'i ysbryd yn friwedig a phrudd. Meddai—

"Pererin llesg a llaith,
Dechreuais daith oedd bell,
Trwy lu o elynion mawr eu brad,
Gan geisio gwlad sydd well;
Am ffoi mae f' enaid tlawd
At f' anwyl Frawd a'm Pen
Yn Salem fry par'to fy lle
Mewn llys o fewn i'r llen.

"Yn nglŷn wylofain trist,
Ple bu fy Nghrist, 'r wy 'n byw;
Ac wrth ryfela â'm gelyn caeth
Fy nghalon aeth yn friw.
. . . . .
'R wy 'n gwel'd yr oriau 'n hir
I fod o dir fy ngwlad;
Bryd deuaf at fy mrodyr fry
Sy 'n canu 'n nhy fy Nhad?"

Ymddengys y "pererin" y tro hwn yn "nglŷn wylofain trist," yn llesg, a'i galon yn friw; ac o'r "glŷn" gwel y ffordd i "dir ei wlad" yn faith, a'r oriau'n hir.

Ond yn yr emyn nesaf cawn olwg arno "ar ben y bryniau'n llawenhâu." Fel yr adar mân y sonia am danynt, mae Williams a'i galon fawr "ar dân yn moli Duw." Mae ei lestr yn nofio yn hwylus tua thref. Mae'r oriau ar adenydd yn ehedeg. Mae'r "wlad lle mae ein Tad yn byw" gerllaw—

"Yn awr mae 'r adar mân
Ar dân yn moli Duw;
Yn awr mae 'r haul a'r nefol hin
Ar rai o'r werin wiw:
Fe ddaeth y Jubili,
On'd braf yw 'n bri a'n braint,
Cawn fyned adref ar fyr dro,
I seinio gyda 'r saint.

"Ein brodyr sydd o'u bron
Yn morio i Sïon wiw:
Mewn hyfryd hwyl yn myn'd tua 'r wlad
Lle mae ein Tad yn byw;
Cawn lanio yn y man
I'r hafan hyfryd fry,
I blith y rhai sy 'n gwaeddi 'Rhad,'
Am gariad Iesu cu."

Yr oedd natur a gras, daear a nefoedd, tra byddai Williams yn ymsymud yn eu gwydd, a'i olwg yn fyfyriol arnynt, megys yn toddi i fewn i'w ysbryd, ac yn argraffu eu delweddau ar ei galon fywiol a theimladol ef. Ac fe gawn yn ei hymnau adlewyrchiad o'r argraffiadau hyn; neu, yn fwy cywir fe allai, dylid dyweyd y ceir yn yr emynau adlewyrchiad o galon fawr Williams yn ei thymherau a'i phrofiadau mewn cyffyrddiad â'r argraffiadau amrywiol hyn, ac yn ngwyneb eu dylanwad. Felly canfyddir yn ei farddoniaeth, ac yn neillduol yn ei Hymnau, elfen fywgraffiadol gref ac amlwg.

Ac o'n rhan ni, yn y goleu hwn yr arferwn edrych ar y geiriau,—a geiriau eraill cyffelyb i'r rhai sydd yn destun ein hystyriaeth y tro hwn.

Ac erbyn meddwl, ai nid hyn, i fesur mawr, ydoedd hanes pererindod yr Emynwr o Bantycelyn? Ac hefyd, onid hyn yw hanes ymdaith pob gwir bererin ar y ddaear heddyw, yn gymhwys hyn—"dringo'r creigydd," a'u dringo "er yn wan?" A'r waith yma, pan gyfansoddai y pennill, — nis gwyddom am ei amseriad, ac nid yw hyny nac yma nac acw—cawn yr awdwr megys yn adolygu cyfran o daith ei bererindod. Yn debyg fel mae John Bunyan yn *Nhaith y Pererin* yn gosod Cristion allan fel yn cymeryd ei anadl ato, ac yn cael ychydig seibiant i orphwys o'i ludded yn y deil-dŷ (*a pleasant arbour*), tua chanol y ffordd, wrth ddringo tua Sion; a hyny trwy fawr ofal a thynerwch Arglwydd y lle tuag at bererinion ar ddiffygio gan eu taith. Yr un modd, ar sail y llinellau uchod a lluaws eraill o'u cyffelyb, yr ydym ninnau rywfodd yn portreiadu William Williams fel pererin yn dringo tua Sïon:—

"Myn'd 'r wy 'n llwm tua thir y bywyd—
Ffon yn unig yn fy llaw."

Ac ymddengys yntau y tro hwn fel yn cymeryd ei anadl ato, ac, yn ei flinder, yn gorphwys enyd. Yna, o'r man uchel y dringodd iddo, neu y mae yn rhyw feddwl ei fod wedi ei gyrhaedd bellach — rhyw orphwysfa lonydd, megys, yn nghôl y creigiau—gwelwn ef yn taflu ei lygad yn ol ac i lawr dros y clogwyni a'r llwybrau geirwon, serth,—erbyn hyn wedi eu goresgyn. A thra yn syllu arnynt, yn nghanol ymdeimlad dwfn o wendid, tyr allan,—

"Mi ddringais greigydd er yn wan;
Rhyfeddu 'r wyf p'odd de's i'r lan."

Ond, rhywfodd, fe ddaeth. Diddadl ganddo fod creigiau wedi eu dringo—rhwystrau ac anhawsderau fil wedi eu gorchfygu a myned trwyddynt — a 'glan' ar ol 'glan' hyd yma wedi ei gyrhaeddyd.

Yn awr, pa gyfrif ddyry Williams am hyn, neu pa gasgliad dynir ganddo yn ei wyneb? "Tebygol," meddai,

"Tebygol fod fy mhwys I fry
Yn ddirgel ar f' Anwylyd cu!"

Trwy fod pwys ei enaid yn nghymundeb dirgel ffydd ar ei Arglwydd y galluogwyd yntau hefyd, er pob gwendid, i ddringo'r creigydd, gam ar ol cam, uwch uwch o Lyd. "Y rhai trwy ffydd a oresgynasant deyrnasoedd, a wnaethant gyfiawnder, a gawsant addewidion, a gauasant safnau llewod, a ddiffoddasant angerdd y tân, a ddiangasant rhag min y cleddyf, a nerthwyd o wendid, a wnaethpwyd yn gryfion mewn rhyfel, a yrasant fyddinoedd yr estroniaid i gilio."

Yr un modd, yn ei ffydd yn unig y cawsai Williams esboniad boddhaol ar

orchestwaith ei fywyd, am y drwg yr ydoedd wedi ei wrthsefyll, y da yr ydoedd wedi ei wneuthur, yr anhawsderau a sangodd arnynt, a'r fuddd-goliaeth a ennillodd. "A hon yw yr oruchafiaeth sydd yn gorchfygu y byd, sef ein ffydd ni." Ymha fywyd bynag y mae *creigiau wedi eu dringo er yn wan*, rhaid fod ffydd.

Yn ngwyneb pryderon ac ofnau mynych am eu ffydd, ni raid i'r duwiolion heddyw, mwy na Williams gynt, ond edrych drach eu cefn ac ymwrando ychydig bach, na chlywant y creigiau megys yn codi eu llef a thystio—er pob ofnau ac ammheuon —"TEBYGOL FOD EICH PWYS CHWI FRY, YN DDIRGEL AR EICH IESU CU!"

Cyn diweddu, mae un pwynt dyddorol arall y carwn i'r darllenydd, oddigerth i'w amynedd eisoes ballu, gydymuno â mi am fynyd i'w ystyried: sef yr ymddengys mai yn yr effeithiau a gynnyrchid ganddi ac yn ei gwasanaeth erddo yr oedd ffydd neu ymddiried Williams yn dadguddio ei hun i'w olwg. Anhawdd, os nad anmhosibl, yw dyfod o hyd i ffydd fel ffydd. Pan geisia y neb sydd yn ei gweithredu edrych arni fel gras ysbrydol, bydd hi megys un yn ymguddio, neu yn diflanu o'r golwg. Mae dwy ffordd, trwy ba rai y gellir darganfod ffydd: un ai gellir ei holrhain yn ei pherthynas â'i gwrthddrych; neu ynte, fel gyda Williams y tro hwn, gellir ei holrhain yn y gwaith a'r gwasanaeth a gyflawnir ganddi i'w pherchenog.

Fel y sylwyd, y mae William Williams—ag i ni ddylyn ei ddull ef o ymadroddi—yn gwel'd y creigiau o'i ol, mae'n deimladwy o wendid, ac yna mae'n tynu'r casgliad "Tebygol fod fy mhwys I fry, &c." Awgryma hyn i mi y cwestiwn yma, A all y pererin, yn ngrym ei ffydd, deithio ymlaen gan oresgyn anhawsderau, ac yntau ar y pryd, yn fynych, yn ddiarwybod o'i ymddiried? A ydyw ffydd, pa berffeithiaf y bo, yn anymwybodol o honi ei hun? A ydyw gyda hi hefyd, fel gyda rhai o'r grasusau eraill; er engraifft, fel gyda gostyngeiddrwydd? Am ostyngeiddrwydd, gwyddom ei bod hi fel y lili, yn crymu ei phen, yn wylaidd a hardd; a thra mae ei phryd a'i gwedd yn denu sylw ac edmygedd pawb, nis gŵyr hi ddim am hyny. Pe gwyddai gostyngeiddrwydd ei bod yn hardd, a phe meddyliai am hyny, dywedir wrthym, oni wneir? y peidiai a bod yn ostyngeiddrwydd—y troai yn falchder yn y fan. Ceir fod y gras perffaith yn anghofio ei hun.

Ai felly hefyd y mae, neu a oes rhywbeth cyffelyb i hyn ynglŷn â ffydd? A oes modd "dringo'r creigydd," a'n "pwys ni fry," a ninnau heb wybod chwaith ein bod yn pwyso *bob yn gam a cham*, fel yr hen ŵr â'i bwys ar ei lawffon, ond gan gynnefindra prin yn gwybod ei bod ganddo, nes, hwyrach, ei cholli. Neu fel y plentyn bach yn nghanol perygl yn gwasgu llaw ei dad, a chan mor naturiol ydyw iddo, heb wybod ei fod yn gwneyd; a ydyw gwir blentyn Duw, po fwyaf mabaidd y bo, neu a ydyw yn bosibl iddo ddringo'r creigiau, a rhodio'r glynoedd, ac yn y diwedd fyned trwy y dyfroedd, gan wasgu llaw ei Dad, a chan mor naturiol ydyw iddo, ei fod yntau hefyd ar y pryd heb wybod ei fod yn gwneyd? Nis gallwn sicrhâu y gwyddai Williams bob yn gam a cham wrth ddringo; ond wedi dringo efe a wyddai, oblegid y mae yn dyweyd,

"Rhyfeddu 'r wyf p'odd de's i'r lan;
Tebygol fod fy mhwys I fry,
Yn ddirgel ar f' Anwylyd cu!"

CREFYDD MOSES.

Pregeth gan y diweddar Barch. DANIEL JONES, *Rhaiadr.**

HEBREAID XI. 24—26: "Trwy ffydd, Moses, wedi myned yn fawr, a wrthodod ei alw yn fab merch Pharaoh; gan ddewis yn hytrach oddef adfyd gyda phobl Dduw, na mwyniant pechod dros amser; gan farnu yn fwy golud ddirmyg Crist na thrysorau yr Aipht; canys edrych yr oedd efe ar daledigaeth y gobrwy."

Mae yr Apostol yn y bennod hon yn son am ffydd, ac yn dyweyd mai trwy

* Rhoddir y bregeth hon o eiddo Mr. Jones, yn fath o goffadwriaeth am dano, nid oblegid ei rhagoriaeth, ond o herwydd ei bod yn un o'r rhai a ysgrifenwyd helaethaf ganddo, a'i bod yn dra nodweddiadol o hono. Yr oedd ei weinidogaeth bob amser yn agos, cyfeiriol, a chyffrous. Torodd allan felly yn neillduol, a pharhaodd felly trwy ei oes. Ymddengys fod y bregeth hon yn un o'i rai henaf, wedi ei chyfansoddi pan

ffydd y gwnaeth hwn y peth hyn, a'r llall y peth arall; fel nad oes son am neb yn gwneyd dim wrth fodd Duw heb ffydd. Darfu i'r egwyddor o ffydd nerthu dynion i wneuthur pob math o wyrthiau, a gwasanaeth dros Dduw; weithiau ar uchelfanau buddugoliaeth yn gyru byddinoedd yr estroniaid i gilio, fel Dafydd a Samson; a phryd arall yn y ffwrn dân, ffau y llewod, carcharau, ogofeydd, a'u rhwygo gan ddannedd llifiau llymion, ac hefyd yn anturio i fôr na allasai rheswm weled na chilfach na glân yn perthyn iddo, wrth gyflawni yr ufudd-dod mwyaf anhawdd.

Mae yr Ysbryd Glân yn y bennod hon yn cofnodi rhes o bethau ag oedd wedi cael eu gwneyd gan bobl dduwiol, a hyny yn ffrwyth ffydd. Ymhlith eraill, dangosir Moses megys seren o'r maintioli mwyaf. Ei ddoniau a'i rasusau, ei ddoethineb a'i gryfder, a'i ragorfreintiau oeddynt lawer uwch na'r cyffredin. Fe allai mai'r tymmor mwyaf pwysig o'i fywyd yw yr un y sonir am dano yma, pan ddarfu iddo yn gyhoeddus wrthod y byd a'i bethau, a phroffesu ei fod yn gyfaill i'r rhai oedd yn ofni yr Arglwydd, ac yn cadw ei orchymynion Ef. Yr oedd pobl yr Arglwydd y pryd hwnw yn blaid ag yr oedd llawer o ddywedyd yn ei herbyn, ac yntau yn myned yn agored i wawd, wrth fwrw ei goelbren yn eu plith; eto gwnaeth hyny, er gorfod trwy hyny gael ei ddirmygu: eithr yr oedd yn well ganddo ddyoddef yr hyn oedd raid na gwerthu ei grefydd, a gadael ei bobl.

Sylwn ar GREFYDD MOSES.

Mae crefydd Moses yn cael ei hamlygu yn ei ffydd gref yn addewidion Duw. Priodolir y cam cyntaf gymerodd gyda hi i'w ffydd. "Trwy ffydd, Moses, wedi myned yn fawr, a wrthododd ei alw yn fab merch Pharaoh." Credodd ef y peth oedd Duw wedi ei lefaru wrth Abraham a'r tadau mewn perthynas i Israel, a'r ffydd hono a'i cymhellodd ef i ddewis gwarth a dyoddefiadau gyda hwynt, o flaen mwynhâu golud a phleserau yr Aipht. Pe buasai Moses ddim ond yn edrych ar y pethau a welir, buasai yn parhâu i fod yn fab merch Pharaoh, ac yn ymgeisio am y goron frenhinol, yr orsedd, a'r llys, &c.; ond credodd dysgeidiaeth Duw am Israel, gan edrych, nid ar y pethau a welir, ond ar y pethau ni welir. Mae'r saint yn gwneyd rhyw bethau mawrion trwy ffydd.

Hefyd, mae crefydd Moses yn cael ei hamlygu yn ei ymlyniad wrth ei frodyr yn eu sefyllfa isel a chaethiwus. Yr oedd yn rhaid iddo, os glynai wrth drysorau yr Aipht, ymwrthod â phobl Dduw; ac os gwnai efe lynu wrth bobl Dduw, yr oedd yn rhaid iddo ymwrthod â thrysorau yr Aipht; ond er fod adfyd pobl Dduw a thrysorau yr Aipht yn cael eu gosod o'i flaen, dewisodd yn hytrach y blaenaf, yn groes i lawer,—dewisodd yr adfyd o flaen y golud. Mae adfyd yn unig yn ddigon i lawer ymwrthod â'r efengyl. Mae eglwys Dduw yn ei holl orthrymderau, yn fwy anrhydeddus filoedd o weithiau nag unrhyw gymdeithas o ddynion ar y ddaear. Mae yr enw ardderchog sydd arnynt wedi eu codi i fwy o anrhydedd nag Alexander Fawr, ac nag unrhyw bobl annuwiol, sef "pobl Dduw;" yr hyn sydd yn annhraethol orbwyso yr holl ddrygau sydd yng\ŷn âg ef; oblegid pe byddai fel arall, byddai dynion yn golledwyr, po agosaf y byddent at Dduw.

Ymhellach, amlygodd Moses ei grefydd yn ei holl demtasiynau. Gorfu iddo ymadael â llawer o bethau —anrhydedd, cyfoeth, a chysur, &c., eithr cadwodd ei grefydd. Y peth hawddaf ei *sparlo* o bob peth gan ryw rai yw eu crefydd, ond nid felly Moses. Gwerthodd Esau hi am un saig o fwyd, ond aberthodd Moses anrhydedd yr Aipht er ei mwyn. Mae llawer o fechgyn a merched yn myned i swn y byd a'i ddwndwr, ac am wegi yn gwerthu eu crefydd; eithr gadawodd Dafydd fwthyn ei dad a bugeilio defaid, a chafodd ei godi i fod yn frenin, i deyrnasu ar Israel. Yr anrhydedd uchaf a allasai Moses ddymuno oedd cael ei alw yn fab merch Pharaoh; ond gwrthodododd ef yn hytrach na gwerthu ei grefydd. Gwerthodd Balaam bob peth o'r fath am wobr ang-

ydoedd yn y Bala, oddeutu y flwyddyn 1840. Wedi ei ymsefydliad yn y Rhaiadr yn 1844, ni pharotoai ond brasluniau o'i bregethau, er fod rhai o honynt o gryn hyd, ac nid yw yn ymddangos iddo byth wed'yn ysgrifenu yr un bregeth yn llawn, er fod rhai o honynt o anghenrheidrwydd o nodwedd uwch. Dylid cofio na feddyliodd efe erioed am i hon gael ei hargraffu, ond hyderir nad ydys yn gwneyd cam âg ef wrth ei rhoddi yn engraifft o hono.

hyfiawnder; a pha ryfedd fod dynion yn gwerthu eu crefydd am can lleied, canys y mae eu rhan yn y bywyd yma? "Ni chaiff y rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau etifeddu teyrnas Dduw." Pethau ysbrydol oedd pethau goreu Moses ar y ddaear; yr oedd Crist wedi dwyn ei serch. Nid oedd yr aberthau a'r cysgodau, yr aneirydd cochion, yr ŵyn, yr arch a'r drugareddfa, ond rhyw ysplenddrychau i gael gweled Crist trwyddynt. Y pethau anwylaf sydd genyt wrth fyw, y pethau hyny y byddi gyda hwynt yn y byd nesaf: os Crist yw y gwrthddrych penaf gyda ni heddyw ar y ddaear, byddwn gydag ef yn nhragywyddoldeb; os pobl Dduw yw ein pobl ar y ddaear, cawn fod gyda hwy am byth.

Yr un yw gwir grefydd o ran ei natur ymhob oes, a than bob goruchwyliaeth. Yr un ydyw heddyw ag oedd yn nyddiau Moses; a'r un a fydd hi hyd ddiwedd y byd. Dyma'r grefydd sydd yn myned â phawb i'r nefoedd.

Dangosa y testun fod tri pheth yn nghrefydd Moses y mae yn rhaid i ninnau eu cael, neu fod yn ol.

I. "Edrych yr oedd efe ar daledigaeth y gobrwy."

II. "Barnu yn fwy golud ddirmyg Crist na thrysorau yr Aipht."

III. Gwrthod a dewis. "Gwrthod ei alw yn fab merch Pharaoh," &c.

I. Edrych yr oedd efe ar daledigaeth y gobrwy. Edrych y meddwl yw hwn. Mae "gweled" ac "edrych" yn perthyn i wir grefydd. Nid oes y fath beth yn bod a dyn duwiol tywyll. Dechreuad gwir grefydd yw agoriad llygaid. Nid yw dyn wrth natur yn gweled; mae'n ddall ysbrydol. Dywed yr apostol am yr Iuddewon, "fod gorchudd yn aros ar eu calon hwynt, pan ddarllenir Moses, hyd heddyw." Darllenid cyfraith Moses bob Sabboth yn y synagogau; arferent ddarllen yr Hen Destament, yn yr hwn yr oedd amrywiol bethau yn dwyn perthynas agos â Christ; prophwydoliaethau, a darluniadau cysgodol o hono; ond yr oedd y gorchudd yn parhau o hyd ar eu meddyliau, fel na ddeallent yr Ysgrythyrau. Ac felly y mae llawer o wrandawyr yr efengyl y dyddiau hyn, mae gorchudd ar eu meddwl, fel nad ydynt yn gweled. Er fod gair Duw, a'i weision genym yn ei bregethu—un ar fynydd Ebal yn cyhoeddi y melldithion, nes ydynt yn abl dychrynu y caletaf; "y bydd i Dduw wlawio maglau tân a brwmstan ar yr annuwiol; "Dyfethi holl weithredwyr anwiredd;" eto y mae llawer yn eithaf tawel. Ond heb weled y maent; mae y gorchudd yn aros. Ni welant y cleddyf yn cael ei hogi uwch eu penau; y dalent blwm yn crogi uwch eu penau; na'r pydew uwch ben pa un y maent yn crogi wrth anadl frau y ffroenau; a phe torai angeu y llinyn arian, suddent i'r pydew diwaelod heb obaith am ymwared yn oes oesoedd. Mae un arall o'r gweision ar fynydd Gerizim, yn cyhoeddi bendithion ac addewidion nes ydynt yn abl gwneyd i'r mudan ganu, a'r cloff i lamu gan lawenydd; ond ni wêl y dall ddim. Ni wêl efe ogoniant yn yr Arglwydd Iesu, dim gwerth yn ei aberth drud. Y mae fel y grug yn y diffaethwch, ni wêl pan ddêl daioni. Beth yw yr achos na wêl yr annuwiol? Ai am nad oes perygl? Ai dyna paham y mae mor dawel? Nage, eithr dall ydyw, yn rhoi ei hun i gysgu yn ymyl ffau y llewod; malant ei esgyrn yn chwilfriw yn fuan. Ai am nad oes gogoniant yn yr Iesu y mae yn dywedyd, "Nid oes na phryd na thegwch iddo?" Er nad yw y dall yn gweled yr haul yn llewyrchu, a ydyw hyny yn profi nad oes goleuni ynddo? Mae gogoniant yn mhethau yr efengyl, pa un bynag a welir ef neu beidio. "Os cuddiedig yw ein hefengyl ni, yn y rhai colledig y mae yn guddiedig." Eithr mae y sawl a gafodd ei argyhoeddi yn gweled, ac edrycha hefyd ar bethau ysbrydol, ac edrycha ymlaen ar daledigaeth y gobrwy.

II. Barnu: "Barnodd Moses yn fwy golud ddirmyg Crist na thrysorau yr Aipht." Nid pan oedd yn blentyn y gwnaeth hyn. Mae'n wir fod plant yn fynych yn dewis tegan o flaen perlau, ond nid felly Moses pan wnaeth hyn; yr oedd efe yn llawn ddeugain mlwydd oed. Gwaith y gydwybod yw barnu mewn pethau o'r natur hwn. Mae'r duwiol a'r annuwiol yn barnu; ond barna yr annuwiol yn anghywir, fel y gŵr ieuanc

yn yr efengyl, yn barnu ei dda bydol yn fwy ei werth na bywyd tragywyddol; ond mae y credadyn yn barnu yn gywir am bob peth.

III. Gwrthod a dewis. Mae gwrthod a dewis yn hanfodol i wir grefydd. Nid oes eisieu arfau rhyfel i fyned â dynion i'r nefoedd, dim ond agor eu llygaid. Yr oedd cyfreithiwr unwaith wedi cael ei osod yn swyddwr i gasglu at Gymdeithas y Biblau, ac wedi cael y casgliad ynghyd synai yn ddirfawr, a dywedai na welodd erioed y fath beth a chael cymaint o arian at eu gilydd heb *warrant* i'w codi. Syna llawer i weled cynifer yn myned tua'r bywyd heb *warrant*, na chleddyf i'w gyru, dim ond o ddewisiad. Ië, nid oes rhwystrau digon cedyrn i'w hattal. Nid yw y llewod yn ddigon i attal Daniel i weddïo; na'r ffwrn dân i wneyd i'r tri llanc blygu i'r ddelw fawr; nid yw nac ystanciau, na thân a ffagodau, na dirdyniadau, yn ddigon i attal pobl i fyw yn dduwiol. Mae gwrthod a dewis yn perthyn i wir grefydd o hyd; rhaid gwrthod pechod, a dewis sancteiddrwydd, a hyny cyn angeu. Bydd yn rhy ddiweddar i ddewis yr amser hwnw. Ceisia rhai wneyd hyn pan fo eu traed yn oeri yn yr hen Iorddonen. Bydd rhyw rai yn gwaeddi yn afon angeu, Mi a ddewisais bobl annuwiol yn gyfeillion, gwrthodais bobl Dduw; dewisais bechod a gwrthodais Grist; dewisais wasanaeth Satan, a gwrthodais un Duw; ond yr wyf heddyw am newid perchen a phobl! Ond erbyn hyny, bydd yn rhy ddiweddar, meddai Mab Duw. Heddyw yw y diwrnod i roddi eiddo Cesar i Cesar, a'r eiddo Duw i Dduw, ac nid diwrnod i newid perchen. Ond O diolch! nid yw yn rhy ddiweddar i newid perchen yr awr hon, am hyny eled yn newid mewn pryd!

Mae dau wrthddrych yn cael eu gosod ger eich bronau, sef Crist a'r byd; ac yr ydych chwithau i ddewis un o'r ddau. Ac yn awr, cyn penderfynu, ystyriwch beth fydd y golled a'r ennill o bob ochr. Beth ennillwch, a beth gollwch, os dewiswch y byd a gwrthod Crist? a beth ennillwch wrth ddewis Crist a gwrthod y byd? Rhoddwch chware teg i'r ddwy ochr, a dewiswch yr un yr ennillwch fwyaf trwyddi. Cymerer yn ganiatäol y dewisir y byd a gwrthod Crist. Beth wyt yn debyg o ennill trwy hyny? Fe allai y cei ychwaneg o aur ac arian, gwisgoedd a lletty gwell, a chyflawni dy chwantau llygredig. Dyna y cwbl elli di ddysgwyl gael trwy wrthod Crist a dewis y byd. Ond gâd i ni gael gweled beth golli di. Ti golli heddwch cydwybod. Hwyrach y gelli gael rhyw foddion i'w thawelu am ychydig amser yn y byd hwn, ond er *spite* i ti yn awr ac yn y man, hi a dafla saethau a'th leinw â braw a dychryn. "Ysbryd gŵr a gynnal ei glefyd ef, ond ysbryd cystuddiedig pwy a'i cyfyd?" Os dewisi di'r byd, a gwrthod Crist, ti a golli dy enaid. "Pa lesâd i ddyn os ennill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun?" Dewisodd Jeroboam y byd a chollodd ei enaid, a'i iaith heddyw ydyw, "*Bargain* ddrud wneis I!" Ar un modd Saul, brenin cyntaf Israel, a Belsassar, a Judas fradwr. Pe cymerai un o angylion Duw di y mynyd yma at ddrws uffern, cait glywed yno ocheneidiau rhai o —— yn gwaeddi, Gwrthodais Grist, dewisais y byd yn ei gyfoeth, a'i bleserau, a'i anrhydedd, *slotian* gyda'r meddwon, a chollais fy enaid; "bargen ddrud!" dewisais ychydig o gyfoeth bydol, a gwrthodais deyrnas ddisigl, ac anniflanedig goron gogoniant—"bargen ddrud!" Beth ddywedi di wrth hyn? A wyt ti yn penderfynu dewis y byd eto? A elli di ddyweyd dy fod yn dewis dy bleserau er i ti drwy hyny golli dy enaid? Fe allai fod hyn yn swnio yn afrywiog yn dy glustiau yn bresennol, eithr geiriau gwirionedd a sobrwydd ydynt. Cofia, os parhei yn dy ddewisiad ychydig yn hwy, bydd pethau fel hyn yn brofiad genyt am byth.

Edrycher ar yr ochr arall, gan gymeryd yn ganiatäol y dewisi di Grist, a gwrthod y byd. Dywed y byd wrthyt am y golled—ti a golli y peth hwn a'r llall; ac yn fuan colli'r cwbl sydd yn werth ei gadw. Ond beth fydd dy golled yn y diwedd? Fe allai y colli barch rhywrai, a chyfeillion, a pherthynasau, a'u hewyllys da, er nad oes cymaint perygl am hyny ychwaith yn bresennol. Collodd rhai eu bywyd trwy hyn. A phe bait tithau yn colli cyfoeth, anrhydedd, a phleserau, a hyd yn nod dy fywyd, nid ydynt yn werth eu cymharu â'r ennill

mawr, "taledigaeth y gobrwy." Y mae yn ennill yn y byd hwn. Yr wyt ti yma mewn anialwch, yn cerdded ffordd ddisathr, a'th elynion fel yn ymguddio ymhob twmpath, yn barod i dy ddyfetha. Onid ennill mawr fyddai cael y Duw Hollalluog, Hollwybodol, Hollddigonol, Hollgyfoethog, i wylio drosot, a'th amddiffyn yn dy beryglon, dy gynnal yn dy orthrymderau, dy gysuro yn dy ofidiau? "Yr ardderchawgrwydd hwn sydd i'w holl saint ef." "Am hyny, gan ein bod wedi ein cyfiawnhâu trwy ffydd, y mae genym heddwch tuag at Dduw, trwy ein Harglwydd Iesu Grist. Trwy yr hwn hefyd y cawsom ddyfodfa trwy ffydd i'r gras hwn, yn yr hwn yr ydym yn sefyll ac yn gorfoleddu dan obaith gogoniant Duw. Ac nid hyny yn unig, eithr gorfoleddu yr ydym mewn gorthrymderau," &c. Y peth gollir mewn ystyr dymmorol, fe'i hennillir mewn pethau ysbrydol; ac os wrth golli y byd yr ennilli rasusau yr Ysbryd—O ennill mawr! Nid yw cystuddiau y saint ond byr ac ysgafn, ac yn gweithredu tragywyddol bwys gogoniant. Moddion ydynt yn llaw Duw i'n cymhwyso i ogoniant; fel y gwynt a'r tònau i weithio y llong i'r hafan ddymunol. Mae trallodau y saint yn eu diddyfnu o'r byd, ac i godi eu serch at y pethau sydd uchod; gwlad well; taledigaeth y gobrwy. Y maent i fod fel y *loadstone* i dynu eu calonau i'r nefoedd.

Dyma ddwy ochr wedi cael eu gosod o dy flaen, ac y mae yn hawdd canfod pa un sydd oreu o ddigon; nid oes yr un gymhariaeth rhyngddynt. Yr wyf wedi gosod o dy flaen ffordd einioes a ffordd angeu; dewis dithau yr einioes fel y byddech byw. Mae Duw yn dodi ffordd bywyd o dy flaen, a'r byd yn dodi ffordd angeu,—y naill gyfoeth, y llall dlodi. Eisteddodd Moses i lawr i fwrw y draul, a dewisodd "Grist a'i waradwyddiadau." A'r un modd Paul, wele yntau yn gwneyd peth cyffelyb, pan yn ei gyflawn oed a'i synwyr, yn ddysgedig, wedi ei ddwyn i fyny wrth draed Gamaliel; nid proffeswr ieuanc ydoedd ychwaith, yn taro allan mewn rhyw benboethni, ond wedi bod gyda chrefydd flynyddau, ac wedi dyoddef gydag achos y Gwaredwr, a dyma ei farn a'i ddewisiad yntau, "Eithr y pethau oedd elw i mi, y rhai hyny a gyfrifais i yn golled er mwyn Crist. Ië, yn ddiammheu, yr wyf hefyd yn cyfrif pob peth yn golled, o herwydd ardderchawgrwydd gwybodaeth Crist Iesu fy Arglwydd." O! na ddywedai rhyw un o'r newydd:—

"'R wy 'n dewis Iesu a'i farwol glwy
Yn Frawd a Phriod i mi mwy;
Ef yn Arweinydd, Ef yn Ben
I'm dwyn o'r byd i'r Nefoedd wen."

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI UNDEB YSGOLION SABBOTHOL CYMRU.

☞ *Cyfeirier at y GWERSLYFRAU am y WERS a'r CWESTIYNAU arni. Cofier fod y Wers ar gyfer pob Sabboth o Ebrill 1af, 1888, i'w rhanu dros ddau Sabboth.*

DOSBARTH CANOL.

Y GWYRTHIAU.

Iachâu y Wraig âg ysbryd gwendid ynddi.

SABBOTH, CHWEFROR 10FED—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* MEDI 9FED *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 10).

ADN. 10, 11: Ni nodir y lle na'r amser; ond yn unig y "synagog" a'r "Sabboth." Luc yn unig sydd yn cofnodi y wyrth hon; ond y mae y dammegion (18—21) gan Matthew a Marc. *Ysbryd gwendid.* Dylanwad yr ysbryd drwg wedi ei oddef i'w chystuddio ("yr hon a rwymodd Satan," adn. 16); ond ymddengys nad oedd hi wedi ei *meddiannu* gan ddiafol. Nid oes un awgrym o hyny yn ngeiriau ein Harglwydd wrthi; ac ni byddai ychwaith mewn achosion felly yn "rhoddi ei ddwylaw" ar y dyoddefydd, adn. 13.

Wedi cyd-grymu, &c. Cefn-grwth *(curvature of the spine).* Nis gallai ymuniawni: nid nas gallai wneyd hyny yn berffaith, neu "yn gwbl" (Heb. vii. 25), ond nis gallai wneyd *o* gwbl—"mewn modd yn y byd." Nis gallai weled yr Iesu o bosibl. Ac yr oedd wedi bod yn y cyflwr hwn am ddeunaw mlynedd. Y mae Luc y physygwr yn rhoddi hanes manwl o'r afiechyd, fel y mae yn arfer. Ond er ei bod yn y fath ystâd, daeth i'r synagog, a chafodd fendith yno.

ADN. 12: Galwodd hi ato a llefarodd

wrthi mewn tosturi. Gyda'r fath fawrhydi tawel y mae yn cyhoeddi y ffaith ei bod wedi ei hiachâu!

Adn. 13: *Ac efe a roddes ei ddwylaw arni.* At dosturi geiriau, chwanega gydymdeimlad cyffyrddiad. Ac yr oedd hyn o offerynoliaeth yn anghenrheidiol, nid tuag at iachâu, ond i gynnorthwyo ei ffydd hi. *Yn ebrwydd hi a uniawnwyd.* Ffôdd yr ysbryd gwendid ar ei air, ac ar ei gyffyrddiad teimlodd hithau ffydd i geisio ymuniawni, a nerth i wneyd. *A ogoneddodd Dduw.* Gweddus oedd y mawl hwn ar ddydd yr Arglwydd, ac yn ei dŷ, am ryddhâd o garchar deunaw mlynedd!

Sabboth, Chwefror 17eg—*(Y rhan olaf o'r Wers am* Medi 9fed *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 10).

Adn. 14: *A'r arch-synagogydd a atebodd yn ddigllawn, &c.* Cynhyrfwyd ei ddigllonedd Phariseaidd am i'r Iesu iachau ar y Sabboth. *&c a ddywedodd wrth y bobl.* Nid wrth yr Iesu, nac wrth y wraig, ond mewn dull llechwraidd ac anwrol wrth y bobl, y rhai nad oedd ganddynt ddim i'w wneyd â'r mater. Seilia ei gondemniad ar lythyren y gyfraith, ac ar y ddysg Rabbinaidd. Daliai y Rabbiniaid y gallai meddygon ymarfer eu galwedigaeth ar y Sabboth mewn achosion sydyn, ond nid mewn afiechyd o hir barhâd fel hwn. Y mae ei ddigllonedd yn ei arwain i ffolineb, fel y gwna yn aml. Nid oedd hyd yn nod lythyren y gyfraith o'i blaid. Sieryd fel pe byddai derbyn iachâd yn "weithio" ar y dydd Sabboth.

Adn. 15: *O ragrithiwr.* Gwelai yr Iesu ei galon. O dan rith zel dros y Sabboth, gelyniaeth at Grist oedd yn ei gynhyrfu. *Cyf. Diwyg.*—"O ragrithwyr:" yn ol y darlleniad hwn, edrychai yr Iesu arno fel yn cynnrychioli dosbarth, a chyfarchai bawb yn y gynnulleidfa oedd yn cyfranogi o deimlad yr archsynagogydd. *Oni ollwng pob un o honoch ar y Sabboth ei ŷch neu ei asyn o'r preseb, a'i arwain i'r dwfr?* Yr oedd yr engraifft hon yn cyfateb yn hollol i'r amgylchiad. Byddai yr anifail wedi ei *rwymo* fel yr oedd y wraig druan hon. Ni phetrusai yr un o honynt wneyd y weithred hon o anghenrheidrwydd a thrugaredd ar y dydd Sabboth.

Adn. 16: *Ac oni ddylai hon, a hi yn ferch i Abraham?* Yn un o'r bobl ethol-edig, yn ol y cnawd yn unig, medd rhai. Dadleua eraill ei bod o had ysbrydol Abraham; ni sonia wrthi am faddeuant o'i phechodau, nac am beidio pechu mwyach; deuai yn zelog i addoli i'r synagog ar y Sabboth, er ei gwendid mawr; a thorai allan i foliannu Duw am ei hiachâd. *Yr hon a rwymodd Satan, wele, ddeunaw mlynedd, gael ei rhyddhâu o'r rhwym hwn ar y dydd Sabboth?* Nid oedd fod Satan wedi ei oddef i'w rhwymo yn un prawf nad oedd yn Israeliad yn wir, mwy nag yn achos Job, ac eraill o blant Dduw. "Ddeunaw mlynedd"—gwyddai ei holl hanes. "Oni *ddylai*"—yn ol deddf cariad? Cyferbynir rhwym yr anifail â'r "rhwym *hwn*," yr hwn oedd gymaint yn fwy poenus; am ychydig oriau y buasai yr anifail yn rhwym, ond hon "wele, ddeunaw mlyn-edd;" anifail oedd y naill, ond hon yn "ferch i Abraham" un o deulu dyn, o'r genedl etholedig, ac o deulu Duw. Amddiffynai yr Iesu y wyrth flaenorol, ar y dyn â'r llaw wedi gwywo, am ei bod yn weithred *dda.* Gofynai iddynt beth oedd gyfreithlawn ar y Sabboth—"gwneuthur da ynte gwneuthur drwg, cadw einioes ai colli?" Condemnient eu hunain, pa ochr bynag a gymerent. Amddiffynai y wyrth hon trwy appelio at eu gwaith hwy eu hunain yn gwneyd gweithredoedd o anghenrheidrwydd a thrugaredd ar y Sabboth, i *anifail:* pa faint gwell oedd gweini ymwared llawer mwy i fôd dynol, a "merch i Abraham?"

Adn. 17: Desgrifiad bywiog o effeithiau anwrthwynebol geiriau a gweithredoedd y Prophwyd mawr" galluog mewn gair a gweithred"—toi ei elynion â chywilydd, a pheri i'r bobl lawenychu. Yna y mae y dammegion yn dilyn (yn uniongyrchol, y mae'n debyg), am yr had mwstard a'r surdoes, i ddangos goruchafiaeth ei deyrnas ef yn y pen draw ar bob gwrthwynebiad.

Sabboth, Chwefror 24ain—(Medi 16eg *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 10).

Adolygu gwaith y Sabbothau diweddaf.

Sabboth, Mawrth 3ydd—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* Medi 23ain *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal* 10).

Iachâu y deg gwahan-gleifion.

Nis gellir penderfynu i ba ran o'r daith i Jerusalem y perthyna y wyrth hon. Nid yw ei hamseriad o anghenrheidrwydd ar ol yr hyn a adroddir yn flaenorol. Gallai ei bod wedi cymeryd lle yn nechreuad y daith. Pa fodd bynag, yn ystod y daith olaf i Jerusalem y bu hyn. Barna rhai mai yr un oedd ag yn Mat. xix.

Adn. 11: *Trwy ganol Samaria a Galilea.* Golyga hyn—*rhwng* Samaria a Galilea, ar hyd y terfyn. Cadarnheir hyn gan y ffaith fod y gwahangleifion yn gwmni cymysg o Iuddewon a Samariaid. Tybia Meyer ei fod ar wahan oddiwrth y

lleill oedd yn myned i'r ŵyl, y rhai a elent trwy Samaria.

Adn. 12: *A phan oedd efe yn myned i mewn i ryw dref.* Hyny yw—ar y ffordd tuag at y pentref neu y dref. Nid yn agos: ni chaniateid i wahangleifion fod yn agos i'r porth, Lefit. xiii. 46; Num. v. 2. *Ddeg o wŷr gwahangleifion.* Yr oedd eu trueni wedi tori i lawr ganolfur y gwahaniaeth rhwng Iuddewon a Samariaid, ac wedi eu gwneyd yn un cwmni. Y mae *dyoddefaint* wedi bod bob amser yn un o'r galluoedd cryfaf i lyfelu. Gwelir hanes cyfraith y gwahanglwyf yn Lefit. xiii. a xiv. Yr oedd yr holl osodiadau perthynol iddo yn arwyddluniol. Nid oedd yn heintus. Ond yr oedd y mwyaf ffiaidd ac anfeddyginiaethol o bob clefyd. Math o farw mewn bywyd ydoedd *(living death);* ac am hyny y dewiswyd ef fel y darlun tebycaf a ellid ei dynu ar lèn natur o echryslonrwydd pechod. O herwydd hyn, ymddangosai ein Hiachawdwr fel yn awyddus i iachâu y gwahanglwyf, ar bob cyfle, yn anad yr un clefyd. Yr oedd y cysgod goreu o'i waith fel Iachawdwr y byd. Iachâu y gwahanglwyf oedd un o'i wyrthiau cyntaf, a dyma un o'i rai olaf. *A safasant o hirbell.* Fel yr oeddynt yn rhwym o wneyd.

Adn. 13: *A hwy a godasant eu llef.* Yr oedd dau achos yn peri hyn, anianyddol a moesol—pellder lle, ac ing eu hysbryd. *Iesu Feistr, trugarhâ wrthym.* Ychydig a wyddent am dano, y mae'n debyg; ac eto yr oedd yma hedyn ffydd, yn ol dywediad brenin Israel—mai gallu dwyfol yn unig a allai iachâu o'r gwahanglwyf, 2 Bren. v. 7.

Adn. 14: *Ewch a dangoswch eich hunain i'r offeiriaid.* Yn Mat. viii. glanhäwyd y gwahanglwyfus yn nghyntaf, ac yna yr oedd i ddangos ei hun i'r offeiriad. Yma, myned i ddangos eu hunain i'r offeiriaid oedd ammod y glanhâd. Yr oedd hyn yn brawf ar eu ffydd a'u cariad. Yr oedd ganddynt ddigon o ffydd i ufuddhau ac i gael glanhâd. A fyddai ganddynt ddigon o gariad—ffurf ar gariad yw diolchgarwch—i ddychwelyd, i ddiolch am waredigaeth mor fawr? Dengys yr hanes pa fodd y bu. Yr oeddynt oll i fyned yn nghyntaf gyda'u gilydd, ac wedi hyny pob un at ei offeiriad neilluol ei hun. Mor ofalus oedd yr Iesu am ddangos parch i osodiadau dwyfol y gyfraith!—y gyfraith ag yr oedd efe wedi dyfod i'r byd i'w diddymu (trwy ei chyflawni). *A bu, fel yr oeddynt yn myned, fe a'u glanhäwyd hwynt.* Dangosai Crist yn y wyrth hon, fel gyda'r dyn â'r llaw wedi gwywo, fel yr oedd ffydd ac ufuddod yn llwyddo. Yn yr *act* o gredu a cheisio ufuddhau, yr oedd rhinwedd iachäol yn dyfod.

DOSBARTH HYNAF.

Sabboth, Chwefror 10fed—*(Y rhan olaf o'r Wers am* Medi 2il *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 27).

Adn. 37: *Ar y dydd diweddaf, y dydd mawr o'r ŵyl.* Yr oedd gŵyl y pebyll i'w chadw am saith niwrnod, Lefit. xxiii., y dydd cyntaf i fod yn gymanfa sanctaidd, ac yn Sabbath-ŵyl; ac ar yr *wythfed* dydd hefyd yr oedd cymanfa sanctaidd a Sabbath-ŵyl drachefn i'w cynnal: Neh. viii. 18; Num. xxix. 12—38. Am saith niwrnod yr oedd yr ŵyl yn cael ei chynnal, mewn ystyr briodol, a'r bobl yn trigo mewn bythod. Yr oedd yr wythfed yn ddydd mawr arbenig, fel diweddglo yr ŵyl. Yr wythfed dydd y mae yn debyg oedd hwn, "dydd mawr" a "dydd diweddaf yr ŵyl." *Od oes ar neb syched, deued ataf fi ac yfed.* Golygir yr adnodau hyn fel dechreuad i nifer o gyfarchiadau neu bregethau, a draddodwyd gan Grist ar yr un dydd—dydd diweddaf Gŵyl y Pebyll. Gallai fod achos allanol yma i waith ein Harglwydd yn defnyddio y gymhariaeth o *ddwfr* am dano ei hun, fel yr oedd hefyd wrth ffynnon Jacob. Cyflawnid defodau arbenig ar yr ŵyl hon, ac yn enwedig ar yr wythfed dydd; am hyny y gelwid ef yn "ddydd *mawr* yr ŵyl." Yr oedd yr ŵyl drwyddi yn adeg o lawenydd; ond torai y llawenydd allan yn orfoledd uchel ar y dydd hwn, yn enwedig ar y fynyd ddifrifol pan y dygai yr offeiriad ddwfr (megys y gwnai bob dydd o'r ŵyl, yn cael ei ddylyn gan orymdaith orfoleddus) mewn llestr euraidd, wedi ei gymeryd o ffrwd Siloah, yr hon a lifai o dan fynydd y deml, ac y tywalltai ef yn seremoniol, ynghyd a gwin, ar yr allor, tra y cenid yr Hallel, sef Sal. cxiii.—cxviii. Pan y gwnai hyny ar y dydd hwn, torai yr holl gynnulleidfa allan i ganu y geiriau yn Esa. xii. 3: "Am hyny mewn llawenydd y tynwch ddwfr o ffynnonau iachawdwriaeth." Trwy hyn rhoddid mynegiad i ystyr arwydd-luniol y weithred.

Cyflawnid y ddefod hon bob dydd am saith niwrnod. Ond ar yr wythfed dydd, cenid yr Hallel, ond (yn ol y rhan fwyaf) ni thywelltid y dwfr. Buasai yn hollol naturiol ar y dybiaeth hon, i'r Iesu sefyll a llefain y geiriau hyn ar y lle a'r adeg y tywelltid y dwfr ar y dyddiau blaenorol. Naturiol iawn oedd iddo osod ei hunan allan, yn yr amgylchiadau hyn, dan y gymhariaeth o *ddwfr*, y *gwir* ddwfr, y "dwfr bywiol." *Syched*—y

teimlad cryfaf o anghen naturiol i osod allan anghen ysbrydol dyn.

Adn. 38: *Yr hwn sydd yn credu ynof fi, megys y dywedodd yr ysgrythyr, afonydd o ddwfr bywiol a ddylifant o'i groth ef.* Pa "ysgrythyr" yw hon? Nid yw i'w chael yn yr Hen Destament. Tybiai rhai mai o ryw lyfr apocryphaidd neu ganonaidd, wedi ei golli, y mae y dyfyniad. Hen dybiaeth yw hon nad oes braidd neb yn awr yn ei chredu. Y mae yn eglur nad dyfyniad llythyrenol sydd yma o un adnod, ond sylwedd lliaws o addewidion prophwydol wedi ei grynhoi i un ymadrodd. Tybia rhai y cyfeirir yma at addewidion a galwadau cyffredinol, megys yn Esaiah lvi.: "O deuwch i'r dyfroedd," &c., neu xliii. 20: "Tywalltaf ddyfroedd ar y sychedig," &c. Ond ystyria yr esbonwyr goreu fod y cyfeiriad at yr addewidion mwy pendant dan y ffugyr o ddyfroedd yn llifo o Jerusalem, o'r mynydd sanctaidd, neu o'r deml: Joel iii. 18; Zech. xiv. 8; Ezec. xlvii. 1, 12, &c.

O ran sylwedd y dywediad, cymhara y Gwaredwr ei hun yma i'r deml, a dengys ei fod Ef a phob un a gred ynddo fel teml fywiol; megys y tywalltai ffynnon ei dyfroedd o fynydd y deml, felly llifa ffrwd o fywyd nefol o'r Gwaredwr, ac o'r rhai trwy gredu ynddo a wnaed yn debyg iddo. Sylwa rhai fod y ffugyr "o'i groth ef" yn cyfeirio at y ffaith, fod y dwfr a dywelltid ar yr allor gan yr offeiriad wedi dyfod o ddyfnderoedd mewnol y mynydd i afon Cedron. Felly, "o'i fod mwyaf mewnol." Y mae yr hwn sydd yn credu yn cael ei ddisychedu â'r dwfr bywiol; ac nid hyny yn unig, ond y mae yma y fath helaethrwydd nes y mae yn gorlifo; y mae y credadyn ei hunan yn dyfod yn ffynnonell o ddwfr bywiol i eraill.

Adn. 39: *A hyn a ddywedodd efe am yr Ysbryd, yr hwn a gâi y rhai a gredent ynddo ef ei dderbyn.* Yr Ysbryd oedd y dwfr bywiol. Yr oedd y rhai a gredent i'w "dderbyn" mewn modd neilduol ar y Pentecost. *Canys eto nid oedd yr Ysbryd Glân wedi ei roddi, o herwydd na ogoneddasid yr Iesu eto.* Nid nad oedd yr Ysbryd yn gweithredu o dan yr Hen Destament; ond o dan yr oruchwyliaeth ddiweddaf yr oedd i gael ei *dywallt:* dyma y pryd yr oedd i'w amlygu mewn helaethrwydd, mewn doniau mwy anghyffredinol, mewn ffurfiau mwy amrywiol o weithrediad, ac mewn dylanwadau mwy parhaol. Megys ag yr oedd y *Mab* yn gweithredu mewn dynion cyn ei *ymgnawdoliad*, felly yr oedd yr *Ysbryd* cyn ei *dywalltiad*. Ond megys nad amlygwyd cyflawnder y bywyd oedd yn y Mab hyd yr Ymgnawdoliad, felly nid amlygwyd cyflawnder a nerth doniau yr Ysbryd hyd y tywalltiad. Y rheswm am hyn oedd "o herwydd na ogoneddasid yr Iesu eto." Gorpheniad gwaith y pryneidigaeth ac esgyniad Crist i'w ogoniant oedd *ammod* anfoniad yr Ysbryd. Yr oedd rheswm cyfreithiol a moesol dros hyn. Gwaith Crist ydoedd *sail* a *moddion* gwaith yr Ysbryd. Corff ein Harglwydd, wedi ei ogoneddu, medd un, yw y deml o dan riniog yr hon y mae yr Ysbryd Glân yn llifeirio allan i ni: Rhuf. viii. 11; Col. ii. 9; Ioan i. 16.

Sabboth—Chwefror 17eg—*(Y Rhan gyntaf o'r Wers am* Medi 9fed *yn y* Gwersyfraau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 27).

"Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn."

Adn. 40: *Yn wir hwn yw y Prophwyd.* Yr oedd agwedd yr Iesu, grym ei eiriau, a nerth yr Ysbryd a weithiai ynddo, yn cario dylanwad cryf ar ei wrandawyr. Teimlent fod rhywbeth mawr ynddo. Credai lliaws mai Efe oedd y Prophwyd mawr. Dysgwyliai yr Iuddewon ryw brophwyd neillduol fel rhagflaenor i'r Messïah, oddiar Deut. xviii. 15, 18. Credent mai un o'r hen brophwydi wedi cyfodi oddiwrth y meirw a fyddai, Mat. xvi. 14.

Adn. 41: *Eraill a ddywedasant, Hwn yw Crist.* Tybiai y rhai hyn mai nid y rhagflaenor ydoedd, ond y Messïah ei hunan. *Eraill a ddywedasant, Ai o Galilea y daw Crist?* Tramgwyddai y rhai hyn wrth y dyb gyfeiliornus mai yn Galilea y ganesid ef, ac nid yn Bethlehem. Heb wneyd ymchwiliad i'r mater, gadawent i'r amgylchiad allanol hwn eu camarwain, er yr argraff nerthol a wnaethid ar eu calonau. Fel hyn bradychent eu natur arwynebol a'u difaterwch.

Adn. 42: Gwir oedd yr hyn a ddywedent. Ond nid oedd yr Iesu ei hun yn seilio ei hawliau ar ei hàniad o Dafydd a'i enedigaeth yn Bethlehem. Mewn ffordd wahanol iawn yr oedd efe am ddeffro ffydd ynddo, er y buasai y cyddarawiadau hyn â'r prophwydoliaethau yn fantais i ymofynwyr cywir.

Adn. 43, 44: Aeth yn "ymrafael" yn mysg un dosbarth, ar y rhai y gwnaethai ei eiriau rhyw gymaint o argraff. Aeth dosbarth arall, llai agored i dderbyn argraff oddiwrth y gwirionedd, ac yn ngrym gelyniaeth ddall, i geisio "gosod dwylaw" arno i'w ddal. Gallai eu bod am gynnorthwyo y swyddogion ofnus, neu am weithredu yn eu lle. Ond attelid hwynt gan allu anweledig; fel yn adn. 30: "am na ddaethai ei awr ef eto."

SABBOTH, CHWEFROR 24AIN—(*Y Rhan olaf o'r Wers am* MEDI 9FED, *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 27).

"*Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn.*"

ADN. 45: *Yna y daeth y swyddogion at yr archoffeiriaid a'r Phariseaid.* Darfu i ystâd y teimlad yn mysg y bobl beri i'r Sanhedrim anturio i wneyd y prawf o'i ddal Ef yn swyddogol. Anfonwyd swyddogion o'r deml i'r pwrpas hwn i'w ddwyn Ef ger eu bron. Yn awr, y mae y swyddogion yn dychwelyd at yr awdurdodau heb gyflawni eu neges. *A hwy a ddywedasant wrthynt hwy, Paham na ddygasoch chwi ef?* Cwestiwn yr awdurdodau i'r swyddogion: 'Beth yw hyn? Pa fodd yr ydych yn dyfod yma heb eich carcharor?'

ADN. 46: *A'r swyddogion a atebasant, Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn.* Dynion diddysg oeddynt, o feddwl syml, agored i nerth y gwirionedd, heb ymddyrysu yn maglau hunan-les a rhagfarn. Yr oedd geiriau yr Iesu a'i holl agwedd wedi effeithio yn ddwys arnynt. Daethant yn eu hol heb wneyd eu gwaith. Mewn teimlad cymysg o ofn a gwroldeb, dywedasant wir dyfnach ac ëangach nag a wyddent hwy wrth ddyweyd—"Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn."

ADN. 47—49: *A hudwyd chwithau hefyd? A gredodd neb o'r penaethiaid ynddo ef, neu o'r Phariseaid?* Troant dystiolaeth onest y swyddogion yn ol gyda chasineb dirmygus. 'Nid oes neb o ddysg na chyfrifiad wedi credu ynddo, felly ni raid i chwi feddwl fod dim ynddo. Nid oes ond rhai o'r werinos ddwl, anwybodus, yn credu ynddo.' Ac yn eu dirmyg nwydwyllt, galwent y werin yn "felldigedig."

ADN. 50, 51: *Nicodemus . . . . a ddywedodd wrthynt.* Yr oedd calon Nicodemus wedi ei chylymu wrth yr Iesu, er yr ymddyddan cofiadwy hwnw liw nos. Felly y mae yn ymhyfhau yn awr i siarad yn gyhoeddus o'i blaid. Y mae yn debyg fod y Sanhedrim yn awr yn eistedd, pan y daeth y swyddogion ger eu bron. A gellir casglu eu bod wedi llawn fwriadu yn awr gondemnio yr Iesu i farwolaeth. Ond y mae Nicodemus yn eu hadgofio fod hyny yn groes i'r gyfraith, heb i'r cyhuddedig gael ei amddiffyn ei hun: Exod. xxiii. 1; Deut. i. 16, 17; xix. 15.

ADN. 52, 53: Teimlent rym anwrthwynebol dadl Nicodemus. Ond ceisient droi ei min trwy gwestiwn gwawdus, "A ydwyt tithau o Galilea? Chwilia a gwêl, na chododd prophwyd o Galilea?" Edrychent ar Galilea fel gwlad hannerpaganaidd. Ond yr oeddynt yn methu. Yr oedd dau brophwyd enwog o Galilea—Jonah ac Elias; ac fe allai hefyd Nahum a Hosea. Fel arferol, yr oedd eu rhagfarn yn eu dallu rhag gweled y gwirionedd.

SABBOTH, MAWRTH 3YDD—(*Y rhan gyntaf o'r Wers am* MEDI 16EG *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 28).

Y wraig a ddaliesid mewn godineb.

Y mae dilysrwydd yr hanes hwn, vii. 53—viii. 1—11, fel rhan o Efengyl Ioan, wedi bod yn destyn llawer o ddadl. Y prif anhawsderau ydynt—fod lluaws o gyfysgrifau hebddo, rhai o honynt o awdurdod mawr, megys y *Codex Vaticanus;* mewn eraill y mae nod o ammheuaeth yn cael ei roddi gydag ef; mewn eraill, gosodir ef mewn lle a chysylltiad gwahanol; ac ni cheir cyfeiriad ato yn ngweithiau y prif Dadau. Rhoddir pwys mwy fyth ar yr annhebygrwydd sydd ynddo i arddull Ioan pan yn adrodd hanes. Ond y mae esbonwyr a beirniaid enwog yn dadleu dros ei ddilysrwydd. Dywed Ebrard fod y tystiolaethau allanol yn ei erbyn yn hollol ddibwys. Nis gallwn ond nodi yn fyr rai o'r rhesymau dros ddilysrwydd yr hanes. 1. Y *lle* hwn yn yr Efengyl y gosodir ef ynddo gan bron yr oll o'r cyfysgrifau. Nid oes dim yn y cysylltiad i awgrymu hyny; ymddengys yn ddigysylltiad, ac yn perthyn i gyfnod arall yn ngweinidogaeth Crist. Pe wedi ei roddi i mewn, paham y buasai y rhai a'i dodasant yn ei roddi yn y lle hwn? 2. Cyfeiria Jerome ato, a hen nodiadau, fel yn bod mewn lluaws o gyfysgrifau o hynafiaeth mawr. 3. Derbyniwyd ef yn ddiweddarach bron yn gyffredinol fel rhan ddilys o Efengyl Ioan. 4. Nid oes ynddo ddim tebyg i ffug. Y mae ei ddelw yn wreiddiol, ac yn cyd-daro yn hollol âg ysbryd a meddwl Crist. 5. Gellir yn hawdd gyfrif am fod rhyw rai wedi ei adael allan wrth gopïo—oddiar ofn iddo ymddangos yn rhy dyner at bechod. 6. Ond y mae bron yn anmhosibl rhoddi cyfrif rhesymol pa fodd y daeth i'r testyn o gwbl, os nad ydoedd yn rhan ddilys o hono.

ADN. 3: *A ddygasant ato ef wraig.* Nid y barnwyr cyfreithiol a'i dygasant. Ni buasent hwy yn apelio at yr Iesu fel awdurdod uwch; nac yn rhyddhau y wraig yn ol ei ddyfarniad ef; ac ni buasai yntau yn gosod gweinyddiad y gyfraith i ymddibynu ar ddiniweidrwydd swyddogion y gyfraith, adn. 7. Geilw hwynt (adn. 10) yn "gyhuddwyr," nid yn farnwyr. Rhai o'r dosbarth dysgedig yn y gyfraith oeddynt, yn gweled hwn yn gyfle da i geisio rhwydo yr Iesu (adn. 5), trwy ei gael i wrthwynebu Moses; neu i

droseddu yn erbyn yr awdurdod Rufeinig, yr hon a hawliai benderfynu mater o fywyd yn annibynol ar gyfreithiau Moses. 'Beth wyt ti, fel Messïah, yn ei ddyweyd?'

Adn. 6: *A ysgrifenodd â'i fys ar y ddaear.* Yr oeddynt hwy yn gynhyrfus. Gwnai hyn, i roddi hamdden i'w meddyliau a'u nwydau lonyddu. Ymddangosai yn ddifater. Ofer ymholi *beth* a ysgrifenodd. *Paham* yr ysgrifenodd? Cynnygiwyd lliaws o atebion i hyn, nas gallwn roddi lle iddynt. Yr ystyr fwyaf rhesymol, dybygem, i'r weithred yw —ei bod yn ddull naturiol o arwyddo iddynt nad oedd Efe am ymyraeth â'r mater mewn gwedd *farnol.*

Adn. 7—11. Ond, gan na chât lonydd ganddynt, y mae am eu hargyhoeddi hwy. 'Os ydych am labyddio, "yr hwn sydd ddibechod o honoch, tafled yn gyntaf gareg ati hi."' Nid yw yn golygu o anghenrheidrwydd *yr un* pechod â hi; y mae pob pechod yr un yn ei natur. Saethodd argyhoeddiad i'w cydwybod, gydag awdurdod uwch na'r eiddo Moses. Nis gall y naill bechadur gondemnio y llall. Duw biau hyny. Sylwa un, fod yma awgrymiad mai godineb ysbrydol y genedl a barai nad oedd deddf Moses yn parhau i gael ei gweinyddu yn yr achos hwn. Aethant ymaith, wedi methu ei ddal ef, yn myned yn erbyn Moses nac awdurdod Rhufain. Yn annysgwyliadwy iddynt, Efe a'u daliodd hwy, gan wneyd iddynt gondemnio eu hunain. Cymerodd ef y weithred allan o diriogaeth deddfwriaeth farnol, a gwladlywiaeth, i diriogaeth moesoldeb. Y mae yr hyn a ddywed yn adn. 11 yn gyson â'r hyn a ddywedasai am y gyfraith yn y Bregeth ar y Mynydd. Egwyddorion tragywyddol moesoldeb sydd dan sylw yno: ond yma, gweinyddiad swyddogol o farn yn ol y gyfraith wladol Iuddewig. Nid oedd Efe yn ymgymeryd â'r gwaith hwnw. Nid i farn, yn yr ystyr hon, y daeth i'r byd. "Dos, ac na phecha mwyach"—dengys y gair hwn sancteiddrwydd ei dynerwch. Cynnwysa, medd un, lymder mwy, ond ei fod yn ysbrydol a chuddiedig, na phe buasai wedi cyhoeddi y ddedfryd lymaf o farwolaeth. Wele gasineb perffaith at bechod, a thosturi digyffelyb at bechadur wedi eu huno.

Hanesion a Darnau Detholedig.

PAROTOAD AR GYFER Y PULPUD.

(Sylwadau a wnaed yn Nghyfarfod y Pregethwyr yn Nghymdeithasfa y Dyffryn.)

Y Llywydd, y Parch. William James, B.A., a osododd y mater penodedig ger bron, sef *Parotöad ar gyfer y pulpud.*

Parch. Robert Roberts, Dolgellau, a ddywedai ei bod yn wahanol iawn yn awr rhagor yn amser y tadau; mae y bobl fwyaf meddylgar yn gweled yn union a oes gan y dyn bregeth, a chyn y gellir cael hono rhaid llafurio mewn darllen a meddwl, a meddwl yn fwy na darllen. Ein perygl yw darllen gormod a meddwl rhy ychydig. Byddaf yn teimlo parotoad mewn ysbryd yn fwy anhawdd na pharotoi y bregeth—cael ysbryd i'w thraddodi, ac ysbryd yn nechreu y gwasanaeth. Yr oeddwn yn ddiweddar yn gwrando un yn dechreu y gwasanaeth, a theimlwn ei fod yn gweddïo yn dda a doniol o ran geiriau, ond methwn beidio a theimlo, ar yr un pryd, mai rhywbeth *official*—swyddogol—oedd y weddi, heb ddyfod o ysbryd y dyn ei hun. Yr ydym mewn perygl oddiwrth hyny. Yr wyf yn cofio bod yn Amlwch, ac wrth fyned i'r capel gyda Mr. Roberts, gofynodd i mi a g'ai efe ddechreu yr odfa i mi? "Na," meddwn innau, "yr wyf fi yn lled ieuanc i chwi ddechreu yr odfa i mi; pe buasai Mr. J. Pritchard yma, buasai yn dda genyf iddo ef wneuthur." "Wel," meddai Mr. Roberts yn ei ffordd garedig, "os na bydd efe yma, mi wnaf fi. Mi wn i beth ydyw bod ar dipyn o daith, a gweddïo a gweddïo yn gyhoeddus nes y mae un yn colli ysbryd gweddi." Nid oes dim a feddyginiaetha hynyna ond cymdeithas â Duw, teimlo ein hunain yn mhresennoldeb y Brenin Mawr. Mae cynnulleidfaoedd yn gallu cydymdeimlo â phregethwr yn well yn ei weddi nag y medrant ei feirniadu yn ei bregeth. "Ymprydiau a gweddïau." Pa nifer o honom sydd yn arfer neilluo cyfran o'n hamser yn hollol i weddïo? Nid oes dim yn fwy o gymhwysder i'r pulpud na bod yn ysbryd yr hyn y ceisir ei draddodi—gweled rhywbeth yn y Gwaredwr, nid gweled rhywbeth mewn *idea*, ond gweled rhywbeth ynddo, nes gosod argraff ar y gynnulleidfa ein bod yn ei garu ein hunain. Dylem gredu mewn dylanwad dwyfol ar ein meddyliau ni ein hunain, a nerth dwyfol trwy y weinidogaeth ar feddyliau y gynnulleidfa. Credwn fod yn rhaid cael y nerth hwn, a bod yr Arglwydd yn barod i'w roddi, i'r neb sydd daer ac ymdrechgar am dano.

Parch. Robert Owen, Wyddgrug, a sylwai: "Eithr ni a barhawn mewn gweddi a gweinidogaeth y Gair." Yr oedd yr Apostolion yn peidio â rhyw bethau a berthynent i amgylchiadau yr eglwys. "Nid cymhesur i ni adael Gair Duw, a gwasanaethu byrddau." Teimlent hwy ei bod yn ddyledswydd arnynt roddi y pethau hyn heibio er mwyn ymgysegriad mwy llwyr i Air Duw a'r weinidogaeth. Nid da gweled pregethwr â'i fys ymhob browes, rhyw fus-

nes gwladol neu blwyfol. Nid yw hyny yn un fantais i effeithiolrwydd gweinidogaeth y Gair. Mae eisieu talu sylw i hynyna. Mae rhai o honom sydd mewn cysylltiad â'r byd yn brofiadol ei fod yn anfantais bwysig i ni lawer tro. Mae eisieu "parhâu, parhâu mewn gweddïau." Wedi gorchfygu gyda Duw, mae rhyw fath o orchfygu gyda dynion yn dylyn.

Y Parch. John Hughes, D.D., a ddywedai, Mae yn debyg fod y dyddiau hyn yn ddyddiau ag y mae yn rhaid i bregethwr, mewn trefn i lwyddo, ac i gadw ei hun yn gymeradwy ger bron y cynnulleidfäoedd, lafurio yn fawr, bod yn ddyfal yn y parotöad anghenrheidiol i'r gwaith. Byddaf yn barnu mai dyddiau lled anhawdd pregethu ynddynt ydyw y dyddiau presennol. Mae y blynyddoedd a aeth heibio, y blynyddoedd sydd yn myned yn awr dros ein penau, maent yn flynyddoedd celyd iawn—y cynnulleidfäoedd yn anhawdd i wneyd argraff arnynt, ac ychydig yn ymofyn lle yn yr eglwysi; ac ymhlith yr ychydig hyny, anfynych y canfyddir neb o dan deimlad dwys a dwfn. Mae amryw bethau yn natur yr amser yn dangos fod a fynom â gwaith anhawdd iawn. Mae y cynnulleidfäoedd yn llai hylosg, yn llai bywiog, yn llai parod, nag oeddynt 40 mlynedd yn ol i dderbyn argraff; neu os yn derbyn argraff, anfynych iawn y dangosant arwyddion o deimlad. Mae addysg ar gynnydd, a rhaid addef nad yw tuedd dynion ieuainc meddylgar a darllengar yn cael ei amlygu o blaid crefydd yn yr hen ddull. Yn aml ceir ammheuon o barth i'r hyn a gredir. Mae oes ffydd yn Nghymru wedi myned heibio, a dyddiau beirniadaeth wedi dechreu. Rhwng pobpeth y mae yn ddyddiau anhawdd pregethu. Rhaid i ni wrth lafur parhaus, a hwnw yn llafur ysbrydol. Cynnwysa parotöad i'r pulpud, meithrin yn wastadol yr ansawdd meddwl a'r ysbryd priodol i waith y weinidogaeth, yr hyn y mae yr Apostol yn ei annog ar Timotheus, "Myfyria ar y pethau hyn ac yn y pethau hyn aros;" yn wastadol, yn ddiwiolfrydig. Myfyria arnynt: nid rhoddi awr i astudio weithiau, ond myfyrio, y galon a'r serch yn byw yn y pethau. Dyna y parotöad cyntaf, agwedd wastadol y meddwl gyda phethau Duw. Os bydd y pregethwr felly, hawdd fydd iddo neilluo adegau penodol i ddwyn allan holl ymadferthoedd ei feddwl ar ryw ranau penodol o'r Gair. Os gallaf weddïo yn ddibaid, hawdd iawn myned i'r dirgel am hanner awr i gael nesâd arbenig at Dduw. Os yw ysbryd pregethwr yn arfer bod gyda phethau yr Efengyl, y mae hynyna yn fantais i'r parotöad mwyaf arbenig, sef astudiaeth a myfyrdod ar bethau dwyfol. Mae parotöad felly yn barotöad ysbrydol, a dyna y prif. Y mae hwn yn anhebgorol, bod calon pregethwr yn ei waith. Bydded y dyn felly, ni bydd eisieu ei argymhell i beidio rhedeg ar ol pob ysgyfarnog. Mae ei galon a'i gydwybod yn rhwym wrth waith sydd yn gofyn ei holl egnïon a'i holl amser.

Mae parotöad llenyddol yn anghenrheidiol. Glŷn wrth ddarllen: darllen Gair Duw yn benaf, astudio Gair Duw. Byddaf yn meddwl mai un parotöad rhagorol ar gyfer y pulpud ydyw treio meistroli rhyw ranau neilluol o'r Bibl. Pan mae eisieu pregeth arnom, ein profedigaeth ni ydyw wrth chwilio am destyn, cynnyg ar hwn a methu, dychwelyd at un arall a methu, mewn dull direol. Tybiaf mai help mawr i bregethwr ydyw fod ganddo feusydd neilluol i'w hastudio. Pregethau oeddynt rai o'r llyfrau goreu a feddwn, megys rhai o draethodau Dr. Owen a John Howe—pregethau wedi eu corffori ynghyd yn y traethodau. Aros gyda mater yw y ffordd i'w weled yn eglurach a dyfnach. Meddyliwch fod pregethwr yn cymeryd Rhuf. viii. neu Ioan xvii. yn faes astudiaeth am hanner blwyddyn, y cyfoeth o ddduwinyddiaeth ac o feddyliau cyfaddas i'w pregethu a ennilla y pregethwr. Felly bydd y parotöad i gyfausoddi un bregeth yn help i gyfansoddi yr ail. Eangir a chyfoethogir y meddwl â'r defnyddiau mwyaf pwrpasol at anerch cynnulleidfa.

Nid dyogel yw pregethu pregeth o'r cof. Ni ddylai pregethwr bregethu yr un bregeth heb ei meddwl drachefn—cau ei lygad ar y byd a'i meddwl drwyddi mewn trefn i'w chael i'w galon a'i ysbryd. Clywais ambell un, yn y modd mwyaf peirianyddol yn "dyweyd" pregeth—yn ei dyweyd fel y clywais ambell blentyn yn dyweyd ei bader. Gallech dyngu, wrth ei wrando, ei fod wedi ei thraddodi hanner cant o weithiau heb ddim gwaith i'r meddwl a'r ysbryd.

Y Parch. Hugh Jones a sylwai mai cyfarfod oedd hwn i bregethwyr ddywedyd eu profiad y naill wrth y llall. Yr wyf yn teimlo mai anghen mawr ein henwad a'n gwlad ni yn y dyddiau yma ydyw gallu i bregethu. Dylanwad gyda'r pregethu yma, fel y gwyddom, a roddodd fôd i'n henwad, ac a osododd fri ac addurn arno, ac a'i gwnaeth yn allu mawr yn Nghymru. Mae yr holl drefniadau sydd wedi cael eu bôd yn y Cyfundeb o bryd i bryd, maent yn rhyw bethau sydd yn tyru o gwmpas hyn. Os aiff pregethu i lawr bydd diwedd ar y cwbl. Byddaf yn ofni i ni fyned i bregethu yn aneffeithiol, yn ofni rhag i'r bobl ddiflasu arnom; ein pregethau, ein llafur, a'n duwinyddiaeth. Ni a gollwn ein gafael ar y bobl yn ein gweinidogaeth oddigerth fod rhywbeth dwyfol yn y pregethu. Byddaf yn methu cael y peth hwn: fy enaid yn cael ei gymhell, a'i ddirgymhell gan gariad Crist, a fy mod yn perswadio dynion "gan wybod ofn yr Arglwydd,"—"ofn yr Arglwydd." Mae rhyw hyfdra anarferol yn y dyddiau hyn ar Enw Iesu Grist, wrth weddïo a siarad am y Person Mawr. Mae rhy fach o ofn Iesu Grist o lawer. Yr ydym yn caru rhy fychan, ac yn ofni rhy fychan arno. Dylem fod yn gwybod "ofn yr Arglwydd," byddai hyny yn gymhwysder i berswadio dynion. Byddaf yn teimlo fy hunan yn bregethwr gwael iawn, bydd arnaf gywilydd o honof fy hun, can lleied o ymddiried genyf yn fy mhregeth er llafurio gyda hi. Oni b'ai am ryw lygedyn

bach fydd dyn yn ei gael weithiau, nid ydwyf yn meddwl y buaswn yn dal ati. Byddaf bron a myned i chwilio am rywbeth arall i'w wneyd rhag i'r bobl flino arnaf. Mi wn yn dda beth ydyw tipyn o ymdrech i wneyd pregeth, a myned o'r naill destun i'r llall. Yr wyf wedi dyfod i'r penderfyniad bellach nad ydyw yn beth synwyrol i ildio i adnod, ac nid wyf am ildio i'r un adnod byth eto, ond ymdrechu gyda hi fel Jacob gyda'r angel, a dyweyd wrthi, "Ni'th ollyngaf hyd oni'm bendithi."

Y Parch. N. Cynhafal Jones, Llanidloes, a ddywedai ei fod yntau wedi profi y temtasiynau y sonir am danynt i droi oddiar y ffordd. Mae gwleidyddiaeth yn dyfod ar draws llwybr pregethwr. Ai cadw yn glir a ddylem wneyd ai ynte cymysgu gyda dynion mewn gwahanol gylchau a gwahanol gysylltiadau, a cheisio gwneyd lles iddynt? Hawdd yw bod yn fwy esgeulus gyda'r pregethwr na chyda y bregeth.

Y Parch. James Donne a ddywedai: "Felly cyfrifed dyn nyni megys gweinidogion i Grist." Dyna un desgrifiad a roddir o honom. Dyma urddas, dyma anrhydedd, y dylem grynu yn ei ymyl, gweinidogion i Grist sydd ar y ddeheulaw, yr hwn y mae pob awdurdod yn y nef ac ar y llawr yn ei law. "Goruchwylwyr ar ddirgeledigaethau Duw"—pethau dyfnaf Duw. Yr ydym ni yn genadau dros Grist—*ambassadors*, &c. "Pwy gan hyny yw Paul, a phwy Apolos?" ond gweinidogion, &c. "Duw a roddes y cynnydd." "Pan ddêl efe, efe a argyhoedda y byd." Mae yn berygl i ni ymddibynu ar hyn a dysgwyl wrth Dduw, heb gofio fod goreu Duw wedi ei gysylltu â goreu dyn. Dywedir fod Barnabas yn llawn o'r Ysbryd Glân a ffydd. Gyda y cymeriad yna y cawn fod yn "llaw yr Arglwydd." Dengys y Bibl y dylai tri pheth berthyn i bob un o honom:—1. Ein bod yn ddarllenwyr mawr. "Glŷn wrth ddarllen:" pregethu y *gair* yw ein gwaith ni. Mae yn berygl i'n hysbrydoedd gael eu sychu at bethau dwyfol. A ydym yn rhoddi y safle briodol i'r Bibl; a ydyw ef yn debyg i ysgub Joseph a'r ysgubau oll yn myned o'i chwmpas ac yn ymgrymu iddi? 2. Myfyrwyr mawr. Eistedd i fyfyrio, cymeryd amser. Mae yn berygl i ni feddwl na byddwn yn gwneyd dim heb lyfr. Nid y gloewyn byw sydd yn ehedeg o flodeuyn i flodeuyn, ond y wenynen sydd yn treiddio, sydd yn d'od o hyd i'r mêl. 3. Gweddïo llawer. Fe dry Sabbath allan yn wahanol iawn ar ol treulio wythnos mewn gweddïo. Credaf y dylem weddïo ar ol y Sabbath. Bydd yn dda genyf feddwl fod y bregeth yn llaw Duw wedi i mi ymadael. Yr oedd hyn yn nodweddu dynion mawr. Byddai Mr. Elias weithiau am oriau heb fyned i'w wely ar ol bod yn pregethu.

Parch. Griffith Ellis, M.A., a ddywedai—Cefais fy mrawychu bore dydd Llun diweddaf mewn ymddyddan âg un o glerigwyr y dref acw. Daeth y pulpud rywfodd yn destun y siarad, a dywedais innau, "Pregethu ydyw y moddion y mae Duw wedi ei ordeinio i achub y byd." "Nid wyf yn credu hyny," ebai yntau; "fe'ch tery chwi yn rhyfedd fy mod yn dywedyd hyny; ac ychydig o feddyliau i'r bobl eu cymeryd adref gyda hwynt ydyw fy mhregethau i." Mae parotoad at y pulpud yn cynnwys ein bod i wneyd ein pregethau ein hunain ac nid chwilio am bregethau pobl eraill. Clywais fod cynnulleidfa yn ddiweddar yn gwrando yr un bregeth gan ddau bregethwr y ddau Sul agosaf i'w gilydd. Tebyg yw nad oedd yr un o'r ddau wedi ei gwneyd hi. Mae un amgylchiad fel yna yn ddigon i ddinystrio llawer iawn ar effeithiolrwydd gweinidogaeth yr Efengyl mewn lle. Clywais am un dro arall yn pregethu pregeth â chymhariaeth darawiadol ynddi. Adwaenodd un o'r gwrandawyr y gymhariaeth, ac wedi myned adref chwiliodd a daeth o hyd i'r bregeth yn gyflawn mewn llyfr. Yr wyf yn cofio sylw Dr. Edwards, "Na phregethwch un bregeth byth heb fyned trosti yn gyntaf; nid er mwyn ei chofio, ond er mwyn ei theimlo." Dyma ei sylwadau ar yr un adeg. Cychwyn adref y Nadolig yr oeddym, a hawdd fyddai gan Dr. Edwards roddi tipyn o gynghorion i ni y prydiau hyny, ond nid wyf yn cofio fod ganddo ddim tebyg i'r tro hwnw erioed. "Teimlwch tuag at bregethu fel gwaith mawr eich hoes. Y peth cyntaf sydd arnoch ei eisieu yw teimlo eich bod wedi eich hanfon i bregethu; ni fedrwch bregethu i bwrpas os na theimlwch eich bod wedi eich hanfon i bregethu. Dyna un peth oedd yn nodweddu yr hen bregethwyr—teimlad o anfoniad dwyfol; dyna oedd eu nerth hwy. Cenadon Duw oeddynt i ddyweyd meddwl Duw. Prin gof sydd genyf am Ebenezer Morris. Dyna yr un peth sydd yn aros yn fy meddwl fel adgof am dano yw, ei urddas yn y pulpud; a'r teimlad o awdurdod oedd yn ei osgo o flaen cynnulleidfa. Mynwch wybod eich bod wedi eich hanfon. O hwnyna y cyfyd nerth i chwi yn y pulpud. Ond fe gyfyd i chwi un peth arall: rhyddid. Dau beth sydd eisieu yn y pulpud, nerth a rhyddid, bod yn naturiol. Yr oedd hwnyna yn yr hen bregethwyr. Yr oeddynt yno fel pe ar yr aelwyd, yn hollol *homely* a naturiol. Byddwch yn rhydd. Peth perygl iawn yw i bregethwr fod yn rhydd yn y pulpud, os na bydd ei barotoad yn y *study* wedi bod yn drwyadl iawn, ac nid parotoad i wneyd pregeth yn unig, ond parotoad ar y meddwl a'r ysbryd trwy ddiwylliant trwyadl. Rhaid i'ch meddwl fod yn *cultured* cyn y gellwch feiddio bod yn rhydd yn y pulpud. Dyna y pregethwr effeithiol—y dyn diwylliedig yn teimlo ei hun yn anfonedig Duw yn berffaith rydd."

Terfynwyd y cyfarfod trwy weddi gan y Parch. Owen Owens, Liverpool.

R. H. Morgan,
Ysgrifenydd.

Y WIALEN HAIARN YN Y GWAELOD.

Yr oedd chwarelwr yn aelod yn eglwys Maentwrog, lawer o flynyddoedd yn ol, pan oedd yr achos yno yn gymharol ieuanc a gwan; a gwnai yntau ei hun yn ddefnyddiol yn ol ei allu. Ond penderfynodd rywbryd symud i fyw i Ffestiniog, er mwyn arbed cerdded a bod yn fwy cyfleus at ei alwedigaeth. Amlygodd ei fwriad i William Ellis, yr hen flaenor hynod a gwreiddiol yn Maentwrog. Gwrthwynebai William Ellis y bwriad hwn o'i eiddo â'i holl egni. Dadleuai fod mwy o anghen am ei gynnorthwy i ddwyn yr achos ymlaen yn Maentwrog nag yn eglwys fawr Ffestiniog. Defnyddiai bob dadl i geisio ei berswadio i beidio symud, er mwyn achos Crist. Rhybuddiai ef rhag iddo dynu anfoddlonrwydd y Brenin Mawr arno, a lled awgrymai na byddai yn beth sŷn os ymwelid âg ef trwy ryw brofedigaeth, os ymadael a fynai. Pa fodd bynag, glynu yr oedd y gŵr yn ei fwriad er pob dadl. Ond cyn iddo roddi ei fwriad mewn gweithrediad, dygwyddodd amgylchiad oedd yn debyg iawn i gyflawniad o brophwydoliaeth yr hen flaenor. Cyfarfyddodd â damwain led dost yn y chwarel, trwy yr hon y caethiwyd ef i'w wely am amser. Mor fuan ag y clywodd William Ellis am hyn, prysurodd i edrych am dano. Ni ddywedodd air ar y cyntaf o gerydd nac edliwiaeth. Holodd ef yn fanwl am hanes y ddamwain, pa fodd y dygwyddodd. Yna mynodd wybod yn fanwl beth oedd y niweidiau a dderbyniodd. Yna, wedi deall pa fodd yr oedd pethau yn sefyll, dywedodd wrtho: "Ho, yn wir! a dyna yr holl niwed a gefaist, ïe? Wel, yn siwr i ti, y mae genyt achos mawr i fod yn ddiolchgar, am dy fod wedi dianc gyda chan lleied. Y mae y Brenin Mawr wedi bod yn dyner iawn wrthyt! Ond cofia di hyn—y mae gan y Brenin Mawr lawer o wïail yn ei gawell. Y mae y rhai ysgafnaf ar y *top*. Y maent yn trymhau o hyd wrth fyned i lawr: *ac y mae y* WIALEN HAIARN *yn y gwaelod.*"

Barddoniaeth.

SALM XLVI.

Duw yw fy noddfa gadarn, gref,
Agos yw Ef bob amser;
Mae 'n hawdd ei gael—ei gymhorth gaf
Pan fyddaf mewn cyfyngder.

Am hyn nid ofnwn, er fy mai,
Pe y symudai 'r ddaear,—
Pe 'r âi 'r mynyddoedd oll a'u stôr
I ganol môr ar wasgar.

Er rhuo mewn terfysglyd lef
O'i ddyfroedd ef a'i ymchwydd,
Nes crynu holl fynyddau byd,
Yr un o hyd f'ai 'm Llywydd.

Ganddo mae afon loew, glau,
O'i ffrydiau byth yr yfaf;
Hon lawenhâ ddinas fy Ner,—
Cysegrle 'r Duw goruchaf.

Yn nghanol ei Eglwys y mae Duw,
Diysgog yw 'n dragywydd;
Yn fore iawn fe 'i cymhorth hi
Rhag cynî a gwaradwydd.

Er terfysg holl genedloedd byd,
Er maint eu llid at Sïon;
Dychryn a wnant pan glywant floedd
Duw 'r lluoedd drwy ei weision.

O! deuwch, gwelwch ôl ei law
Yn mraw yr annuwiolion,—
Hyd nes gwybyddant pwy sydd Dduw,—
Ofnadwy yw 'r arwyddion.

TRISANT.

Liverpool.

ADDFWYNDER.

Rhyw ddirgel deimlad ydyw hwn
Ymwthia 'n hynod wŷl i'r amlwg,
Mae yn ei natur ef, mi wn,
Er pob dylanwad dd'od i'r golwg;
Mae i Addfwynder rymus nerth—
Nid nerth y corwynt a'r rhaiadrau—
Ond eiddo araf-sicr, ferth,
Ac anghymarol wawr y borau.

Tynerwch mynwes wedi ei droi
Yn ymarferol yw hwn yma,
A'i hanes beunydd ydyw rhoi
Yn rhydd i ddynion ffordd y cerdda;
Ei deimlo mewn cyffyrddiad llaw,
A'i weled gawn yn ngwên y gwyneb,
A chilia pob dyeithrwch draw
Fel nifwl yn ei bresennoldeb.

Fe 'i clywir ef yn nhôn y llais
Ac yn nhynerwch ymadroddion,
A chydymffurfia â phob cais
I wella cyflwr meibion dynion;
Y wobr addawedig yw
(Rhinweddau a wobrwyir felly),
Am fod yn addfwyn fe rydd Duw
Y ddaear oll i'w hetifeddu.

Oes modd i ddyn tra yn y byd,
Wir lenwi y cymeriad yma,
A bod yn addfwyn ar bob pryd,
Gan nad pa beth a'i cyfarfydda?
Oes, drwy benderfyniad llawn
I ddylyn Iesu Grist yn gyson,
Oblegid gostyngedig iawn
Ac "addfwyn ydyw Ef *o galon.*"

Abermaw. O.

IESU—EIN JOSUA NI.

Rhagorach na'r Ganaan ddaearol
Yw 'r Ganaan ysbrydol sydd fry;
Rhagorach arweinydd sydd iddi,
Sef Iesu—ein Josua ni.

Rhagorach cynnyrchion a ffrwythau,
Bro dawel heb ryfel na haint;
Ein hymdrech fo am fyned iddi,—
Tragwyddol orphwysfa y saint!

D. W.

Machynlleth.

Adolygiad y Wasg.

GEIRIADUR YR YSGOL SABBOTHOL; *yn cynnwys sylwadau cynnwysfawr ar bawb a phob peth y Bibl.* Gan ELLIS DAVIES. Caernarfon: H. Humphreys, 1888.

GEIRIADUR bychan cryno a chynnwysfawr, yn engraifft nodedig o lawer mewn ychydig. Hyd y cawsom gyfle i farnu, y mae y Nodiadau o dan y gwahanol eiriau, er yn fyr, eto yn bwrpasol a sylweddol. Diau genym y bydd y llyfr yn ddefnyddiol iawn i luaws deiliaid yr Ysgol Sabbothol, i roddi iddynt y swm a'r math o wybodaeth yr ymofynir am dani pan yn cyfeirio at lyfr o'r fath. Cynnwysa 376 o dudalenau o lythyren fân. Ni'l yw ei bris mewn rhwymiad lliau ond Hanner Coron.

Y TRAETHODYDD *a'r* GENINEN.

DA genym weled y *Traethodydd* yn dyfod allan yn llawn bywyd a gallu yn nechreu y flwyddyn hon eto. Ac y mae y *Geninen* yn llawn dyddordeb fel arferol. Addewir arlwy annghyffredin yn Rhifyn Gwyl Dewi—Mawrth y 1af.

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL.

YN Nghyfarfod Misol Sir Fflint, a gynnaliwyd yn Nerquis, Rhagfyr 17 a'r 18fed, cafwyd ymdriniaeth ar "Bwysigrwydd y weinidogaeth, a dyledswydd yr eglwysi i fod yn gydwybodol wrth godi pregethwyr." Agorwyd y mater gan y Parch. Robert Owen, Wyddgrug. Annogwyd i ymdrechiadau adnewyddol y flwyddyn hon gyda'r ddwy Genadaeth, y Gartrefol a'r Dramor.

Yn Nghyfarfod Misol Môn, a gynnaliwyd Rhagfyr 17 a'r 18fed, cafwyd adroddiad gan y Parch. J. Williams, Dwyran, am ei ymweliad â'r eglwys Gymraeg yn Dublin, ar ddathliad jubili yr achos yn Talbot St. Pasiwyd diolchgarwch gwresog i Robert Davies, Ysw., Bodlondeb, Menai Bridge, am ei addewid haelionus o Fil o Bunnau i'r Gymdeithas Genadol Dramor.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Gaerfyrddin, a gynnaliwyd yn Llanelli, Rhagfyr 11 a'r 12fed, pasiwyd penderfyniad yn dadgan llawenydd y Cyfarfod Misol am waith y Parch. D. C. Davies, M.A., yn ymgymeryd â'r swydd o Brif-athraw Athrofa Trefecca, ynghyd a dymuniad am iddo gael ei fendithio â hir oes i wasanaethu y Cyfundeb yn y cylch pwysig y mae mor gymhwys iddo. Pasiwyd i anfon llythyr o gydymdeimlad â theulu y diweddar Brifathraw yn eu galar.

Yn Nghyfarfod Misol Dyffryn Clwyd, a gynnaliwyd yn Warren Road, Rhyl, Rhagfyr 13eg, cafwyd hanes dyddorol am yr achos yn y capel hwn, yr hwn a gychwynwyd gyntaf mewn cwch ar y Foryd, wyth mlynedd ar hugain yn ol. Y mae yno yn awr 122 o aelodau eglwysig, a 220 o ysgolorion yn yr Ysgol Sabbothol. Traethwyd ar ddyledswydd rhieni a meistriaid i ofalu am addysg grefyddol y plant a'r rhai sydd dan eu gofal. Dywedid fod lle i gredu am lawer oedd eu bod mor ddiystyr o'u rhwymedigaeth yn y mater hwn, fel nad ydynt yn rhoddi na chefnogaeth na chyfleusdra i'w plant a'r rhai sydd dan eu gofal i fyned i gyfarfodydd crefyddol i gael eu haddysgu gan eraill, heb son am ymdrafferthu i'w haddysgu gartref eu hunain. Er fod yn awr chwaneg o gyfleusderau addysgol yn yr eglwysi nag oedd yn nyddiau ein tadau, eto nad yw y plant, gan mwyaf, yn rhagori ar blant yr oes o'r blaen, am nad ydynt yn cael eu dysgu gan eu rhieni i fawrhâu y cyfleusderau hyny; nac yn cael mwyach yr addysg gartrefol, feunyddiol hono, heb yr hon y mae pob addysg eglwysig ac wythnosol yn annigonol. Hysbyswyd fod y diweddar Mr. Daniel Jones, o'r Gwindŷ Isaf, wedi gadael cymunrodd o £100, a'i wraig Mrs. Catherine Jones, £60, tuag at gynnal y weinidogaeth yn y Bettws.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Benfro, a gynnaliwyd yn Milford, Rhagfyr 8 a'r 9fed, pasiwyd penderfyniad yn dadgan llawenydd am fod y Pwyllgor wedi llwyddo i sicrhau gwasanaeth y Parch. D. C. Davies, M.A., fel Prifathraw Athrofa Trefecca, a dymuniad am hir oes iddo yn y gwasanaeth.

Yn Nghyfarfod Misol Llundain, a gynnaliwyd yn Jewin Newydd, Rhagfyr 28ain, pasiwyd penderfyniad o gydymdeimlad â theulu y Proffeswr Howells yn eu galar, ac yn amlygu eu teimlad o'r golled a gafodd y Cyfundeb yn ei farwolaeth. Hefyd, pasiwyd penderfyniad yn llongyfarch Pwyllgor Athrofa Trefecca

ar eu llwyddiant yn sicrhau gwasanaeth y Parch. D. C. Davies, M.A., fel Prifathraw y Coleg.

Yn Nghyfarfod Misol Gorllewin Morganwg, a gynnaliwyd yn Cruglas, Abertawe, Ionawr 2il a'r 3ydd, datganwyd llawenydd mawr y frawdoliaeth yn mhresennoldeb y Parch. W. Williams, Abertawe, yn eu plith, a'i adferiad o'i gystudd diweddar; ac yn enwedig wrth glywed y newydd cysurlawn fod ei iechyd yn awr yn well nag y bu er's blynyddoedd.

Yn Nghyfarfod Misol Dwyrain Morganwg a gynnaliwyd yn Pantywyll, Merthyr Tydfil, Ionawr 2il a'r 3ydd, ymdriniwyd â'r mater:—"Ein rhwymedigaeth i ofalu am ein cyd-aelodau trwy eu cynnorthwyo mewn cyfyngder, a'u cynghori yn garedig a difrifol pan y gwelir arwydd o lesgedd a gwrthgiliad ynddynt." Pasiwyd penderfyniad cyffelyb i'r eiddo y Cyfarfodydd Misol eraill gyda golwg ar Brifathraw Athrofa Trefecca.

Yn Nghyfarfod Misol Lleyn ac Eifionydd, a gynnaliwyd yn Edeyrn, Ionawr 7fed a'r 8fed, penderfynwyd ordeinio Mr. William Jones, y cenhadwr yn ynys Enlli, yn unol â'r awdurdodiad a roddwyd yn Nghymdeithasfa y Dyffryn; fod yr ordeiniad i gymeryd lle yn Nghyfarfod Misol Rhydbach, Mawrth 14eg, a bod y Parch. R. Davies, Amwythig, Ysgrifenydd y Genadaeth Gartrefol, a'r Parch. J. Hughes, D.D., Caernarfon, i gael eu gwahodd i weinyddu yn ngwasanaeth yr ordeiniad. Cafwyd anerchiad cynnwysfawr a chynhes gan Mr. R. Jones, U.H., Pwllheli, ar y mater penodedig, "Arolygiaeth gweinidogaethol;" a hysbysodd ei fod ef a Mr. E. Jones, Maer Pwllheli, yn barod i roddi £20 yr un yn flynyddol am bum' mlynedd, tuag at gynnorthwyo yr eglwysi gweiniaid yn Lleyn ac Eifionydd i gynnal gweinidogion, ar yr ammod i'r Cyfarfod Misol wneyd £60 yn y flwyddyn i gyfarfod eu £40 hwy. Cyflwynwyd diolchgarwch gwresocaf y Cyfarfod i Mr. R. Jones am ei anerchiad, ac iddo ef a Mr. E. Jones am eu haddewidion caredig; a nodwyd pwyllgor i dynu allan gynllun er cyfarfod â chynnygion haelionus y ddau foneddwr.

RHODD HAELIONUS.

Y MAE y boneddwr haelionus, Robert Davies, Ysw., Bodlondeb, Menai Bridge, wedi addaw y rhodd dywysogaidd o FIL o BUNNAU i'r Gymdeithas Genadol Dramor, i gyfarfod â'r diffyg presennol yn nghyllid y Gymdeithas.

GALWADAU.

Y MAE y Parch. John Pugh, Pontypridd, wedi derbyn galwad unfrydol yr eglwys yn Clifton Street, Caerdydd, ac wedi dechreu ar ei weinidogaeth yno. Hefyd, y Parch. Morgan Davies i Risca, Sir Fynwy; y Parch. Robert Thomas, Llanllyfni, i Lanerchymedd, Môn; y Parch. W. Mydrim Jones i Shiloh, Llanelli; y Parch. W. Phillip Williams i Tywyn a'r Morfa, Dyffryn Clwyd; Mr. W. J. Jones, o Athrofa Trefecca, i Lanfihangel a Llangors, Sir Frycheiniog; a'r Parch. W. Morris, Llandudoch, i eglwys Twyn Carno, Rhymni.

AMRYWION.

CYNNALIWYD Cyfarfod Pregethu Blynyddol Corris ac Aberllefenni nos Lun a dydd Mawrth (Nadolig). Gwasanaethwyd gan y Parchn. Principal Edwards, D.D., Aberystwyth; Robert Thomas, Llanllyfni; John Williams, Dwyran; a G. Parry, D.D., Aberystwyth.

Cynnaliwyd Cyfarfod Sefydliad y Parch. T. H. Green, gynt o Ddinbych, yn nghapel Seisonig Zion, Caerfyrddin, Rhagfyr 14eg. Siaradodd *Alderman* Thomas ar ran yr eglwys. Atebodd Mr. Green mewn anerchiad priodol a theimladwy. Yna rhoddodd y Parch. J. Wyndham Lewis y Cynghor i'r gweinidog (yn lle y Parch. D. C. Davies, M.A., Trefecca, yr hwn a luddiwyd gan amgylchiadau nas gallesid eu rhagweled).

Cynnaliwyd Cyfarfod Sefydliad y Parch. D. M. Benjamin yn Abertillery, yn mis Rhagfyr. Anerchwyd y cyfarfod gan y Parchn. J. Wyndham Lewis, B. C. Davies, Abercarn, Mr. Benjamin, a gweinidogion o enwadau eraill, ynghyd a'r Parch. J. E. Rhys, y cadeirydd, a Mri. S. N. Jones a T. James, Blaina.

MARWOLAETHAU PREGETHWYR.

MORRIS DAVIES, YSW., CAERNARFON.

Nos Sadwrn, Rhagfyr 29ain (neu yn blygeiniol boreu Sabboth) bu farw, yn dra disymwth, Morris Davies, Ysw., M.R.C.S., &c., &c., Uxbridge House, Caernarfon. Meddyg oedd Mr. Davies, medrus a llwyddiannus iawn. Yr oedd hefyd yn bregethwr rheolaidd; ac yn un o'r ychydig sydd yn aros o'r rhai a dderbyniwyd (o dan yr hen drefn) yn aelodau o'r Gymdeithasfa, ond na ordeiniwyd i gyflawn waith y weinidogaeth. Yr oedd Dr. Davies yn ŵr o synwyr naturiol cryf, o wybodaeth gyffredinol eang, o feddwl

bywiog a dawn ymadrodd helaeth a pharod. Yr oedd o duedd hynod gymdeithasgar a serchog, yr hyn ynghyd a'i arabedd a'i ddawn, ei gallineb a'i sirioldeb, a wnai ei gyfeillach yn hynod swynol. Amlygid crefyddolder dwfn ei ysbryd yn ei weddïau, ac yn y sylwadau a wnai yn y Cyfarfodydd Eglwysig; ac yr oedd ei holl fywyd yn ddiargyhoedd. Tua deng mlynedd ar hugain yn ol, pregethai yn amgylchoedd Caernarfon yn lled fynych, a phob amser gyda blas a chymeradwyaeth. Diau genym pe buasai wedi ymroddi i'r weinidogaeth, y buasai yn bregethwr poblogaidd. Ond yn y blynyddoedd diweddaf, anfynych iawn y pregethai.

Brodor oedd Dr. Davies o Dyffryn Ardudwy, Sir Feirionydd. Daeth i Gaernarfon tua 38 mlynedd yn ol, wedi gorphen ei efrydiau yn Glasgow a Dublin, i ymsefydlu fel meddyg. Tua 28 mlynedd yn ol, ymbriododdâg un o ferched James Rees, Ysw., argraffydd a pherchenog y *Carnarvon and Denbigh Herald*—boneddiges ieuanc nodedig o hawddgar ac anwyl, yr hon a fu farw ar enedigaeth baban, yn hynod o annysgwyliadwy. Yr oedd Dr. Davies yn feddyg galluog a medrus iawn, wedi ymroddi i'w gelfyddyd, a'i galon yn ei waith. Bu ei yrfa yn llwyddiannus y tu hwnt i'r cyffredin. Rhwng ei lwyddiant fel meddyg am ddeugain mlynedd, a'i anturiaeth mewn prynu nifer mawr o *shares* y *N. & S. Wales Bank* pan oeddynt yn y man isaf, daeth i feddiant o gyfoeth mawr.

Yr oedd yn bresennol yn Nghymdeithasfa y Dyffryn, ac yn dechreu un o'r cyfarfodydd. Clywsom ei fod yn nodedig o siriol yn ei gyfeillach yno. Byddai yn hoff o dalu ymweliad â'i hen ardal, ac o dreulio Sabboth yno yn yr haf bob blwyddyn. Bu yno yr haf diweddaf, pan yr oedd ei ferch, Miss Davies, gydag ef. Yr ydoedd yn ei iechyd a'i sirioldeb arferol nos Sadwrn, Rhagfyr 29ain, a dysgwyliai ei ferch ef i lawr fel arferol at ei foreubryd, rhwng wyth a naw o'r gloch boreu Sabboth. Wedi dysgwyl yn hŵy nag arferol, aed i guro wrth ddrws ei ystafell-wely. Ond trwy nad oedd dim ateb, aed i mewn i'r ystafell, a chafwyd ef yn ei wely—a'i ysbryd bywiog, serchog, cymdeithasgar, wedi ehedeg i fyd yr ysbrydoedd, at lu o gyd-ysbrydion hoff, y rhai y bu felus ganddo gydgyfrinachu â hwynt ar y ddaear, a rhodio i dŷ Dduw ynghyd. Nid oedd arwydd o'r ysgogiad lleiaf wedi bod pan y cafwyd ef, y gwrid siriol yn ei wyneb megys cynt—dim ond y peiriant ar unwaith wedi sefyll. Tystiai y meddyg ei fod wedi marw er ys rhai oriau, o glefyd y galon. Yr oedd yn 70 mlwydd oed er mis Hydref. Yr oedd Dr. Davies yn Ymneilldwr cyson ac yn Rhyddfrydwr trwyadl. Claddwyd ef y dydd Iau canlynol yn mynwent hynafol Llanbeblig, o dan y ddeddf newydd, pryd y gweinyddwyd gan y Parch. Evan Jones, Moriah.

Y PARCH. JOSEPH THOMAS, CARNO.

Anfynych iawn yr ymdaenodd galar mwy dwfn a chyffredinol trwy yr holl Gyfundeb, nag mewn canlyniad i'r newydd am farwolaeth y gweinidog enwog a defnyddiol hwn, yr hyn a gymerodd le am 3 o'r gloch boreu dydd Llun, Ionawr y 14eg. Y mae yn hysbys fod ei iechyd wedi pallu er ys tua thair blynedd. Gostyngwyd ei nerth, ac adfeiliodd yn fawr yn ystod yr amser hwn o ran y dyn oddiallan, yr hwn o'r blaen oedd mor gadarn, prydferth ac urddasol. Nid oedd y blynyddoedd diweddaf ond megys cysgod o'r hyn a arferai fod. Ond cadwai ei feddwl, ei nerth a'i fywiogrwydd arferol; ac elai yn gyson i'w gyhoeddiadau hyd o fewn tua dau fis neu dri cyn ei farwolaeth. Ac hyd yn nod y pryd hwn, wedi ei hollol gaethiwo i'w dŷ—efe, yr hwn a deithiai gymaint trwy y blynyddoedd mewn ufudd-dod i alwadau taerion, i ŵyliau ac uchelwyliau ymhob parth o Gymru a threfi Lloegr, er llawenydd mawr i bob man lle yr elai—yn awr wedi ei lwyr attal oddiwrth hoff-waith ei fywyd, y gwaith er mwyn yr hwn yr oedd yn byw, ac yn yr hwn yr oedd bywyd ei ysbryd—ond er y cwbl, parhâi yn siriol a chalonog, ac i raddau yn obeithiol am adferiad, hyd y diwedd. Hoffai yn fawr weled ei gyfeilliion, ond dywedai wrthynt mai gwaith *anhawdd* oedd ymostwng. Gwanhaodd yn raddol, a bu farw mewn tangnefedd heb unrhyw gyfnewidiad neilldnol.

O! ein brawd a'n tad, cu iawn oeddit gan filoedd Methodistiaid Cymru! Yr oedd *pawb* yn ei hoffi, ac yn ei anwylo. Efe oedd *anwylddyn* y cynnulleidfaoedd—pawb yn ei fwynhau, pawb yn ei edmygu—gwreng a boneddig, y rhai mwyaf coethedig a'r rhai mwyaf diddysg, saint a phechaduriaid. Sychedai y cynnulleidfaoedd am ei weinidogaeth fel am y cynnar-wlaw; a disgynai ei weinidogaeth ar y cynnulleidfaoedd gydag eneiniad hyfryd, gyda naws nefol a thyner, fel gwlithwlaw ar îrwellt ac fel cawodydd yn dyfrhau y ddaear. Rhoddai arbenigrwydd neillduol yn ei weinidogaeth i wirioneddau neilldnol yr Efengyl, y gwirioneddau sydd yn achub ac yn

sancteiddio; a chyflwynai y gwirioneddau hyn i'r tyrfaoedd, gan eu hegluro, eu haddurno a'u cymhwyso â'r cymhariaethau mwyaf newydd a tharawiadol, o'r hanesyddiaeth ysgrythyrol, o natur a bywyd cyffredin, nes tynu sylw pawb, eu hoelio a'u sicrhau yn y côf, yr hyn oedd hefyd yn gymhorth mawr i'w gyru i'r gydwybod a'r galon. Diau ei fod yn un o'r pregethwyr mwyaf *defnyddiol* a welodd ein Cyfundeb erioed.

Yr oedd hefyd yn un o'r dynion *callaf* ac yn un o'r dynion mwyaf *sylwgar* a adwaenasom erioed. A chyda hyn, yr oedd ynddo wythïen gyfoethog o *humour* ac arabedd. Darllenai *ddynion* fel llyfrau. Gwelai i *mewn* i gymeriad ac i wirionedd. Cymerai afael yn nghalon y peth neu y person. Parai hyn fod ganddo allu *to hit off* (fel y dywed y Sais) neillduolion cymeriad mewn gair neu frawddeg, gyda'r fath gywirdeb ac mewn dull mor ddigrifol, fel yr oedd yn anmhosibl byth eu hanghofio, ac yn anmhosibl eu cofio heb wên a mwynhad. Fel y mae llaw-feddyg *(surgeon)* medrus iawn yn ymhyfrydu mewn gwneyd *operations* anhawdd, felly yr oedd yntau mor alluog i feirniadu cymeriad, nes yr oedd yn ymhoffi yn y gwaith. Ni ddiangai neb rhag ei feirniadaeth. Ond nid oedd yr un gronyn o falais na drwgdeimlad yn y cwbl. Cyfunai gallineb y sarph a diniweidrwydd y golomen. Ond rhaid ymattal ar hyn o bryd. Dysgwyliwn gael Erthygl neu ddwy cyn hir gan ryw frawd oedd yn ei adnabod yn well ac yn gallu ei ddarluno yn well na ni.

Yr oedd difrifwch ac urddas, hiraeth a galar, yn nodweddu gwasanaeth y claddedigaeth; ac hefyd, ambell *wên* nas gallesid ei hattal, wrth deimlo fel yr oedd ambell *stroke* yn rhai o'r Anerchiadau yn portreadu y gwrthddrych mor fyw o flaen ein llygaid! Cymerodd y claddedigaeth le ddydd Gwener, Ionawr y 18fed, pan yr oedd lliaws o weinidogion, blaenoriaid, a chyfeillion yr ymadawedig wedi dyfod ynghyd i dalu y gymwynas olaf i weddillion un a berchid ac a gerid mor fawr. Cyfarfuwyd yn y capel tuag un o'r gloch. Dechreuwyd y cyfarfod trwy roddi pennill allan—"O Angeu, pa le mae dy golyn?" &c.,—darllen cyfran o'r Gair, a gweddïo, gan y Parch. John Prichard, Birmingham. Llywyddid gan y Parch. D. Ll. Jones, M.A., Llundain. Anerchwyd y gynnulleidfa gan y Parchn. Robert Roberts, Dolgellau; G. Parry, D.D., Aberystwyth; N. Cynhafal Jones, Llanidloes; E. Jones, Trewythen; a Principal Edwards, D.D., Aberystwyth. Diweddwyd trwy weddi gan y Parch. J. H. Symonds, Tywyn. Wrth y bedd, darllenwyd cyfran o'r Gair gan y Parch. Owen Jones, B.A., Liverpool. Anerchwyd y dorf gan y Parch. Evan Roberts, Dyffryn. Gweddïwyd gan y Parch. J. Hughes, M.A., Machynlleth. Yn yr hwyr, traddodwyd Pregeth Angladdol yn y capel gan y Parch. D. Saunders, D.D., Abertawe.

Nodiadau Misol.

Y PARCH. JOHN MC-NEILL.

Penderfynodd Henaduriaeth Eglwys Rydd Edinburgh, ar ol peth ymdrafodaeth, adael yr alwad i Eglwys Regent Square, Llundain, yn nwyiaw y Parch. John Mc-Neill. Y mae yntau yn awr wedi penderfynu derbyn yr alwad. Gobeithiwn y bydd i'w weinidogaeth droi allan yn allu mawr er daioni yn Llundain, megys y mae wedi bod yn Edinburgh.

Y PARCH. C. H. SPURGEON.

Gofidus yw clywed fod y gweinidog enwog hwn wedi cyfarfod â damwain ddydd Sabboth, Rhagfyr 30ain, trwy gwympo i lawr amryw o risiau marmor yn y gwestŷ lle y llettŷai yn Mentone, lle yr oedd wedi myned er ys rhai wythnosau am seibiant ac adferiad iechyd. Credir nad yw y niweidiau a dderbyniodd yn bwysig, ond bydd iddynt o anghenrheidrwydd dafiu ei adferiad yn ol am amser. Hyderwn y bydd i'w fywyd gwerthfawr gael ei arbed, ac y bydd iddo gymeryd ysbaid digon hir o orphwysdra oddiwrth ei lafur caled i ennill ystôr newydd o rym ac yni.

CYMDEITHAS GENADOL LLUNDAIN.

Y mae Cyfarwyddwyr y Gymdeithas hon wedi penderfynu derbyn gwasanaeth gwŷr ieuainc o gymeriad Cristionogol da, ac wedi cael mesur da o addysg gyffredinol, ond heb fyned drwy gŵrs o addysg dduwinyddol mewn athrofa, eithr wedi bod yn weithwyr Cristionogol llwyddiannus, i waith y Genadaeth fel gweithwyr llëygol, am nifer penodol o flynyddoedd.

DR. MACLAREN.

Y MAE y pregethwr enwog hwn yn mwynhau iechyd rhagorol, er ei fod wedi teimlo effeithiau y gwres, a'i ymweliad âg Awstralia wedi troi allan yn dra llwyddiannus. Y mae yn llafurio yn galed; yn pregethu i dyrfäoedd mawrion, cannoedd yn fynych yn gorfod troi yn ol yn methu myned i mewn i'r capelau. Perswadiodd ei gyfeillion ef i roddi heibio ei fwriad o ymweled â'r India. Yn lle hyny, y mae ar fin, os nad eisoes wedi hwylio am New Zealand.

Y LLAWLYFR WESLEYAIDD.

CWYNIR fod Dr. Gregory, Golygydd Cyfundeb y Wesleyaid wedi dwyn allan y *Wesleyan Handbook*, cyn i'r Gynnadledd gael cyfle i roddi ei chymeradwyaeth iddo. Dywedir y gesyd i lawr ynddo syniadau eithafol am uwchafiaeth ac awdurdod y gweinidogion; ac y dengys ddiffyg mawr o ysbryd rhyddfrydig, nid yn unig tuag at gyfundebau eraill, ond tuag at ganghenau eraill o'r cyff Wesleyaidd. Y mae yn debyg y pâr y llyfr dramgwydd mawr i'r blaid gynnyddol o weinidogion ieuainc yn y Cyfundeb, sydd yn ceisio dwyn i mewn ysbryd mwy rhyddfrydig i drefniadau y Cyfundeb Wesleyaidd.

Y DIFFYG AR YR HAUL.

CYMERODD dygwyddiad le ar ddydd Calan o bwys neillduol yn ngolwg seryddwyr trwy y byd—diffyg hollol ar yr haul. Yr oedd yn weledig yn California a rhanau eraill o Unol Daleithiau America. Ystyrir fod diffyg hollol yn ddygwyddiad o'r pwys a'r dyddordeb mwyaf. Nid yw yn cymeryd lle ond anfynych; a gall na bydd yn weledig o ryw wlad neu fan neillduol am lawer iawn o flynyddoedd. Ac nid yw yn parhâu ond am ychydig iawn o amser—wyth mynyd ar yr hwyaf, a dim ond dau neu dri mynyd yn gyffredin. Y mae yn fawreddus fel ymddangosiad naturiol. Ond y pwys mawr sydd iddo ydyw y cyfleusdra a ddyry i chwanegu ein gwybodaeth am rai o'r cwestiynau o barth i'r haul sydd yn aros hyd yma yn ddirgelwch. Gwneir parotoadau costus mewn gwahanol wledydd i fyned i'w weled i'r lleoedd y mae yn weledig o honynt. Defnyddir gwahanol offerynau—*telescopes*, *spectroscopes*, a'r *photographic camera* i sicrhâu darluniau o'r olygfa. Tra y mae y lleuad yn myned rhyngom a'r haul (yr hyn a achosa y diffyg) ymddengys yr haul yn belen ddu; o gwmpas ei ymyl y mae goleuni rhuddgoch, ac adlewyrchiad hwn a wna waelod i'r darlun o wynder arianaidd. Dyma lewyrch yr hyn a elwir *corona* yr haul. Er ymchwiliadau dyfal, erys ei natur yn ddirgelwch.

Bwrdd y Golygydd.

DERBYNIASOM ysgrif oddiwrth flaenor parchus yn rhoddi amryw gynghorion i bregethwyr. Drwg genym nas gallwn roddi yr oll o honi i mewn, ond ceisiwn roddi ei phrif gynnwys.

CYNGHORION I BREGETHWYR.

GAN FLAENOR.

1. *Peidiwch gwaeddi.* Y mae llawer o bregethwyr yn gwaeddi, yn curo eu traed, yn ysgrechian uwch ben eu cynnulleidfaoedd, fel pe byddent yn haid o ddylion. Gwneir i ddyn deimlo weithiau fel pe byddai yn nghanol trwst gweithfa haiarn *(foundry)*, gan fel y mae y pregethwr yn dyrnodio y Bibl, yn enwedig Matthew, Marc, Luc a Ioan, y rhai na wnaethant unrhyw niwed iddo erioed. Dylai pregethwyr gofio fod Biblau yn costio arian. Gwelir weithiau ddalenau yn chwyfio yn yr awyr o'r pulpud, fel canlyniad i'r arferiad ddiweddar ynfyd hon, yr hon sydd yn ymddangos yn myned ar gynnydd. Y llef ddystaw fain o ymresymu sydd yn argyhoeddi ac yn dychwelyd, nid y rhuad a'r trwst annymunol. Dyfetha hyn y daioni a wneir yn gyffredin yn ystod yr ugain mynyd neu yr hanner awr cyntaf. Ond y ffaith fwyaf pwysig yw, mai anfynych y mae y pregethwyr trystfawr yn foddion i chwanegu at rifedi ein heglwysi. Dyma, yn ddiddadl, yw barn blaenoriaid, sydd yn edrych ar yr hyn sydd yn myned ymlaen. Dywedwch i mi pwy yw y pregethwyr a wnant fwyaf o drwst pan yn pregethu, anturiaf finnau ddyweyd mai peth hynod o anfynych yw i'r rhai sydd yn cael eu chwanegu at yr eglwysi, gyfeirio at unrhyw eiriau na llefain wedi disgyn i'w meddyliau trwy weinidogion trystfawr. "Byddwch naturiol" yw y cynghor a roddir yn fynych gan bregethwyr hen a thrystfawr i'r rhai ieuainc. Yr wyf finnau yn naturiol wrth wneyd fy ngwrthdystiad yn erbyn cael gwaeddi a llefain wrthyf fel, pe na byddai genyf ewynau i'w haunmharu. Mor fynych yr ydym yn clywed rhai yn dyweyd ar ein ffordd adref o'r capel, "Onid yw yn resyn fod y pregethwr yn gwneyd cymaint o drwst?" Dyma yr argraff fywiol ddiweddaf sydd yn cael ei chario adref, yn lle gwirioneddau efengylaidd, bywiol a

phwysig. Y mae y pregethau yn fynych yn gyfansoddiadau ysbrydnydd, ac y mae yn resyn eu bod yn cael eu dyfetha yn y traddodiad. Ychydig ddyddiau yn ol, dywedai boneddiges barchus, ac wedi cael addysg dda, wrthyf—"Y fath bregethwr gwael yw Mr. ——, ac y mae y traddodiad o'i bregethau yn druenus!" Synai y pregethwr hwnw yn aruthr pe gwelai ei enw yn yr ysgrif hon, ac yn enwedig pe gwelai enw y foneddiges. Cyfeirio yr oedd hi at un o feibion y daran. Y mae yn llawn bryd i athraw mewn traddodiad neu areithyddiaeth gael ei benodi, fel arweinydd i'n pregethwyr ieuainc, ac i wrthweithio yr esiampl ddrwg a osodir o'u blaen gan liaws o'n hen bregethwyr trystfawr a pharchus. Y mae lliaws yn ein cynnulleidfaoedd mor wybodus mewn duwinyddiaeth ac athrawiaethau a'r pregethwyr. Gan bwy eu haddysgwyd? Ai gan y pregethwyr trystfawr? Dim o'r fath beth. Yr Ysgrythyrau, llyfrau, a'r Ysgolion Sabbothol yw ffynnonellau eu gwybodaeth; nid ysgrechiadau gwyllt a bloeddiadau, a churo o bwlpudau.

2. *Peidiwch ysmocio.* Y mae hon yn arferiad isel, ffiaidd. Ac heblaw hyny, y mae ysmocio annghymedrol yn hollol fel yfed diodydd alcoholaidd yn annghymedrol, yn tueddu yn gryf i niweidio cyfansoddiad ein pregethwyr ieuainc gweiniaid. Y mae hyd yn nod blant yn cymeryd at yr arferiad hon, am eu bod yn gweled eu rhieni, a phregethwyr, a dynion ieuainc â phibelli yn eu genau, yn bwrw allan fwg fel ager-beiriannau. Pa fodd y gall pregethwyr roddi cynghorion ar y mater hwn, pan y maent wedi ymroddi cymaint i'r arferiad eu hunain? Dywedir fod cymeriad dyn yn cael ei ffurfio iddo, nid ganddo. Y mae llawer o wirioned yn hyny. A rhaid i'r ffurfiad ddechreu pan y bydd y planhigyn nen y gangen yn ieuanc. Gellir ei phlygu y pryd hwnw i unrhyw ffurf braidd. Oni b'ai esiampl ddrwg, buasai llawer o'n gwŷr ieuainc heddyw heb fod yn ysmocwyr, er eu mawr fantais mewn arian ac iechyd. Gwnaeth ein *Bands of Hope* en hôl yn fawr ar gwestiwn yr yfed. Y rhai a wyddent beth oedd cael y *blues* ydynt yn awr yn chwyfio y faner las. Beth pe gellid rhoddi symudiad ar droed gan y rhai sydd yn llosgi y llysieuyn *brown*, fel y gellid adnabod dychweledigion yn y dyfodol trwy iddynt chwyfio y *brown flag?* Byddai y rhai a garient y banerau glas a *brown* yn ddynion cryfion, am y gallent ymffrostio mewn dau rinwedd yn lle un.

Derbyniwyd i gyllid y llywodraeth yn y flwyddyn 1887—8 oddiwrth y tollau ar fyglys a thrwyddedau dros £9,000,000, yr hyn sydd gyfartal âg *income tax* o 2½c. y bunt. Ac yr oedd y derbyniadau oddiwrth y tollau ar ddiodydd meddwol a thrwyddedau yn ystod yr un amser yn £29,757,183.

3. *Peidiwch tori eich cyhoeddiadau.* Y mae lliaws o bregethwyr yn arfer tori eu cyhoeddiadau, yr hyn sydd yn ychwanegu yn fawr at waith diaconiaid. A'r boneddigion hyny ag y mae mwyaf o alw am danynt yw y rhai mwyaf euog o'r *pechod* hwn. Prin y gellir ei hystyried yn weithred foesol i fod yn arfer tori addewidion wedi eu rhoddi yn bwyllog a'u cofnodi mewn llyfr. Beth pe byddai dynion mewn masnach yn euog o'r fath arferiad—beth a feddylid am danynt? Yr wyf yn gobeithio gweled diwygiad yn y cyfeiriad hwn, fel y byddo gwaith diaconiaid yn cael ei wneyd ychydig yn ysgafnach yn y dyfodol.

4. *Peidiwch pregethu yn faith.* Fel rheol, y mae ein cyfarfodydd yn rhy faith o lawer. Dylai y cynnulleidfaoedd fod ar eu ffordd adref o fewn yr awr a hanner. A gellir gwneyd hyn yn hawdd, trwy adael allan lawer iawn o ail-adroddiadau yn y pregethau. Heb yr ail-adroddiadau, byddai y pregethau yn llawer cryfach ac yn fwy derbyniol. Pâr yr ail-adroddiadau niwed a diflasdod i'r rhanau da o'r bregeth.

Gobeithiaf y cymerir yr awgrymiadau hyn yn yr un ysbryd caredig ag y mae cynghorion i flaenoriaid yn cael eu rhoddi. Os gwneir hyny, bydd yn ddiau symudiad ymlaen yn y dyfodol er daioni ymhlith ein pregethwyr a'n blaenoriaid.

Byrnodion Amrywiaethol.

Cyfrifir fod tri chan' mil o filldiroedd o reilffyrdd yn y byd, o ba rai y mae y llawn hanner yn America.

Treulir 170 miliwn o alwyni o ddwfr yn Llundain bob dydd.

Dengys y cyfrifiad canlynol y swm anferth o arian a werir yn y deyrnas hon mewn blwyddyn am ddiodydd meddwol:—Pe rhoddid y swm i ddyn mewn punnoedd, gallai gerdded o amgylch y belen ddaearol ar hyd llinell y cyhydedd, neu ganol y ddaear, lle y mae ei hamgylchedd yn mesur fwyaf, a gollwng i lawr *dair punt yn mhob cam* o'r ffordd, a byddai ganddo weddill yn niwedd y daith heb ei dreulio!

Y mae John Ruskin wedi ysgrifenu 64 o lyfrau. Derbynia oddiwrthynt gan ei gyhoeddwr £4000 yn flynyddol. Y mae yn hynod am godi yn foreu. Dywedir ei fod wedi ysgrifenu y rhan fwyaf o honynt wrth oleuni canwyllau cyn dydd.

Y mae chwarter miliwn o ferched sengl yn gweithio yn Llundain, y rhai y mae eu hennillion ar gyfartaledd yn ddim mwy na swllt y dydd.

Y nifer o Babau sydd wedi bod yn Rhufain o'r dechreuad yw 253.

Gellir yn awr roddi swm mor fychan a swllt trwy y Banciau Cynnilo mewn *Government Consols.*

Derbyniwyd i gyllid y Llywodraeth filiwn a hanner o bunnau yn Lloegr y flwyddyn ddiweddaf, am drwyddedau i werthu cwrw *(beer licenses).*

Y mae pedair mil ar ddeg o bobl yn Llundain yn byw trwy waith llenyddol, neu ysgrifenu i'r wasg.

Tybir mai Japan yw y wlad rataf i fyw ynddi yn y byd. Nid yw traul ymborth cyffredin am flwyddyn ond llai na thair punt. Ac y mae gwerth pum' swllt ar hugain o ddillad cyffredin yn ddigon i barhau am lawer o flynyddoedd.

Y cyllid eglwysig mwyaf yn y Deyrnas hon yw yr un a gyfrenir gan gynnulleidfa Dr. Whyte, *Free St. George's*, Edinburgh, sef £10,000 yn y flwyddyn. Y mwyaf yn y byd yw yr eiddo eglwys Dr. Hall, New York, sef yn agos i £30,000 yn flynyddol. Yr oedd derbyniadau eglwys y diweddar Henry Ward Beecher (ei olynydd yw Dr. Lyman Abbott) y flwyddyn ddiweddaf yn £8395. Nifer yr aelodau eglwysig yw 2532.

Cyhoeddwyd yn agos i fil o lyfrau ac argraffiadau newyddion yn y deyrnas hon y flwyddyn ddiweddaf, yn ychwaneg na'r flwyddyn flaenorol: sef 6591 ar gyfer 5686. Ffugchwedlau yw y nifer lïosocaf o'r rhai hyn; ond y mae yn sŷn ac yn werthfawr gweled mai yr *ail* ddosbarth mewn lïosogrwydd yw gweithiau duwinyddol a phregethau.

Y mae dull newydd o gario allan ddedfryd marwolaeth ar ddrwgweithredwyr wedi dyfod i rym trwy gyfraith, yn nhalaeth Caerefrog Newydd *(New York)* gyda dechreu y flwyddyn hon. Defnyddir trydan yn lle crogi. Y dyben mewn golwg oedd cael dull mwy esmwyth i weinyddu y gosb, ac heb fod yn llai yn ei dylanwad i attal y trosedd. Yn lle yr oruchwyliaeth o rwymo breichiau a dwylaw y carcharor cyn ei arwain i'r crogbren, yr hyn a elwir *pinioning*, gosodir y truan dan y dull newydd i eistedd mewn cadair, yr hon a elwir Cadair Marwolaeth *(Death Chair)*. Bydd y dull o farw yn debyg i un yn cael ei ladd ar amrantiad gan fellten. Edrychir gyda dyddordeb mawr pa fodd y gweithia y dull newydd hwn, pan y daw yr anghenrheidrwydd poenus y tro nesaf i weinyddu dedfryd marwolaeth.

Y mae offeryn newydd ac ofnadwy o ryfel eto wedi ei ddyfeisio gan un M. Vaissier, o Nice, ac wedi ei gyflwyno i'r Gweinidog Rhyfel yn Ffrainc—gŵn neu ddryll newydd sydd yn gallu lladd *tair mil* o ddynion mewn *deng mynyd*.

Cofnodau Cymanfaol.

CYMDEITHASFA Y DYFFRYN,

Rhagfyr 11, 12, a'r 13eg, 1888.

Llywydd,—Y Parch. William James, B.A., Manchester.

(Parhâd o tu dal. 33.)

Dydd Mawrth, Rhagfyr 11eg.

Am 6 o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.

XX. *Uniad y Ddwy Athrofa.*—Darllenwyd y ddau benderfyniad dilynol a basiwyd gan Gymdeithasfa Talgarth yn y Deheudir o berthyras i Uniad y Ddwy Athrofa:—

1. *Gwrthod y Cynllun.*—Yn ngwyneb y cenadwriaethau o'r Cyfarfodydd Misol mewn perthynas i'r cynnygion ynghylch Uniad y Ddwy Athrofa, fod y Gymdeithasfa yn dadgan nad yw yn derbyn y cynllun: eithr ar yr un pryd yn diolch i'r Pwyllgor am eu ffyddlondeb a'u llafur, ac yn dymuno ar y Cyfarfodydd Misol i dalu treuliau y rhai fu yn eu cynrychioli yn Nghynnadleddau Llanidloes ac Aberystwyth.—2. *Teimladau Caredigol.*—Ein bod yn mawr lawenhâu yn y teimladau caredigol rhwng y ddwy dalaeth a wnaed yn amlwg yn yr ymdriniaeth ar y mater o uno yr Athrofeydd; ac yn diolch yn gynhes i'n brodyr anwyl yn y Gogledd am yr amlygiadau o'u parodrwydd i gydweithredu i wneuthur yr addysg am y weinidogaeth yn ein plith yn fwy effeithiol.—W. James, *Ysgrifenydd.*

Yn ganlynol cytunwyd ar y penderfyniad hwn:—Ein bod yn cydnabod derbyniad y Genadwri o Gymdeithasfa Talgarth gyda golwg ar gais i uno y ddwy Athrofa; ac yn gymaint a bod ein brodyr yn y Dehau wedi barnu yn ddoeth wrthod y cyfryw gais, ein bod yn dymuno iddynt bob llwyddiant yn eu hymdrech presennol i wneuthur eu Hathrofa eu hunain yn effeithiol i roddi yr addysg oreu a ellir i'r pregethwyr ieuainc; a thra yn cydymdeimlo yn ddwys â hwy yn y golled a gawsant yn marwolaeth y Prifathraw, y Parch. William Howell, ein bod yn eu llongyfarch ar eu llwyddiant i sicrhau olynydd mor alluog iddo a'r Parch. D. Charles Davies, M.A. Ein bod hefyd yn galw Cyfeisteddfod ein Hathrofa ein hunain i ymgynnull mor fuan ag y gellir i wneuthur y trefniadau anghenrheidiol gyda golwg ar yr Athrofa yn y Bala.

XXI. *Y Gronfa Fenthyciol.*—Darllenwyd yr Adroddiad dilynol o weithrediadau y Pwyllgor a benodwyd yn Manchester i ffurfio cynllun gyda golwg ar foddion i ddileu dyledion ein capelau.

Llywydd,—John Lewis, Ysw., U.H.—Ymgyfarfu y Pwyllgor yn *Vestry* Capel y Methodistiaid Calfinaidd, St. John Street, Caer, ar ddydd Mercher, Hydref 24, 1888, pryd yr oedd yn bresennol Meistri John Roberts, Colwyn Bay; Owen Lloyd, Corwen; John Parry Jones, Blaenau Ffestiniog; Evan Thomas, Birmingham; Edward Jones, B.A., Liverpool; David Evans, Cemmaes; Thomas Rowlands, Drefnewydd; John Lewis, U.H., Liverpool; John Davies, Broughton. Absennol: Meistri Samuel Hughes, Bodedrnyfed; Robert Rowland, U.H,. Pwllheli; John Price, Bangor; Ezra Roberts, Ruthin; William Jones, Wrexham. Penderfynwyd,—1. Fod Cronfa i'w ffurfio, er mwyn rhoddi benthyg arian yn ddïlôg ar Gapelau, ac i'w galw Cronfa Fenthyciol (*Loan Fund*) y Methodistiaid Calfinaidd, mewn cysylltiad â Chymdeithasfa y

Gogledd.—2. Ffurfir y Gronfa, (*a*) trwy gyfroddion; (*b*) trwy gymunroddion; (*c*) trwy gael benthyg arian yn ddilog; (*d*) trwy gasgliadau cynnulleidfaol, neu foddion eraill.—3. Fod y Gronfa i fod dan arolygiaeth Cyfeisteddfod, cynnwysedig o weinidog a blaenor o bob Cyfarfod Misol a Henaduriaeth, y rhai a benodir am dair blynedd, un rhan o dair i fyned allan bob blwyddyn; ynghyd a phedwar o Ymddiriedolwyr, Trysorydd, ac Ysgrifenydd.—4. Fod i bob cais am fenthyg arian ddyfod trwy y Cyfarfod Misol neu yr Henaduriaeth.—5. Na fyddo gan unrhyw Gyfarfod Misol neu Henaduriaeth hawl i anfon unrhyw gais am fenthyg arian at y Cyfeisteddfod, hyd oni fyddo tair rhan o bedair o eglwysi y Cyfarfod Misol neu yr Henaduriaeth wedi cyfranu rhyw gymaint tuag at wneyd y Gronfa.—6. Fod y Cyfarfod Misol neu yr Henaduriaeth i fod yn gyfrifol am yr arian a fenthycir i'r eglwysi, a'u bod yn cael eu had-dalu yn rheolaidd bob blwyddyn,—7. Na fyddo yr un eglwys ar dir i dderbyn o'r Gronfa, os na bydd eisoes wedi talu am un rhan o bedair o werth yr eiddo.—8. Fod yr arian a fenthycir iwyd i'w talu yn ol i'r Gymdeithasfa yn ol deg punt y cant yn flynyddol ar yr holl swm, fel y byddo y cyfan yn dychwelyd yn ol i'r Gronfa mewn deng mlynedd.—9. Fod gan y Cyfeisteddfod hawl i attal swm bychan wrth fenthyca yr arian, i gyfarfod treuliau y Gronfa.—JOHN DAVIES, *Cynnullydd.*

Penderfynwyd fod y cynllun uchod i gael ei gyflwyno i ystyriaeth y Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau, a'u bod i ddwyn llais arno i'r Gymdeithasfa nesaf.

XXII. *Cyfarfod y Pregethwyr.*—Cytunwyd ar y "Parotöad anghenrheidiol i'r pulpud" fel testun Cyfarfod y Pregethwyr bore drannoeth.

XXIII. *Y Genadaeth Dramor.*—Cyflwynwyd y genadwri ddilynol oddiwrth Gyfeisteddfod y Genadaeth Dramor, a phenderfynwyd,—Ein bod yn anfon y genadwri hon yn wresog i sylw ein Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau.

Yr Achos Cenadol.—Yn Nghyfarfod Cyfeisteddfod Gweithiol y Genadaeth Dramor a gynnaliwyd Tachwedd 14eg, 1888, penderfynwyd fod cenadwri yn cael ei hanfon i'r Cymdeithasfaoedd Chwarterol yn y Dehau a'r Gogledd, i ddymuno ar fod annogaeth yn cael ei rhoddi trwy y Cyfarfodydd Misol ar i'r holl Eglwysi wneyd ymdrech egniol i gyfarfod â threuliadau cynnyddol ein Cenadaeth Dramor. Yr oedd y treuliadau y flwyddyn ddiweddaf, ar ol tynu allan y symiau a dderbyniwyd yn India, yn £7520 11s. 5c., tra nad oedd y derbyniadau o bob ffynnonell yn y wlad hon ond £5548 8s. 4½c. Codai yr ychwanegiad yn benaf oddiar fod cynuifer o Genadon newyddion wedi eu hanfon allan y flwyddyn ddiweddaf. Yr oedd anfoniad y cynnorthwywyr ychwanegol hyn yn llwyr anghenrheidiol tuag at ddwyn y gwaith ymlaen i fesur yn effeithiol. Nid yw "yr arian wrth gefn," erbyn hyn, ond prin ddigon i gyfarfod â chostau un flwyddyn; a barna y Cyfeisteddfod yn sicr na byddai yn ddoeth caniatau i'r swm hwn fyned yn llai nag y mae yn bresennol.—JOSIAH THOMAS, *Ysg. y Genadaeth Dramor.*

Hysbyswyd gan y Parch. G. Ellis, M.A., fod Robert Davies, Ysw., U.H., Bodlondeb, ger Bangor, wedi cyflwyno rhodd o £1000 i'r Genadaeth Dramor. Penderfynwyd, gydag unfrydedd a llawenydd, fod diolchgarwch y Gymdeithasfa yn cael ei ddychwelyd i Mr. Davies am ei haelioni.

Awgrymwyd hefyd y priodoldeb o fod pob Cyfarfod Misol yn rhoddi gwahoddiad i ryw frawd i ymweled â'r Cyfarfod, ac i osod yr achos Cenadol yn effeithiol ger bron y Cyfarfod, a cher bron rhai o brif gynnulleidfäoedd y wlad, cyn y gwneler y casgliad bob blwyddyn.

Terfynwyd trwy weddi gan y Parch. Joseph Hillier.

DYDD MERCHER, RHAGFYR 12FED

Am 10 *o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr.* Pwnc:—Parotöad ar gyfer y Pulpud. *Cyfarfod y Blaenoriaid.*

Am 2 *o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.*

Dechreuwyd gan y Parch. Hugh Williams, M.A., Bala.

XXIV. *Hanes yr Achos.*—Rhoddwyd Adroddiad byr a chryno ar sefyllfa yr achos yn ei wedd allanol gan Mr. Thomas Williams, Croesor, ac yn ei wedd ysbrydol gan y Parch. Robert Roberts, Dolgellau

Dadganwyd llawenydd gan y Gymdeithasfa wrth glywed am ansawdd gysurus yr Achos yn y Cyfarfod Misol.

XXV. *Cyfarfodydd Gweddïau dechreu y Flwyddyn.*—Penderfynwyd,—Fod y Gymdeithasfa hon yn galw ar y Cyfarfodydd Misol ac ar yr holl eglwysi i gadw Cyfarfodydd Gweddïau yn ol yr arfer yr wythnos gyntaf o'r flwyddyn, i nesâu yn neilldnol at yr Arglwydd am ymweliad ei Ysbryd â'r eglwysi a'r byd yn gyffredinol, a'n bod yn eu hannog yn arbenig i weddïo dros y Pregethwyr.

XXVI. Darllenwyd a chadarnhäwyd yr Adroddiad dilynol o weithrediadau Cyfeisteddfod y Blaenoriaid:—

Llywydd,—JOHN WILLIAMS, Ysw., Moss Bank, Liverpool,—1. Darllenwyd Cofnodau y Cyfeisteddfod diweddaf, a chadarnhäwyd hwy.—2. Ymofynwyd,—A oedd y gwahanol Gyfarfodydd Misol wedi cael sylw ar y mater a fu yn y Cyfarfod diweddaf. Ychydig oedd wedi gwneyd eisoes, ond yr oedd pawb yn addaw dwyn y mater i sylw, ac annogwyd yr holl Siroedd i roddi ystyriaeth ddyladwy iddo.—3. Cafwyd ymdriniaeth ar y mater penodedig—sef "Y pwysigrwydd o fod yr holl eglwysi, yn enwedig y rhai gwanaf, yn cael gofalaeth gweinidogaethol; a bod y gwahanol Gyfarfodydd Misol yn ymdrechu uno eglwysi â'u gilydd i'r amcan hwn, a hyny heb ymyraeth â'r teithiau Sabbothol. Agorwyd y mater yn rhagorol gan Mr. Lloyd, Corwen, a siaradwyd yn dda gan amryw frodyr, a phenderfynwyd,—Ein bod yn cyflwyno ein diolchgarwch i Mr. Lloyd am ei bapyr rhagorol, yn annog y Cyfarfod Misol i symud ymlaen yn y cyfeiriad hwn, a'n bod yn cael trafodaeth bellach ar y mater hwn yn y Gymdeithasfa nesaf.—4. Galwyd sylw at Gymdeithas Yswiriol y Cyfundeb, gan ddymuno ar y Gymdeithasfa anfon annogaeth eto i'r Cyfarfodydd Misol, a thrwyddynt hwy i'r Eglwysi, ar fod iddynt brysuro i yswirio eu Capelau a'u holl eiddo yn y Gymdeithas hon, gan ei bod yn adeg gyfleus iawn i wneyd hyny ddechreu y flwyddyn newydd.—5. Galwyd sylw at y nifer fawr sydd genym eto yn aros o Gapelau ar bryd-

lesoedd *(leasehold)*, a phenderfynwyd.—Ein bod yn dymuno ar Aelodau y Pwyllgor ar feddiannau y Cyfundeb ofyn i Mri. G. Osborne Morgan, A.S., J Bowen Rowlands, A.S., T. E. Ellis, A.S., a S. Rendell, A.S., ddwyn mesur drwy y Senedd i Gymru, i'n galluogi i gael yr holl Gapelau a'r eiddo perthynol sydd ar brydlesoedd *(leaseholds)*, yn eiddo Rhyddddaliadol *(freehold)*, a hyny mor fuan ag y byddo yn bosibl.—OWEN WILLIAMS, *Ysg.*

XXVII. *Yswiriaeth.*—Galwyd sylw neillduol at Yswiriaeth, ac annogwyd yn wresog a chryf ar fod Swyddogion pob Capel yn yswirio yr eiddo yn y Gymdeithas sydd yn dwyn cysylltiad â nl fe. Cyfundeb. Cyfeiriwyd drachefn at y penderfyniad a basiwyd ar y pwnc hwn yn Nghorwen, ac a gadarnhäwyd yn Manchester eleni.

XXVIII. Darllenwyd yr Adroddiad dilynol o weithrediadau y Pwyllgor Dirwestol:—

Cyfarfu y Cyfeisteddfod mewn cysylltiad â Chymdeithasfa y Dyffryn, pryd yr oedd yn bresennol y Parchn. Daniel Rowlands, M.A., Bangor; Edward Griffiths, Meifod; Hugh Williams, M.A, Bala; J. Eiddon Jones, Llanrug; William Owen, Bodffari; D. Evan Davies, Pwllheli; J. Hillier, Beaumaris; Mri. Robert Rowland, U.H., Pwllheli; David Hughes, Manchester; Edward Hughes, Welshpool; ac Ysgrifenydd y Cyfeisteddfod.

Cadeirydd,—Y Parch. Daniel Rowlands, M.A.—I. Darllenwyd yr Adroddiad canlynol:—Oddiwrth yr adroddiadau a ddaeth i law o'r Siroedd, da genym hysbysu fod arwyddion bywyd yn yr achos Dirwestol. Y mae y pethau canlynol wedi cael sylw lled gyffredinol:—1. *Y Sabboth Dirwestol*, sef y Sabboth olaf o Dachwedd. Dadganai nifer fawr fod yr achos wedi ei ddwyn ger bron ein cynnulleidfäoedd yn yr Ysgolion Sabbothol, ac o'r pulpud y Sabboth hwnw, ac fod lle i gredu y bydd lles mawr yn deilliaw o hyny. Hyderwn y bydd y Sabboth hwn yn cael mwy o sylw yn ein plith o flwyddyn i flwyddyn —2. *Ymdrechion gyda'r Plant.* Cynnelir yn lled gyffredinol gyfarfodydd y *Band of Hope*, a chyfarfodydd Dirwestol gyda'r plant a'r bobl ieuainc. Hyderwn nad yw dystawrwydd rhai Cyfarfodydd Misol yn eu hadroddiad ddim yn brawf nad oes ymdrech yn y cyfeiriad hwn yn cael ei wneyd.—3. Gofelir bron yn yr oll o'r Cyfarfodydd Misol wrth dderbyn swyddogion yn aelodau o hono, i'w hannog i fod yn ddirwestwyr. Y mae lle i gredu fod nifer ein swyddogion sydd yn ddirwestwyr yn cynnyddu. Y mae rhai Cyfarfodydd Misol yn gwneyd ymchwiliadau i nifer y dirwestwyr ymhlith y swyddogion; ond bron bawb yn rhoddi annogaethau cryfion, yn ol penderfyniad y Gymdeithasfa, i bob swyddog eglwysig fod yn barod i hyn cyn y cymer arno swydd yn eglwys Iesu Grist.—4. *Deisebau yn Erbyn y Compensation Clauses.* Gwnaed ymdrechion canmoladwy iawn gan Gyfarfodydd Misol a chynnulleidfäoedd mewn deisebu yn erbyn y *Compensation Clauses.* Y mae yn llawen meddwl am yr oruchafiaeth hon a gafwyd, a bod genym fel cenedl ran mor helaeth yn ei dygiad oddiamgylch. Y mae yr ymdrech wedi deffro llawer ardal, a'r deffröad yn cael ei ddilyn â llwyddiant.—5. *Diddymu Trwyddedau.* Gwneir ymdrechion egnïol mewn rhai rhanau o'r wlad i ddiddymu trwyddedau, trwy ddeisebu yr ynadon i wrthod eu hadnewyddu. Y mae ymdrechion cyfeillion yn Arfon a Meirion wedi eu coroni â llwyddiant.—Awgryma un neu ddau o Gyfarfodydd Misol fod yr achos yn fwy effro yn y trefydd nag yn yr ardaloedd amaethyddol. Gofidus meddwl oddiwrth yr adroddiad a geir o rai manau fod yr arferiad o ranu diod mewn arwerthiadau eto yn codi ei ben—arferiad ag oedd unwaith wedi bron gilio o'r wlad. Gwynir hefyd am lygredigaethau sydd ynglŷn âg arddangosiadau amaethyddol, y rhai a achlysurir mewn rhan gan gyfeddach a meddwdod. Y mae lle cryf i gasglu fod llawer o'r dosbarth amaethyddol yn fraich i gyfeddach y dyddiau hyn. Teimlodd dau neu dri o leoedd yn Nyffryn Clwyd yn helaeth yn ddiweddar o'r ysbrydiaeth ddirwestol, lluaws o bobl ieuainc wedi ymgysylltu â'r achos, a hyny wedi bod yn adfywiad i grefydd, ac amryw yn y canlyniad wedi ymuno â'r eglwysi. Parhâ Dwyrain Meirionydd i ymdrechu sefydlu Cymdeithasau Dirwestol ar hyd y wlad. Y mae amryw o wŷr blaenllaw mewn rhai manau, nad oeddynt o'r blaen wedi arwyddo yr ardystiad Dirwestol, wedi gwneyd hyny yn awr, ac yn rhoddi eu holl ddylanwad o blaid yr achos. Yr oedd yn dda genym ddeall o Sir Fflint fod effeithiau daionus yn dilyn y Gymanfa Ddirwestol a gynnaliwyd yn Llangollen, ac yn enwedig glywed am yr effeithiau sydd yn parhau i ddilyn yr ymdrech a ddechreuwyd yn Mhwllheli flwyddyn a chwarter yn ol, ag sydd wedi ymledu dros ranau helaeth o'r wlad. Y mae ar lyfr y fyddin Ddirwestol tua 1300 o enwau, a channoedd wedi ymuno dros yr holl wlad.

II. Penderfynwyd ein bod yn anfon Deiseb i'r Senedd dros y Mesur i gau y tafarnau ar y Sabboth yn yr holl deyrnas, yr hwn sydd i ddyfod ger bron nos Wener nesaf, a bod y ddeiseb i'w hanfon i ofal Mr. T. E. Ellis, A.S, i'w chyflwyno.

III. Ein bod yn dymuno ar i'r Cyfarfodydd Misol alw sylw,—1. At y niwed mawr sydd yn tarddu o'r arferiad o ranu diodydd meddwol mewn arwerthiadau. 2. At y dymunoldeb o wneyd pob ymdrech i attal eu gwerthiad mewn Arddangosfeydd Amaethyddol.

IV. Gan ein bod yn deall fod Cymanfa Ddirwestol Gwynedd wedi trefnu i gymeryd llais y bobl ar bwnc y fasnach feddwol, ein bod yn dymuno yn daer ar ein holl aelodau, ac yn arbenig ein swyddogion, i ymgymeryd â chario hyn allan yn drwyadl a chyflawn yn eu gwahanol gymydogaethau, fel y gallo ein seneddwyr ddeall teimlad ein cenedl ar y mater hwn, yn gyffelyb i'r hyn a gafwyd ar gau y tafarnau ar y Sabboth yn Nghymru.

V. Ein bod yn dymuno ar fod y Parch. Hugh Jones, Liverpool, yn traddodi pregeth ar Ddirwest yn Nghymdeithasfa y Gauaf y flwyddyn nesaf, pan y bydd yr achos Dirwestol yn cael ei ddwyn ger bron.—DAVID JONES, *Ysgrifenydd.*

Cadarnhäwyd yr Adroddiad uchod, a chafwyd sylwadau gwresog iawn ar yr Achos gan y Parchn. Daniel Rowlands, M.A., Hugh Williams, M.A., Bala; Griffith Ellis, M.A., Owen Owens, Liverpool; a Samuel Owen, Tanygrisiau.

Rhoddwyd annogaeth daer gan y Gymdeithasfa ar fod y Cyfarfodydd Misol yn galw sylw at benderfyniadau y Pwyllgor Dirwestol yn ddioed.

XXIX. *Cynnygion y Mwyafrif ar Ddirprwyaeth Addysg.*—Penderfynwyd, Fod y Gymdeithasfa hon, cynnwysedig o weinidogion a blaenoriaid y Methodistiaid Calfinaidd yn Ngogledd Cymru a'r Trefi Seisonig cyfagos, tra yn llawenhâu o herwydd yr awgrymiadau ffafriol i hyrwyddiad Addysg a geir yn Adroddiad y Ddirprwyaeth Frenhinol sydd yn ddiweddar wedi bod yn eistedd ar yr achos, ac yn enwedig o herwydd yr argy-

mhelliadau rhesymol a wnaethant gyda golwg ar amgylchiadau neilldnol Cymru, etc yn edrych gyda dwfn anghymeradwyaeth ar amryw o'r pethau a gynnygir yn Adroddiad y Mwyafrif. Creda na ddylid rhoddi dim ychwaneg o'r cyllid cyhoeddus at gynnaliaeth ysgolion enwadol, heb roddi i gynnrychiolwyr y trethdalwyr lais yn eu llywodraethiad; ac y byddai yn annoddefol dinystrio y dealltwriaeth y daethpwyd iddo yn 1870, er mwyn rhoddi mwy o allu i weinyddiad addysg sectol, tra y mae y dealltwriaeth hwnw, fel y mae wedi profi trwy y blynyddoedd, mor orthrymus i Gymru. Creda y Gymdeithasfa hefyd y dylid gosod yr holl deyrnas mor fuan ag y bo modd dan Fyrddau Ysgol, a lle na aller cael ond un ysgol effeithiol i gymydogaeth, y dylai hono fod yn anenwadol, a than lywodraethiad cynnrychiolwyr y bobl; ac ymhellach, y dylai y Colegau Athrawol, a gynnelir i'r fath raddau helaeth âg arian y wladwriaeth, fod yn agored i ymgeiswyr cymeradwy heb fod unrhyw wahaniaeth yn cael ei wneyd rhyngddynt ar dir enwadol. Teimla y Gymdeithasfa hefyd yn dra diolchgar i'r Heiafrif ar y Ddirprwyaeth—ymysg pa rai y gwnaed y fath wasanaeth gwerthfawr gan ein diweddar gydwladwr teilwng, Mr. Henry Richard—am yr Adroddiad rhagorol a wnaethant, a hydera nad ydyw yr amser ymhell pan fydd eu hawgrymiadau gwerthfawr wedi eu corffori yn ein cyfundrefn addysgawl.

XXX. *Cyhoeddiadau Cyfundebol.*—Anogwyd i ffyddlondeb i ledaenu a darllen ein Cyhoeddiadau Cyfundebol. Gwnaed sylw cymeradwyol iawn i lyfr y Parch. John Hughes, M.A., Machynlleth, ar *The Sabbatical Rest of God and Man*. Cynghorwyd i dderbyn a darllen y llyfr yn helaeth, fel un gwir deilwng. Rhoddwyd hefyd gefnogaeth i'r *Traethodydd*, *Y Llusern*, *Y Lladmerydd*, a'r *Frythones*.

XXXI. *Brodyr Ymadawedig.*—Gwnaed sylwadau coffadwriaethol am y diweddar Barch. Morris Owen Jones, Porthaethwy, a phenderfynwyd fod cydymdeimlad a chofion y Gymdeithasfa yn cael eu hanfon at ei dad, ei weddw a'i frawd.

XXXII. *Cydymdeimlad.*—Galwyd sylw at afiechyd ein hanwyl gyfaill a thad, y Parch. Joseph Thomas, Carno, yn ei waeledd presennol, a phasiwyd y penderfyniad dilynol, Ein bod fel Cymdeithasfa, ar ol clywed am waeledd ein hanwyl frawd, y Parchedig Joseph Thomas, yn dadgan ein cydymdeimlad dyfnaf âg ef yn ei gystudd, a'n gobaith y bydd i'r Arglwydd roddi iddo adferiad buan i ddyfod eto i'n mysg, ac i lafurio am flynyddoedd yn ychwaneg yn ei winllan. Annogwyd hefyd ar fod cyfeillion yn talu ymweliad âg ef, pan fyddo yn gyfleus iddynt.

Terfynwyd trwy weddi gan y Llywydd.

DYDD IAU, RHAGFYR 13EG.

Am 8 30 o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.

Dechreuwyd gan y Parch. Dr. Davies, Caernarfon.

XXXII. *Cydymdeimlad.*—Galwyd sylw at afiechyd trwm y Parch. David Davies, Henllan. Penderfynwyd fod cydymdeimlad y Gymdeithasfa yn cael ei ddadgan tuag ato ef a'i deulu.—Penderfynwyd hefyd fod cydymdeimlad y Gymdeithasfa yn cael ei ddangos tuag at y Parch. William Davies, Llanegryn, ar farwolaeth ei anwyl briod ar ol cystudd maith iawn a thrwm.

XXXIII. *Pwnc.*—Cafwyd ymdriniaeth ragorol ar y mater gosodedig, sef Rhagluniaeth Duw.

R. H. MORGAN, *Ysgrifenydd.*

Bywgraffiaeth.

MR. OWEN JONES, JERUSALEM.

Gan y Parch. THOMAS ROBERTS, *Bethesda.*

RHAN I.

BWRIEDIR yr ysgrif hon er coffa anmherffaith am frawd anwyl, a blaenor ffyddlawn yn eglwys Iesu Grist. Dylasai fod wedi ei hysgrifenu yn gynt. Pam na wnaed hyny, nid yw o nemawr fudd bellach geisio ymofyn. Gwell, modd bynag, yw i'r peth gael ei wneyd yn awr na'i adael heb ei wneuthur. Prin y mae eisieu dyweyd dim er cyfiawnhau ymgais o'r fath yma. Rhag ofn bod, fe ellid crybwyll mai nid blaenor yn unig oedd Owen Jones, ond blaenor lled anghyffredin. Nid oes odid Gyfundeb o Gristionogion sydd fwy dyledus i ddosbarth o swyddogion eglwysig nag yw y Methodistiaid i'w blaenoriaid. Ond y mae graddau, ysgatfydd, yn eu mysg hwythau; ac am Owen Jones, sior yw iddo yn y rhan hon, "ennill" iddo ei hun "radd dda," ac ni raid petruso ychwanegu, "hyfder mawr yn y ffydd sydd yn Nghrist Iesu." Er prawf, i ryw fesur, o hyn, dichon mai da yn y cychwyn fyddai dodi i mewn yma y dyfyniad a ganlyn. Mae wedi ei gymeryd o bapyr sydd, hyd yma, o leiaf, heb ei argraffu. Papyr yw hwnw a ysgrifenwyd gan un o weinidogion ieuainc Arfon, yr hwn a fagwyd yn eglwys Jerusalem, Bethesda, ac ydoedd yn aelod o'r eglwys hono pan wnaeth efe yr ysgrif y cymerir y dyfyniad o honi. Hanes yr eglwys a'r achos crefyddol yn Jerusalem o'r dechreuad yw yr ysgrif. Ar gais y Cyfarfod Misol y gwnaed hi; ac yr oedd y cyffelyb bapyrau yn cael—neu fe ddylasent fod yn cael—eu hysgrifenu ynglŷn â phob eglwys o fewn cylch y Cyfarfod Misol hwnw. Mae swm y papyr y cyfeirir ato yn awr wedi ei gymeryd o enau swyddogion eglwys Jerusalem, yn enwedig y rhai

F

hynaf, y rhai a gofient hanes a helynt yr achos yn y lle o'r dechreuad. Yn agos i'w ddiwedd, fe ddywedir fel hyn:—

Byddai yn anmhriodol troi oddiwrth hanes yr achos yn Jerusalem heb gyfeirio yn fyr at un blaenor sydd yn awr yn fyw, yr hwn yn sicr sydd wedi bod o wasanaeth arbenig i achos y Gwaredwr yn Jerusalem. Y blaenor hwnw ydyw Mr. Owen Jones, Bryn Salem. Fel y crybwyllwyd o'r blaen, y mae efe wedi bod mewn cysylltiad â'r achos yn Jerusalem o'i gychwyniad.

Efe ac un arall a anfonwyd o'r Carneddi i osod mater y capel newydd o flaen y Parch. John Jones, Talysarn. Ac wedi cael caniatâd gan y Cyfarfod Misol i symud ymlaen, gweithiodd yn hynod o egnïol i ddwyn hyn oddiamgylch. Cymerodd gyfrifoldeb mawr iawn arno ei hun, yn wir bu bron a'i lethu lawer gwaith; llawer noswaith bu yn methu a chysgu gan bwys y baich oedd arno, a'i bryder ynghylch llwyddiant yr achos mawr. Gellir yn briodol iawn ddywedyd ei fod wedi dal pwys y dydd a'r gwres. Bu yr achos i raddau mawr yn gorwedd ar ei ysgwydd ef am lawer o amser, nid yn unig yn ei wedd allanol, ond hefyd yn ei wedd ysbrydol. Gellir yn ddibetrus ddywedyd mai efe oedd y Capten am flynyddau, a thrwy y pwyll, yr arafwch, y doethineb a'r penderfyniad oedd yn ei nodweddu, arweiniodd y llestr yn ddyogel trwy aml i ystorm beryglus. Y mae y rhai fu yn cydweithio âg ef yn ei adeg oreu yn tystio, fod yn anhawdd i'r rhai sydd yn ei adnabod yn gymharol ddiweddar gael syniad am ei werth mawr i achos crefydd yn Jerusalem yn ystod y blynyddoedd cyntaf. Y mae wedi bod yn un o'r rhai medrusaf gyda phethau allanol crefydd; llwyddodd i gadw y llong i nofio yn yr ystyr yna, a hyny yn aml pan oedd y tonau yn curo yn drwm arni. I'w ran ef y bydd y gwaith o osod casgliadau ger bron yr eglwys a'r gynnulleidfa yn disgyn bob amser bron, ac anhawdd yw cael neb all wneyd gwell, os cystal, chwareu teg â'r gwahanol gasgliadau cartrefol a chyfundebol ag Owen Jones. Ond nid i grefydd yn ei gwedd allanol yn unig y mae efe wedi bod yn werthfawr, ond yn gystal a hyny hefyd i grefydd yn ei gwedd ysbrydol. Y mae yn un rhagorol am gadw seiat. Y mae y cymhwysderau gofynol mewn arweinydd seiat da i'w cael ynddo ef. Y mae yn ŵr cadarn yn yr Ysgrythyrau, yn meddu ar brofiad dwfn o bethau crefydd ei hun, ac yn siaradwr da a grymus. Teimlir pan y bydd Owen Jones yn siarad ar unrhyw fater fod gwedd Ysgrythyrol y mater wedi ei feistroli ganddo. Bob tro y cyfyd i fyny i siarad, dengys fod adnodau y Bibl at ei alwad; y maent wedi cymeryd gafael gref ynddo ef ei hun. Amlwg yw eu bod wedi ennyn tân yn ei galon ef ei hun, ac am hyny y mae yn eu llefaru yn gryf a gwresog, fel y maent yn gafael mewn eraill hefyd.

Y mae wedi bod am oes faith yn ffyddlawn iawn yn yr holl dŷ gyda holl ranau y gwaith. Anfynych y gwelir ei le yn wag yn y cyfarfod gweddi, ac aml y clywir ef yn adrodd ei deimlad o'i ofid o herwydd bychander y cyfarfodydd hyn yn fynych. Yr un modd y mae yn ffyddlon gyda'r seiat, a hefyd gyda'r Ysgol Sabbothol. Y mae wedi bod o ddechreuad yr eglwys yn Jerusalem, oddigerth un flwyddyn neu ddwy fe allai, yn arolygwr yr Ysgol Sabbothol.

Llawer yn ychwaneg ellid ddywedyd am dano, ond y mae hyn hwyrach yn ddigon i ddangos ei fod wedi bod am dros ddeugain mlynedd yn ddyn hynod o werthfawr gyda'r achos crefyddol yn Jerusalem yn ei holl ranau.

Mae y geiriau yma yn rhoi amcan go dda, hyd yn nod i'r anghyfarwydd, pam y dylid cadw enw Owen Jones mewn rhyw gof. Maent yn cynnwys tystiolaeth gwŷr a gawsant y fantais oreu i'w adnabod; a'r dystiolaeth hono yn ddiau sydd wir. Cysegrodd ei fywyd i wasanaeth yr Arglwydd Iesu; a rhoes rym ei oes i'r achos crefyddol yn nghapel Jerusalem. I lawr eroedd, nid hawdd oedd ysgar ei enw ef ac enw y capel, oddiwrth eu gilydd. Bryn Salem oedd enw ei breswylfod am flynyddoedd lawer, ac fel un yn byw yno y gelwid ef yn fynych gan ei gydnabod. Mewn lle o'r enw Nant y Tŷ y treuliodd ran o foreu ei oes, ac fe fynai rhai o'r hen frodorion bara i'w alw oddiwrth y fangre hono, fel pe na buasai erioed wedi symud oddiyno. Ond er hyny, gan bawb agos tu allan i Bethesda, a chan nid ychydig tu fewn iddi hefyd, Owen Jones, Jerusalem, oedd ei wir enw ef; ac yn ddiddadl, nid heb achos, ac nid o ddamwain y daeth ei enw ef a'r capel mor anysgaredig.

Ni chafodd ei fagu mewn teulu crefyddol. Tystiolaeth y rhai a'i cofient yw, iddo fyw yn ddichlynaidd o'i febyd; ac fel un o ymarweddiad hawddgar a bucheddol yr adwaenid ef pan yn llanc. Yr oedd iddo air da gan bawb. Mae rhyw dyb iddo feddwi unwaith, a dim ond unwaith. Yr oedd hyny pan ydoedd yn bur ieuanc; ac y mae yn ddigon athrist meddwl pa fodd y dygwyddodd iddo wneuthur hyny. Ei dad, meddir, a aeth âg ef i dafarndŷ Ty'nmaes, ac a roes iddo ddiod, nes, mewn rhan, ei feddwi. Ar ol y tro hwnw, modd bynag, ni chymerodd ddafn o ddiod feddwol byth, ond yn feddyginiaethol. Fe brofodd argraffiadau crefyddol dwysion pan yn llanc pur ieuanc. Yn yr Ysgol Sabbothol y bu hyny. Y moddion trwy ba un y cymerodd le oedd yr hyn y mae rhai pobl ddeallus bellach yn ei alw yn arholi, a'r neb a gyflawnant y gwaith yn arholwyr. Egwyddori, neu gateceisio, neu, o leiaf, holi yr ysgol, y gelwid y peth gan hen bobl dda ydys yn gofio yn bur hiraethus; ac fe allai fod lle i faddeu i ddyn os bydd yn cael ei demtio i dybied y byddai yn llawn cystal cadw at yr hen enwau. Nid ydys yn sicr ai William Jones, Abercaseg, oedd yr holwr ar yr achlysur y sonir yn awr am dano. Braidd na chredwn mai ie. Modd bynag, sicr yw mai trwy y moddion crybwylledig yr ymaflodd ystyriaethau am bethau tragywyddol gyntaf i bwrpas yn meddwl Owen Jones. Clywsom mai cyffelyb i'r eiddo yntau yn y peth hwn oedd hanes ei gyfaill a chydymaith bore oes, ac, am dymmor, ei gydswyddog fel blaenor yn eglwys y Carneddi, y diweddar Barch. David Morris, Cae Athraw. Amser blodeuog oedd yr amser hwnw ar yr egwyddori cyhoeddus yn ardal enedigol Owen Jones. William Jones, Abercaseg, fyddai yr holwr penaf ac amlaf. Mae cof byw iawn am ran o'r cyfnod gan rai sydd yn aros hyd heddyw, er, yn wir, eu bod oll bellach yn prysur ddianc ymaith. Hawdd iawn gan yr ychydig weddill hyn lithro i

son am y bywyd, a'r gwres, yn gystal a'r grym a'r goleuni, a ganlynant y rhai hon yn enwedig o waith yr ysgol. Rhaid eu clywed hwy eu hunain yn adrodd yr hanes er deall eu hiraeth am yr amseroedd hyny, a gweled fel y mae eu henaid yn blysio yr addfed ffrwyth cyntaf. Ar un o'r achlysuron hyny, fe ddaliwyd Owen Jones; ac ar ol ei ddal, a'i ddeffro i bryder am ei iachawdwriaeth, ni chafodd orphwysdra nes ei arwain i roddi ei hunan i'r Arglwydd, ac wedi hyny i'w bobl Ef. Ar dir y Garneddwen, gerllaw y tŷ y ganesid ef ynddo, yr oedd coeden; ac yn ymyl y goeden hono, yr ydoedd llaserch o ddaear a gyfrifid ganddo yn gysegredig iawn hyd y diwedd. Y rheswm am hyny ydoedd, "i rywbeth basio rhyngddo â'r nefoedd yn y fan hono pan yn ieuanc, nad anghofiodd byth mo hono."

Daeth i'r seiat yn un o ddau. Y llall oedd y diweddar Robert Moses, o'r Carneddi, câr a chyfaill i Owen Jones. Ynglŷn â'r amgylchiad hwn, mae haues yn cael ei adrodd am y ddau lanc, i'r perwyl yma; bod y ddau, ychydig cyn hyny, wedi myned i gytundeb o berthynas i'r modd a'r amser y ceisient aelodaeth eglwysig. Gwyddent, bid sicr, eisoes a chynt, am helynt y naill y llall, ynglŷn â hyn; a gwyddent hefyd am y pryder a'r bwriad dystaw o geisio lle yn eglwys Dduw oedd yn meddwl pob un. A'r dealltwriaeth, fe dybygid, oedd, mai gyda eu gilydd, yr un amser, ar noson benodedig a gwybyddus o'r ddeutu, y buasai da ganddynt gario eu bwriad allan. Fe gadwyd y cytundeb hwnw; ac eto, fe'i torwyd hefyd. Oblegid methodd Owen Jones ag aros hyd yr amser terfynedig. Methu hefyd a wnaeth ei gyfaill. Ryw noson, ar ol gofyn, fe gafodd y frawdoliaeth fod Owen Jones wedi aros gyda hwynt, a da iawn oedd ganddynt ei weled. Ond erbyn gwrandaw, fe gafwyd fod Robert Moses yno hefyd; ac yn y ffordd hon fe gafodd y ddau gyfaill eu hunain yn ddiarwybod i'w gilydd wedi d'od ar yr un neges i'r un cyfarfod eglwysig. Yr oedd hyn ar y nos Sabboth olaf, neu ar noson yn yr wythnos olaf ag y bu y frawdoliaeth yn addoli yn hen gapel y Rachub cyn symud i'r Carneddi. Dyma ddechreuad proffes Owen Jones o grefydd yr Arglwydd Iesu, a dilys yw mai proffes dda iawn a fu yr eiddo ef hyd y diwedd. Yr oedd y cychwyn hwn yn ddechreuad oes go faith, llafur nid ychydig, a defnyddioldeb mawr.

Mae yn iawn dyweyd ychydig eiriau am flynyddoedd cyntaf ei lafur; nid yn unig o herwydd y llafur hwnw ei hunan, ond am mai dyma y pryd y gosododd i lawr sail ei ddefnyddioldeb mewn amseroedd mwy diweddar. Ei faes, yr adeg hono, ydoedd yr Ysgol Sabbothol. Gweithiodd yn galed a ffyddlawn gyda hon, gartref ac oddicartref, gan deithio i bell ac agos er cynnorthwyo ynddi. Am flynyddoedd elai i Grymlyn, ardal islaw Llanllechid, ac hefyd i Aber—pellder o filldiroedd rai—er helpu yr ychydig oedd yno yn ceisio cadw Ysgol Sul. Byddai ei deithiau achlysurol yn llawer pellach na hyny. Ai weithiau dros y mynydd i Lanberis i gynnorthwyo gyda'r Ysgol. Ei gymdeithion ar rai o'r prydiau hyny fyddai William Jones, Abercaseg, ac eraill o dadau llafurus yr oes hono. Cyfranogodd yntau i gryn fesur o'r hyn oedd oreu yn ysbryd y tadau. Ni chollodd chwaith mo'r ysbryd hwnw ar ol eu colli hwy, er iddo ennill pethau eraill ato pan y tyfodd ei ddeall a'i brofiad i fwy o addfedrwydd. Arferai ddwyn tystiolaeth iddo dderbyn nid ychydig o hyfforddiant ac adeiladaeth trwy gymdeithas a chynghor hen frodyr gwych yr oes o'r blaen, wrth dramwy gyda hwy ar y negeseuau yr ydys wedi cyfeirio atynt. Ond nid mewn teithiau oddicartref yr oedd ei lafur penaf yn y rhan hon yn gynnwysedig. Darllenodd, chwiliodd, a meddyliodd lawer; a thrwy hyn, a chymhwysderau eraill, daeth yn athraw rhagorol yn ei ysgol gartref. Mae eto yn aros ambell i hen ddysgybl ag y rhoes Owen Jones iddynt y cychwyn cyntaf. "Mae genyf barch i'w lwch," ebai blaenor oedranus yn ddiweddar, wrth ymddyddan am dano—"efe a'm dysgodd I i ddarllen." Ac y mae lle i ddirnad bod golwg uchel arno y pryd hwnw fel gŵr cymhwys nid yn unig i ddysgu dynion i ddarllen, ond hefyd i'w dwyn i ddeall yr hyn a ddarllenent. Dyma fel yr ysgrifena yr henadur parchedig, Mr. Richard Lloyd, Douglas Hill, am dano:—

"Fel athraw yn yr Ysgol Sabbothol yn hen gapel y Carneddi yr adwaenais I ef gyntaf. Yr oedd y pryd hwnw tua dwy ar hugain oed. Mor foreu a hyny yr oedd fel athraw yn uwch o'i ysgwyddau i fyny na neb bron o'i gydathrawon. Efe a'r diweddar Barch. David Morris oeddynt yn sefyll fel dau dywysog mewn duwinyddiaeth yn ngolwg pawb. Byddai bod yn aelod o *glass* Owen Jones yr adeg hono yn gosod anrhydedd ar y dysgybl, yn debyg fel y gosodid anrhydedd ar y personau a fyddai yn Athrofa y Bala flynyddau ar ol hyny. . . . . Byddai yn Ysgol Sabbothol y Carneddi y pryd hyny fater duwinyddol yn cael ei roddi i holi arno, a hyny yn gyson bob chwech wythnos, a bron bob amser i ran Owen Jones y deuai holi. Byddai y materion yn cael eu codi o'r *Cyffes Ffydd*. Byddai Owen Jones yn holi ac yn egluro y pynciau nes y gwelai y dyla' o honom mai felly y byddai." Ac y mae Mr. Lloyd, fe welir, yn ymhyfhau; oblegid fe chwanega,—"Do! gosododd yr athrawiaeth Galfinaidd o flaen pawb mor oleu ac eglur nad oedd modd peidio credu mai felly yr oedd."

Dyna dystiolaeth Mr. Lloyd; a diau yw mai yn gynnil iawn y dylid ei hammheu; oblegid y mae y gŵr a'i dyry yn un o'r ychydig iawn sydd eto yn fyw a welodd ac a glywodd y bobl a'r pethau y mae efe yn son am danynt. Ynglŷn hefyd â llafur Owen Jones yn y ffordd hon, y mae yn ddigon gweddus crybwyll iddo adael ar ei ol ugeiniau o "bynciau ysgol," a dynwyd allan ganddo ef ei hun yn ei flynyddoedd cyntaf. Dengys y rhai hyn gyduabyddiaeth helaeth â'r Ysgrythyr Lân. Dyma'r pryd, ni dybygem, y dechreuodd, ac, yn wir, y tyfodd ac y cryfhäodd ei hoffder mawr o'r Gair Sanctaidd a'i wybodaeth dra manwl ynddo. Ar hyd ei oes yr oedd yn hynod

yn y pethau hyn, y rhai, er ein bod yn achub y blaen o ran amser, na waeth, ond odid, i ni eu crybwyll yn awr nag eto. Darllenodd lawer ar y Bibl: darllenai y llyfr ei hunan, heb nodiad nac esboniad; a chofiai yn afaelus a sior yr hyn a ddarllenai. 'Doedd nemawr berygl i neb ei glywed ef yn siarad fel y clybuwyd un gŵr a elwid yn ddiacon yn gwneuthur unwaith mewn cyfarfod lle yr oedd llawer yn gwrando:—"Yr wyf fi yn *meddwl*," ebai y dysgawdwr hwn, "bod *rhyw* air yn *rhyw le*, mewn *rhyw* adnod, yn dyweyd *rhyw* beth *tebyg*" i rywbeth arall ag yr oedd yntau yn ceisio ei ddyweyd y pryd hwnw; ac yna, fel un yn cael ymwared mawr, yn gorphen trwy chwanegu:—"Hwyrach y gŵyr y pregeth wyr sy yma am ryw adnod felly." Fel llyfr i bregethwyr, yr oedd yn lled amlwg, yr edrychai y gŵr hwnw ar y gyfrol sanctaidd. Nid felly Owen Jones:—

"Yr oedd yn ysgrythyrwr da," meddai Mr. Thomas Hughes, Gatehouse—eithaf tyst—am dano; "yr oedd yn hynod gyfarwydd yn y Bibl. Gallai ddyfynu brawddeg o ganol llyfrau Moses neu y Prophwydi a fyddai yn taro yn union ar y mater a fyddai dan sylw. Cofus genyf fod mewn Cyfarfod Ysgol, lle yr oedd yr ysgol fawr a'r gangen ysgol wedi myned allan â'u gilydd: y fam a'r ferch yn gwrthod cydweithio y naill gyda'r llall. Ymhlith eraill, dyma Owen Jones yn dyfod â'i gynghor ymlaen, ac yn dywedyd peth mor ddymunol fyddai iddynt ymroddi i gydweithio—fel y mae yr adnod yn dyweyd, meddai, '*Ynghyd* yr ysbeiliant feibion y dwyrain:' felly, ynghyd y byddwch chwithau gryfaf a harddaf i ysbeilio y diafol a'i ddodrefn, &c."

Prin, ond odid, y mae yn weddaidd cyfaddef bod adysgrifio yr hanesyn bychan yna yn deffro o'r newydd ynom, ac yn minio fwyfwy, ein hiraeth am Owen Jones; oblegid mynych, mynych, y clywsom ein hunain ef yn gwneuthur y cyffelyb ar lawer o achlysuron; a phob achlysur a ddangosai iddo yn fanwl a chyson ddarllen llawer ar y Bibl. Nid am na ddarllenai ddim ond efe. Yn bollol fel arall: yr oedd ganddo lyfrgell dda, o hen lyfrau da. Llyfrau duwinyddol oeddynt, bid sicr; a duwinyddiaeth go hen, ysgatfydd, y cyfrifid yr hyn a gynnwysent. Eto un dda iawn ydoedd er hyny; ac yntau a'i darllenodd ac a'i myfyriodd, nes bod ôl ei ymchwiliad a'i fyfyrdod arno yn nghynnulliadau ei frodyr. Yn athraw a chyfarwyddwr ei ieuenctyd, cawsai Robert Williams, Cae Aseth—gŵr y gellid traethu yn hir am ei ragoriaethau a'i rinweddau, ond y rhaid ei basio yn awr. Bu Owen Jones yn ffodus yn ei gyfarfyddiad â'r gŵr hwn, yr hwn ydoedd nid yn gerddor yn unig, ond yn dduwinydd blaenllaw yn ei oes ef; a chawsom achos i gredu iddo roddi cyfeiriad i astudiaeth dduwinyddol ei gyfaill ieuengach, yr hwn gyfeiriad a gadwodd yntau i fesur mawr, heb ŵyro o hono. Ond heblaw darllen duwinyddiaeth, nid oedd Owen Jones chwaith yn ddiystyr o helynt yr amseroedd yr oedd yn byw ynddynt. Wythnos ddigon annyddan ganddo fuasai wythnos heb bapyr newydd neu ddau. Ac am Y Drysorfa, ni chafodd hi nemawr ffyddlonach darllenydd o'r dechreu. Elai drwyddi bob mis yn gydwybodol a manwl. Gwnaethai hyny er ys talm. Cofiai yr hen rifynau gynt, ynghyd a'u cynnwys; ac i rywun oedd raddau yn ieuengach nag ef, difyr fyddai ei glywed yn cyfeirio at ysgrifenwyr Y Drysorfa yn ei blynyddoedd cyntaf, y rhai yr oedd eu hysgrifau wedi eu darllen gaudio, a chael argraff arosol ar ei feddwl. Ond maes mawr ei ddarllen ef, er hyny, oedd Gair yr Arglwydd. Ac yn ystod blynyddoedd olaf ei oes, dygwydd fuasai i un fyned i Bryn Salem na chai fod ar y bwrdd orwn y Bibl bras pedwarplyg â'r hoelion pres yn ei gloriau, ac Owen Jones un ai yn darllen, neu ynte newydd beidio. Ymddyddanai hefyd am yr hyn a ddarllenai. Holai am feddwl rhyw air a'r nad oedd yn ei ddeall i'w foddlonrwydd ei hunan, ac eto nas medrai gael llonydd ganddo. Ambell dro, adroddai ryw olwg newydd iddo ef a gawsai ar ryw ysgrythyr; a chyn y diwedd byddai yn ddigon tebyg o ddwyn i mewn i'r ymddyddan ryw sylw ynglŷn â'r ysgrythyr honno, a glywsai gan hwn neu arall o'r hen bregethwyr er ys tua thriugain fe allai o flynyddoedd yn ol.

(I'w barhâu.)

Lloffion.

PAUL A STEPHAN.

Sylwa beirniaid diweddar fod y pynciau neilldiol a drinir gyda'r fath lawnder gan Paul yn ei Epistolau, i'w canfod yn yr hedyn yn araeth Stephan. Y mae yn amlwg fod geiriau Stephan wrth farw wedi glynu wrth Saul; ac wedi iddo trwy ei ddychweliad gael hyd i'r llawn agoriad i feddwl Stephan, yr oedd hyd yn nod ymadroddion y merthyr yn cael eu trysori ganddo fel pethau wedi eu gwisgo âg adgofion anghymharol werthfawr a chysegredig.—*Canon* Liddon.

CRIST YN GWEDDIO.

Un o'r adegau neilldiol pan y byddai ein Hiachawdwr yn gweddïo llawer, oedd pan y byddai yn nodedig o brysur. Pan nas gallai gael amser i fwyta, câi amser i weddïo. Gwyddom beth yw cael dirwasgiad o waith, cael ein hysgubo megys oddiar ein traed gan amledd gorchwylion. Yr ydym ni yn gwneyd hyny yn *esgus* am beidio gweddïo; gwna Crist ef yn *rheswm* dros weddïo. Byddai Luther yn gweddïo yn hwy nag arferol ar y dyddiau y byddai brysuraf mewn gwaith.—Stalker.

Y BEIBL MEWN LLAW FER.

Ymysg y pethau prin a chywrain yn Llyfrgell Dr. Williams, *Grafton Street*, Llundain, y mae Beibl bychan, wedi ei ysgrifenu yn brydferth mewn Llaw fer. Dywedir ei fod wedi ei ysgrifenu gan fachgen o brentis yn

amser Iago yr Ail, yr hwn a ammheuai fod y brenin am ddiwreiddio Protestaniaeth; ac am hyny a gymerodd y drafferth ddirfawr i ysgrifenu yr oll o hono yn fanwl mewn llaw fer, rhag y byddai i'w Fibl argraffedig gael ei gymeryd oddiarno.

GEIRIAU Y DOETHION.

Defnyddiwch bethau tymmorol, gwerthfawrogwch bethau tragywyddol.

Y mae y dyn a foddhäodd bawb wedi marw cyn ei eni.

Peidiwch ehedeg os nad oes genych adenydd.

Na saethwch heb nod, ac na siaradwch heb feddwl.

Nid oes yr un dyn yn ffol bob amser; y mae pob dyn yn ffol weithiau.

Tangnefedd yw seren hwyrol yr enaid, megys mai rhinwedd yw ei haul; ac nid yw y ddau byth yn mhell oddiwrth eu gilydd.

Cronicl Cenadol.

Sylhet.

Rhanau o Lythyr oddiwrth y Parch. J. Pengwern Jones.

Tachwedd 30ain, ysgrifena Mr. Jones:—"Drwg genyf nas gallaf ysgrifenu atoch am lwyddiant, fel y maent yn gwneyd o'r gorsafoedd eraill, ond yr wyf ar yr un pryd yn edrych ymlaen yn obeithiol am lwyddiant mawr. Dygir y gwaith ymlaen gyda zel mawr gan yr ychydig Gristionogion brodorol sydd yma. Mae nifer da yn y cyfarfodydd, ac y mae yr holl aelodau yn awyddus i wneyd yr oll a allant dros y Gwaredwr. Yr ydym dan anfantais fawr trwy nad ydyw Gour Babu gyda ni yn gyson. Mae yn awr i ffwrdd ryw le yn y Dalaeth, ac ni bydd yn dychwelyd am be iwar mis o leiaf. Yr ydym yn gorfod dibynu ar efrydydd ieuanc i ddwyn ymlaen y gwasanaeth Bengalaidd. Pan y dysgaf yr iaith, gobeithiaf allu gweithio ymysg y tlodion, oblegid y mae yn wirioneedd am y lle hwn, fel am bob lle arall, fod y tlodion yn fwy parod na'r cyfoethogion i dderbyn yr efengyl. Yr wyf yn parhau gyda'r Darlithiau, ac y mae nifer da yn dyfod ynghyd. Mae y teimlad yn cryfhau ymysg y dosbarthiadau sydd wedi cael addysg y bydd i Gristionogaeth lwyddo; ac y mae hyn yn peri iddynt fod yn fwy penderfynol i beidio cauiatâu i'r gwirioneddau ddylanwadu arnynt."

Yna rhydd Mr. Jones engreifftiau o'r sylwadau a wneir gan rai o'r brodorion ar ei ddarlithiau, rhai yn dangos dygn anwybodaeth, ac eraill yn proffesu parch i'r Bibl. Crybwylla hefyd am y Cristionogion brodorol o Orissa a ddaethant i Sylhet i weithio yn y gerddi *tea*.

"Os bydd iddynt," meddai, "arwain bywyd cyson â'r efengyl, gallant wneyd llawer o les mewn tynu dynion eraill at yr efengyl. Gobeithiwn allu agor ysgol yn eu mysg yn unig i ddysgu i'w plant ddarllen y Bibl. Mae dros dri chan' mil o *agreement men* (rhai wedi cytuno i weithio am amser a chyflog penodol) yn ngerddi tê Assam yn unig. Os ychwanegir y *non-agreement men* a theuluoedd y cyfan, ni byddai y nifer fawr islaw dwy filiwn o eneidiau; a hyd y gwn i, nid oes un ymdrech yn cael ei gwneyd i roddi yr efengyl i'r rhai hyn; ac ymysg y ddwy filiwn, prin yr wyf yn meddwl y byddai yn bosibl dyfod o hyd i gynifer â mil o Gristionogion hyd yn nod mewn enw, ac ychydig iawn yn wir o Gristionogion gwirioneddol. Y mae maes ardderchog ymysg yr holl bobl hyn, a chan eu bod o'r *caste* isaf nid yw yn anhawdd eu cyrhaedd. Yr anhawsder penaf ydyw gallu gorchfygu gwrthwynebiadau y Gofalwyr Ewropeaidd; oblegir y maent yn gweled, pe byddai i'r dynion hyn droi yn Gristionogion, na byddai iddynt weithio ar y Sul, ac felly gwrthodant gaiatâu i unrhyw un siarad â hwynt."

Mewn llythyr dyddiedig Rhagfyr 14eg, dywed Miss John: "Rhaid i mi adael yr ysgol a phethau eraill hyd ryw dro eto. Yr wyf wedi cymeryd gofal yr ysgol y mis diweddaf hwn, ac y mae yn dda genyf hyny, er mai gwaith lled anhawdd ydyw."

Bryniau Rhasia.

DOSBARTH KHADSAWPHRA.

Llythyr oddiwrth y Parch. C. L. Stephens.

Mewn llythyr a ysgrifenwyd, dybygid, yn nechreu Rhagfyr, dywed Mr. Stephens. "Nid wyf ond newydd ddychwelyd o daith o un niwrnod ar bymtheg. Yn gyntaf oll aethum trwy Kynshi a rhai pentrefi eraill i Nongstoin, yr hwn sydd ddeugain milldir o ffordd, a'r pentref pellaf i'r cyfeiriad gorllewinol lle y mae ysgol. Yma arosasom dros y Sabboth, gan ymweled â dau neu dri o bentrefi eraill cyfagos. Yr oedd yn ein bryd fyned oddiyma i'r rhandir sydd yn mhellach i'r gorllewin ac ar dueddiau Bryniau Garo, ond parodd presennoldeb dynfwytäwr (teigr), yr hwn oedd eisoes wedi dinystrio naw neu ddeg o bobl mewn pentref cyfagos, i ni droi i gyfeiriad arall. O Nongstoin aethum i Rambrai, a gwnaed rhywbeth tuag at agor tir newydd yn y rhan hono. Ond cawsom nad oedd yn nheyrnas Brenin Lirngam, er ei bod yn cynnwys tiriogaeth eang, ond tua thri cant o dai, o'r rhai nid oedd mwy na 40 yn perthyn i'r Khasiaid. Treuliais bedair noswaith mewn tri o bentrefi Cristionogol yn Garo. Ar y cyfan boddhawyd fi gan yr hyn a welais yn eu mysg; cynnwysa un pentref 19 o dai, un arall 48, a'r trydydd 36. Maent dan arolygiaeth cenhadon y Bedyddwyr Americanaidd.

Derbyniasom bump i gyflawn aelodaeth yn Kynshi; mae yn Pariong bedwar neu bump yn dysgwyl cael eu derbyn.

Bryniau Jaintia.

RHANAU O LYTHYRAU ODDIWRTH Y PARCH. R. EVANS, SHANGPOONG.

MEWN tri o lythyrau, dyddiedig Tachwedd y 15fed, y 18fed a'r 20fed, rhydd Mr. Evans hanes ymweliadau a wnaed ganddo âg amryw bentrefi yn ei ddosbarth. Aeth yn gyntaf i Mawkaiew, y pentref newydd lle y mae Cristionogion Iangkiat wedi ymsefydlu, o herwydd afiachusrwydd eu hen bentref. "Nid oedd y mwyaf gobeithiol," meddai Mr. Evans "yn dysgwyl hanner cymaint o gyfnewidiad er gwell yn iechyd y bobl ag y mae y symudiad o'r naill bentref i'r llall wedi ei wneyd. Lle y byddwn o'r blaen yn gorfod rhoddi meddyginiaeth i hanner cant neu driugain, nid oedd y tro hwn ond tri o gwbl yn galw am fy ngwasanaeth. Dywedais flwyddyn neu ddwy yn ol fod y llesgedd corfforol oedd arnynt yn rhoddi argraff ar eu hysbrydoedd ac ar eu crefydd. Ac yn awr y mae adnewyddiad eu hechyd wedi dwyn yni a zel i'w crefydd. Cawsom gyfarfod da ddydd Sadwrn i barotoi yr aelodau ar gyfer y cymundeb; ac yr oedd gwenau yr Arglwydd ar y cyfarfod ddydd Sul. Dywedai un neu ddau fod arnynt gywilydd wrth edrych yn ol mor ddiegni a difraw oeddynt wedi bod yn ystod y blynyddoedd diweddaf gyda chrefydd. Meddyliient gymaint o bleser oeddynt wedi golli drwy eu hesgeulusdra, ac o'nent eu bod hyd yn nod wedi bod yn rhwystr ar ffordd llwyddiant yr efengyl yn y pentrefi cylchynol. Addawent oll fod yn fwy llafurus a gwyliadwrus gyda'u crefydd bersonol, ac yn fwy gweithgar i ddwyn eu cymydogion at Grist. Arholais blant yr ysgol yn y pethau yr oeddynt wedi bod yn llafurio ynddynt, ac hefyd yn y Tonic Solffa. Yr oedd amryw o'r plant wedi gwneyd cynnydd yn hyn. Gwelais yr athraw ar ol hyny, a dywedai fod yr ymweliad wedi bod yn symbyliad i'r Cristionogion i waith, ac fod ysbrydiaeth newydd yn mhlant yr ysgol. Mae ditrawder yr eglwys hon wedi bod yn pwyso yn drwm ar fy meddwl am ddwy neu dair blynedd; ac y mae gweled y cyfnewidiad hwn er gwell ynddynt yn peri calondid mawr i mi."

"Yr oedd yn Suhtynga ddau,—mam a'i mab,—yn yr eglwys, a dim ond hyny. Yr oedd y ddau hyn yn Gristionogion da, ac wedi dal yn wyneb llawer o demtasiynau i roddi i fyny; ond yr oedd yr holl w andawyr—oddeutu ugain mewn nifer—yn lled ddifraw a diofal am ddysgu, a dia«ydd am gymhwyso eu hunain o ran gwybodaeth i ddyfod i'r eglwys. Yr oeddynt wedi bod felly am rai misoedd, er gofid mawr i'r ddau oeddynt yn yr eglwys; ond yr oeddynt yn ddiweddar wedi newid er gwell, ac yn awyddus am i mi ymweled â hwy.

Dydd Sadwrn cawsom gyfarfod eglwysig i dderbyn yr hen wraig a'i mab yn gyflawn aelodau. Cefais lawer o bleser wrth eu holi, yn enwedig wrth holi yr hen wraig, yr hon sydd o 70 i 80 oed. Gwyddai fwy nag oeddwn yn ddysgwyl am Fedydd a Swper yr Arglwydd, ond dywedai nad oedd yn gwybod ond ychydig iawn. "Yr wyf yn gwybod," meddai, "fod y pethau hyn yn arwyddion fod modd i bechadures fel fi gael maddeuant drwy waed Iesu Grist, a'i fod Ef yn fy ngharu, ac yn meddwl am danaf. Ac yr wyf finnau yn ei garu Ef yn fawr *fawr* iawn." Yr wyf finnau yn llwyr gredu ei bod yn dyweyd y gwir. Mae yr hen wraig hon yn gymeriad dyddorol iawn. Y mae hi wedi byw o 40 i 50 mlynedd gydag un gŵr; ac y mae hwn yn rhinwedd nad ŵyr ond ychydig iawn o ferched Jaintia drwy brofiad am dano. Mae ei gŵr yn fyw eto, ond dilyn o bell y mae; ac y mae hyn yn achos o gryn ofid i'r hen wraig. Daeth yr holl ffordd—pedair milldir ar ddeg—drwy y gwlaw trymaf, flwyddyn i Gorphenaf diweddaf, i Shangpoong i gael ei derbyn i'r eglwys ar brawf. Gofynais iddi a oedd hi yn sicr ei bod yn caru Iesu Grist. "Hyh!" meddai, "ydych chwi yn meddwl y buaswn i'n dyfod yr holl ffordd yma ar wlaw mor fawr i gael fy nerbyn i'r eglwys, oni b'ai fy mod yn ei garu?" Mae hi yn un o'r Cristionogion syml a zelog hyny ag y mae yn iechyd i'n hysbryd eu gweled. Nid oes arni ofn dyweyd Amen, neu ganmol Iesu Grist ar gyhoedd. Pan af yno, gafaela yn fy nwy law, a dawnsia o fy amgylch, gan beri i minnau gymeryd rhan yn y ddawns, er difyrwch m wr i'r gwyddfodolion. Yr wyf yn credu fy mod wedi cael bod yn offeryn i ddwyn goleuni yr efengyl i'w chalon. Teimla hithau hyny, ac y mae wedi dyweyd lawer gwaith ei bod yn fy ngharu yn fwy na'i phlant, ac yn fwy na neb ond Iesu Grist.

Ar ol yr Ysgol Sul cawsom gyfarfod ar ganol y pentref, am fod yr ysgoldŷ yn rhy fychan. Yn y cyfarfod hwn y bedyddiwyd y ddau, a bachgen, sef ŵyr i'r hen wraig, ac yna gweinyddwyd ordinhad Swper yr Arglwydd am y tro cyntaf erioed yn mhentref Suhtynga. Yr oedd cynnulleidfa fawr wedi dyfod ynghyd o'r pentref i weled y seremoni, ac yn eu plith yr oedd offeiriad y pentref, a nifer o'r prif ddynion, y rhai a ymddygasant yn hollol weddaidd hyd y diwedd. Arosodd yr offeiriad a dau neu dri eraill i eistedd gyda ni ar ol y cyfarfod. Ymhlith pethau eraill, gofynais iddo beth oedd efe yn feddwl o'r cyfarfod, a dywedodd ei fod wedi synu—fod y gwirioneddau oedd wedi glywed, a'r difrifwch a'r tawelwch oedd yn y cyfarfod, wedi peri iddo ryfeddu. Mae yr efengyl yn ddigon nerthol i'w ddwyn yntau drosodd, "oblegid gallu Duw yw hi."

Ddydd Llun drachefn daeth lliaws mawr ynghyd i weled priodi cwpl am y tro cyntaf erioed yn ol y drefn Gristionogol. Ar ol darfod, gofynais i rai o'r bobl pa un ai y drefn Gristionogol ai y drefn (?) Syntiaidd oedd yr oreu. "Y drefn Gristionogol," meddai amryw o honynt ar unwaith. "Nid oes genym ni drefn o fath yn y byd." Mae y Syntiaid yn llawer mwy didrefn na'r Khasiaid gyda hyn, fel mai gwir a ddywedent nad oedd ganddynt drefn.

Methais y tro hwn a myned i amryw bentrefi ag yr oeddwn wedi bwriadu myned iddynt. Mae yr efengyl yn llwyddo er pob gwrthwynebiad. Mae ei dylanwad yn gweith-

io yn ddystaw am amser maith iawn cyn i'r bobl roddi i mewn. Lle mae yr eglwysi yn zelog, a'r Cristionogion yn ofalus i fyw yn ol yr efengyl, nid oes dim a saif o'i blaen."

"Mae y gwaith yn Shangpoong wedi bod yn myned ymlaen yn rheolaidd. Diwedd Medi, cynnaliasom ein cyfarfod chwarterol gyda'r athrawon a phenaethiaid y pentrefi Cristionogol; ac yr oedd yn gyfarfod da iawn. Drwy hyn y mae pawb yn y Dosbarth yn gwybod hanes sefyllfa yr achos yn y gwahanol bentrefi. Weithiau mae pethau digon rhyfedd a dyddorol yn cael eu dyweyd gan yr athrawon. Dyma un: Tua deunaw mis yn ol, daeth un o brif ddynion pentref Brato i fyw i blith y Cristionogion, ac i fod yn Gristion Am amser ymostyngai i bob rheol, ond wedi hyny daeth i deimlo fod yr iau yn drom. Nid oedd wedi ei dderbyn i'r eglwys, gan fod arnom eisieu prawf arno; ac yr oedd yn dda hyny, oblegid dechreuodd esgeuluso y moddion, ac yfed, a chymdeithasu â dynion ofer. O dipyn i beth, dechreuodd weithio ar y Sabboth, a chafodd yr hyfdra ryw Sabboth i fyned i'w gaeau *rice*. Pan yno, gwelai deigr mawr yn dyfod yn llechwraidd fel cath tuag ato. Dechreuodd yntau wneyd swn, gan feddwl ei ddychrynu; gwnaeth ddefnydd o geryg, a'i raw a'i fwyall; ond dyfod yr oedd y teigr yn ochelgar, ond yn benderfynol, a chydag amcan, tuag ato. Meddiannwyd y dyn gan ofn mawr, a gwaeddai a chrochlefai mewn anobaith, ond dyfod yn nês a wnai y bwystfil er pobpeth; ac yr oedd erbyn hyn wedi dyfod o fewn ychydig rydau iddo, a bron yn ddigon agos i gymeryd ei naid arno. Yn ei ing cofiodd mai y Sabboth ydoedd, a'i fod ef wedi ei halogi, a phechu yn erbyn Duw. Gwaeddodd am faddeuant, a llefodd na wnai hyny byth mwy; ac mor gynted ag y gwnaeth hyny trôdd y bwystfil yn ei ol, bron mor araf ag yr oedd wedi dyfod ymlaen, a rhedodd y dyn adref mewn dychryn mawr."

Clydaw.

Mewn llythyr diweddar hysbysa y Parch. W. Jenkyn Jones fod y Protestaniaid yn Quimper yn dyfod i deimlo mwy o ddyddordeb yn y gwaith Cenadol, ac yn dangos hyny yn ymarferol trwy ymgymeryd â'r draul o dalu am ystafell i gynnal cyfarfodydd crefyddol. Dysgwylir y bydd llawer yn barod i ddyfod i ystafell gyhoeddus na ddeuent i'r capel Protestanaidd. Mae Mr. Jones wedi ymweled amryw weithiau yn ddiweddar âg Audierne, tref ar làn y môr, tua deunaw milldir o Quimper. Cynnaliodd gyfres o gyfarfodydd yno yn mis Rhagfyr; cynnaliwyd dau yno hefyd gan Groigneo, a bu dau o Fibl-gludwyr perthynol i'r Fibl Gymdeithas, sydd yn gweithio dan arolygiaeth Mr. Jones, yn aros yno am bythefnos. "Mae yn dra boddhaol," meddai y Cenadwr, "gweled y brwdfrydedd yn cynnyddu. Wrth gwrs nid yw pob peth fel y gallesid dymuno; mae y rhai nad ydynt yn ffafriol yn dra gelyniaethus, ond dyna yr agwedd meddwl goreu yn y rhai sydd yn gwrthwynebu; difaterwch marwaidd sydd yn gwbl ddigalon. Yr oedd un cymunwr newydd gyda ni y Nadolig—pysgotwr o Douarnenez, sydd wedi bod er ys amser maith yn dilyn ein cyfarfodydd, ac sydd yn sicr o ddylanwadu yn dda ar y rhai o'i amgylch. Mae eraill ar y trothwy."

Ionawr 8fed ysgrifena Mr. Evan Jones: "Crybwyllwyd eisoes, mewn rhifyn o'r Cronicl Cenadol, am bysgotwr o'r enw Le Meur (Y Mawr), a fwriodd ei goelbren i blith dysgyblion y Gwaredwr, rai misoedd yn ol; y mae pob arwyddion yn y cyfnewidiad amlwg sydd wedi cymeryd lle yn ei fywyd ei fod yn "Israeliad yn wir." Cawsom y fraint o gydgymuno âg ef y tro cyntaf y Sulgwyn diweddaf.

Dydd Nadolig diweddaf, aethum yn nghwmni brawd ieuanc o'r Cei Newydd sydd yn aros am dymmor yn y wlad hon, i Quimper, er mwyn bod yn bresennol yn y cyfarfod a gynnelid yn ein haddoldŷ yno y diwrnod hwnw. Gyda llaw, gallaf nodi fod fy nghyfaill ieuanc yn gryn gynnorthwy i ni gyda'r canu yn ein cyfarfodydd yn Pont l'Abbé. Pregethodd fy mrawd ar yr achlysur ar *Enedigaeth* y Ceidwad, ac wedi gorphen y rhan hon o'r gwasanaeth cawsom y fraint o gydgynnull oddeutu'r bwrdd i gofio *Angeu* y Gwaredwr. Teimlem yn hynod o hapus wrth gael mwynhâu y fath fraint, ac un peth a ychwanegai at ein hapusrwydd ydoedd y ffaith fod hen bysgotwr arall o Douarnenez yn cydfwynhâu â ni wrth fwrdd y Cymun am y tro cyntaf. Enw y dysgybl newydd hwn ydyw Le Guen, yn Gymraeg—"Y Gwyn," ac os ydyw wedi cael ei ddwyn i gyffyrddiad â'r "ffynnon hyfryd lawn o waed," fel y gobeithiwn, ceir ef ryw ddiwrnod yn fwy na llon'd ei enw, wedi dyfod yn wynach na'r eira ("gwenoc'h eird an erc'h"). Dyma bellach ddau o Douarnenez—"Y Mawr" a'r "Gwyn," fel blaenffrwyth y cynhauaf mawr y mae y Gwaredwr yn y man, ni a hyderwn, i'w gasglu o blith ein cydgenedl, y Llywiaid.

Cynnelir y cyfarfodydd yn Pont l'Abbé gyda phob cysondeb dichonadwy, ac y mae yma amryw sydd *wedi* ac *yn* parhâu i'w mynychu yn ffyddlawn o'r dechreu, a hyny, mewn rhai engreifftiau, ar draul cael eu drygu yn eu hamgylchiadau drwy wneyd. Y mae syniadau y werin, yn bur gyffredinol bellach, yn ffafriol i'n hymdrechion—a dywedant mai gwaith da ydyw yr un yr ydym yma o'i herwydd. Eto y mae difaterwch a difrawder yn cadw llawer o'r cyfarfodydd, tra y mae eraill yn methu dyfod dan berygl cael eu drygu yn eu masnach.

Y mae un hen wraig yn dilyn yn ffyddlawn iawn o'r cychwyn cyntaf, a hyny yn ngwyneb llawer o rwystrau. Yr oedd yn gwasanaethu mewn teulu Pabyddol ychydig amser yn ol, ond collodd ei lle o herwydd ei hymlyniad wrth ein cyfarfodydd.

Ymhlith y rhai mwyaf ffyddlawn y mae bachgen ieuanc tua *phedair ar ddeg* oed.

Y mae yn wrandawr astud, ac yn dal yn dda ar yr hyn y mae yn ei glywed. Ych ydig amser yn ol cymhellai ei fam ef i fyned at yr offeiriad i'w gyffesu, nid o herwydd ei zel Babyddol, ond er mwyn y fasnach. Gwrthododd yn hollol, gan ddyweyd fod ei gydwybod yn groes i hyny. 'Paham,' gofynai, 'na chaf fi ryddid cydwybod fel pawb arall?'

Y mae y cyfarfodydd plant yn Lambour yn parhâu i gael eu cynnal mor ddifwlch ag y gellir, ac y mae y cynnulliadau iddynt yn dal yn foddhâol."

DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

Dymuna y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar ei fod wedi derbyn y symiau canlynol er pan wnaed yr hysbysiad diweddaf:—

	£	s.	d.
O New York, trwy law Mr. Robert Lewis, New York	10	0	0
O America, trwy law Mr. E. E. Jones, Columbus, Wis.	67	10	0
Cymunrodd y ddiweddar Mrs. Ellen Roberts, Utica, trwy law Mr. Thomas Solomon Griffith, Utica, Talaeth New York	19	2	0
Cymunrodd y diweddar Mr. David Jones, 13, Hopkins Street, Treherbert, trwy law y cymunweinyddwr, Mr. John Jones, ar ol talu y doll	90	0	0
Henaduriaeth Trefaldwyn ac Amwythig	83	0	0
Gorllewin Morganwg	182	2	1
Casgliwyd gan y plant:—			
Llanfyllin	1	6	11
Llanfynydd	5	0	4
Penmaenmawr	2	14	5
Ffynnongroew	8	13	0
Llanrhaiadr, Sir Drefaldwyn	6	11	8
Walton, Liverpool	3	4	0
Farnworth Street	2	6	2
Boduchaf, Pontypridd	1	17	2
Penllyn ac Eirianallt	2	5	7
Penderyn	0	15	0
Cefnmawr	1	19	2
Cemmes	0	16	6
Conwy	1	5	1½
Llanfyllin	1	6	11
Solva	2	6	10
Llandilo	1	7	6
Llangerniew	1	13	3
Tyddewi	3	7	3
Gwastad, Sir Benfro	8	12	10
Ewenni	2	11	0
L. M. M. H., Eifionydd	5	0	0
Un o Ddehau Aberteifi	0	10	0
Dwyrain Meirionydd	127	9	10
Arfon	400	0	0
Eto, casgliad y Plant	24	3	2½
Eto, canghen y Chwiorydd, Bethesda	25	0	0
Bethlehem, Treorkey	11	18	3
Caergwrle	5	15	5½
Sir Fflint	3	4	6
Breeze Hill	2	3	3
Gorllewin Meirionydd	348	11	5
Mr. Richard Owen, Eryri House, Talysarn	1	1	0
Castellnedd (Seisonig)	3	2	0
Castell Newydd Emlyn	9	10	0
Cei Newydd—			
Ennillion y rhwyd genadol	0	6	0
Blwch Mr. R. Hughes, Graianfa, Llanelwy	0	12	0
Dyffryn Clwyd (ychwanegol)	150	0	0
Cangen Gymdeithas y Chwiorydd, Liverpool	177	17	5
Sir Fflint	32	4	9
Sir Fflycheiniog	55	1	4
Calenig Cymro, &c.	1	0	0
Hirwaen	5	15	3
Acrfair	5	7	7½
Cwmparc	9	16	0
Hermon, Dowlais	14	1	9
Mr. David Lewis, Hope Street, i'w defnyddio gan Dr. A. D. Hughes at amcanion Cenhadol	5	5	0
Alexandra Road, Swansea (Seisonig)	1	10	0
Cefnybedd	1	5	7
Mr. Morris Griffiths, South Stack Station, Holyhead, i gyfarfod â'r treuliadau ychwanegol	0	5	0
Mrs. E. Davies, Bridge Street, Llanerchymedd, tuag at Sylhet	1	3	0
Henaduriaeth Mynwy	28	1	1
Eto Argyle, Swansea	18	9	4
Eto Great Frederick St., Caerdydd	10	0	7
Sir Fynwy	59	13	3
Gogledd Aberteifi (ychwanegol)	131	13	5
Lleyn ac Eifionydd (ychwanegol)	15	5	1
Dehau Aberteifi	123	4	9
Whitchurch, Caerdydd	2	4	3
Horeb, Cathays, Caerdydd	6	15	1
Llanerchymor	1	2	7½
Derbyniwyd am "Ymweliad â Khasia," Llyfr Mr. J. Herbert Roberts	17	13	8
Siloh, Victoria, Mynwy	1	5	6
Cydnabyddiaeth fechan, &c.	1	0	0
I'w defnyddio gan wragedd y Cenhadon	5	0	0
Pembroke Terrace, Caerdydd	17	12	1
Brynhenllan	3	0	0
Sir Benfro, Seisonig	60	2	4
Eto Cymreig	45	8	7
Liverpool, ychwanegol	23	5	1
Mountain Ash	2	10	1½
Tuag at Ysbytŷ newydd Jiwai:—			
Dosbarth Miss Ellis, Tabernacle, Bangor	0 10 0		
Eto Ysgol Sab. Catherine St., Liverpool	1 1 0		
Eto Miss M. J. Watkins, trwy law y Parch. T. Hughes	1 1 0		
Eto Wellwisher to Khasia Mission, eto	0 10 0		
Eto Cyfaill i'r Genhadaeth, trwy law y Parch. John Jones, Jiwai	10 0 0		
		13	2 0

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, David Hughes, Esq., J.P., 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of Mr. David Hughes, Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.*

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. Herbert Lewis, Esq., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* Josiah Thomas, M.A., 28, *Breckfield Road Scuth, Liverpool.*

P. M. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.